# Agenda - Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Lleoliad:

**Fideogynhadledd drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Llun, 9 Ionawr 2023

Amser: 13.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**P Gareth Williams**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddDCC@senedd.cymru

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau.

(13.30)

## 2 Offerynnau nad ydynt yn cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3.

(13.30 - 13.35) (Tudalen 1)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-01-23 - Papur 1 - Adroddiad drafft

**Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Gwneud Negyddol**

**2.1 SL(6)300 - Rheoliadau Adnoddau Dwr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) (Diwygio) 2022**

## 3 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3.

(13.35 - 13.40)

**Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Gwneud Negyddol**

**3.1 SL(5)299 - Rheoliadau Hadau (Cywerthedd) (Diwygio) (Cymru) 2022**

(Tudalennau 2 - 3)

Rheoliadau

Memorandwm Esboniadol

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-01-23 – Papur 2 – Adroddiad drafft

**3.2 SL(6)304 - Rheoliadau Bwydydd Proses sydd wedi eu Seilio ar Rawn a Bwydydd Babanod ar gyfer Babanod a Phlant Ifanc (Cymru) (Diwygio) 2022**

(Tudalennau 4 - 5)

Rheoliadau

Memorandwm Esboniadol

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-01-23 – Papur 3 – Adroddiad drafft

**3.3 SL(6)305 - Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Estyn Cyfnodau Trosiannol) (Diwygio) (Cymru) 2022**

(Tudalennau 6 - 12)

Rheoliadau

Memorandwm Esboniadol

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-01-23 – Papur 4 – Adroddiad drafft

LJC(6)-01-23 – Papur 5 – Llythyr gan Weinidog yr Economi at y Llywydd, 15 Rhagfyr 2022

LJC(6)-01-23 – Papur 6 – Datganiad Ysgrifenedig gan Weinidog yr Economi, 15 Rhagfyr 2022

**3.4 SL(6)306 - Rheoliadau Marchnata Hadau a Deunyddiau Lluosogi Planhigion (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) (Rhif 2) 2022**

(Tudalennau 13 - 16)

Rheoliadau

Memorandwm Esboniadol

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-01-23 – Papur 7 – Adroddiad drafft

LJC(6)-01-23 – Papur 8 – Llythyr gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, 15 Rhagfyr 2022

**Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Cadarnhaol**

**3.5 SL(6)297 – Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Gofynion Rhagnodedig a'r Cynllun Diofyn) (Cymru) (Diwygio) 2023**

(Tudalennau 17 - 19)

Rheoliadau

Memorandwm Esboniadol

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-01-23 - Papur 9 - Adroddiad drafft

LJC(6)-01-23 - Papur 10 - Datganiad Ysgrifenedig gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, 6 Rhagfyr 2022

## 4 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3 – trafodwyd eisoes

(13.40 - 13.45)

**4.1 SL(6)279 – Gorchymyn Iechyd Anifeiliaid (Compartmentau Dofednod a Chrynoadau Anifeiliaid) (Ffioedd) (Cymru) (Diwygio) 2022**

(Tudalennau 20 - 23)

Gorchymyn

Memorandwm Esboniadol

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-01-23 - Papur 11 - Adroddiad

LJC(6)-01-23 - Papur 12 - Ymateb Llywodraeth Cymru

**4.2 SL(6)292 - Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Diwygio a Swyddogaethau Deddfwriaethol) ac Iechyd Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2022**

(Tudalennau 24 - 51)

Rheoliadau

Memorandwm Esboniadol

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-01-23 - Papur 13 - Adroddiad

LJC(6)-01-23 - Papur 14 - Ymateb Llywodraeth Cymru

LJC(6)-01-23 - Papur 15 - Llythyr at y Gweinidog Materion Gwledig a

Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, a'r Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant, 12 Rhagfyr 2022

LJC(6)-01-23 – Papur 15a – Llythyr gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, a'r Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant, 13 Rhagfyr 2022

**4.3 SL(6)291 – Rheoliadau Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2022**

(Tudalennau 52 – 66)

Rheoliadau

Memorandwm Esboniadol

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-01-23 – Papur 16 – Adroddiad

LJC(6)-01-23 – Papur 17 – Ymateb Llywodraeth Cymru

LJC(6)-01-23 – Papur 18 – Llythyr gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, a'r Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant, 13 Rhagfyr 2022

LJC(6)-01-23 – Papur 19 – Llythyr at y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, a'r Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant, 12 Rhagfyr 2022

## 5 Fframweithiau cyffredin

(13.45 – 13.50)

**5.1 Adroddiad Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig ar Fframweithiau Cyffredin**

(Tudalennau 67 – 104)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-01-23 – Papur 20 – Adroddiad Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig ar Fframweithiau Cyffredin, 9 Rhagfyr 2022

## 6 Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol

(13.50 – 13.55)

**6.1 Datganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Rheoliadau Canolfan Wybodaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Trosglwyddo Swyddogaethau, Diddymu a Darpariaethau Trosiannol) 2023**

(Tudalennau 105 - 107)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-01-23 - Papur 21 - Datganiad Ysgrifenedig gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, 19 Rhagfyr 2022

LJC(6)-01-23 - Papur 22 - Llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, 14 Rhagfyr 2022

**6.2 Gohebiaeth gan y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant: Rheoliadau Atchwanegiadau Bwyd a Bwyd ar gyfer Grwpiau Penodol (Diwygiadau Amrywiol) 2022**

(Tudalennau 108 - 114)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-01-23 - Papur 24 - Llythyr gan y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant, 20 Rhagfyr 2022 [Saesneg yn unig]

LJC(6)-01-23 - Papur 23 - Llythyr at y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant, 7 Rhagfyr 2022

**6.3 Gohebiaeth gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad: Rheoliadau Rhwymedigaethau Cyfrifoldeb Cynhyrchwyr (Gwastraff Deunydd Pacio) (Diwygio) (Cymru a Lloegr) 2022**

(Tudalen 115)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-01-23 - Papur 25 - Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, 20 Rhagfyr 2022

**6.4 Datganiad Ysgrifenedig gan y Gweinidog Newid Hinsawdd: Presenoldeb yn y Grŵp Rhyngweinidogol ar yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig**

(Tudalennau 116 - 119)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-01-23 - Papur 27 - Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, 23 Rhagfyr 2022

LJC(6)-01-23 – Papur 26 – Datganiad Ysgrifenedig gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, 23 Rhagfyr 2022

**6.5 Gohebiaeth gan Weinidog yr Economi: Cyfarfod y Grŵp Rhyngweinidogol ar Fasnach**

(Tudalen 120)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-01-23 – Papur 28 – Llythyr gan Weinidog yr Economi, 23 Rhagfyr 2022

**6.6 Datganiad ysgrifenedig gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg: Y Cyngor Gweinidogion Addysg**

(Tudalen 121)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-01-23 – Papur 29 – Datganiad ysgrifenedig gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg, 23 Rhagfyr 2022

## 7 Papurau i'w nodi

(13.55 – 14.05)

**7.1 Gohebiaeth gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg: Addysg yn y cartref**

(Tudalennau 122 – 128)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-01-23 – Papur 32 – Llythyr gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg, 29 Tachwedd 2022

LJC(6)-01-23 – Papur 31 – Llythyr at Weinidog y Gymraeg ac Addysg, 2 Tachwedd 2022

LJC(6)-01-23 – Papur 30 – Llythyr at Education Otherwise, 2 Tachwedd 2022

**7.2 Gohebiaeth gan y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai at y Pwyllgor Busnes: Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol**

(Tudalennau 129 – 130)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-01-23 – Papur 33 – Llythyr gan y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai at y Pwyllgor Busnes, 8 Rhagfyr 2022

**7.3 Gohebiaeth gan y Pwyllgor Cyllid: Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-24**

(Tudalennau 131 - 134)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-01-23 – Papur 34 – Llythyr gan y Pwyllgor Cyllid, 12 Rhagfyr 2022

**7.4 Gohebiaeth gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol: Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar y Bil Caffael**

(Tudalen 135)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-01-23 – Papur 35 – Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol at y Llywydd 12 Rhagfyr 2022

**7.5 Gohebiaeth gan y Prif Weinidog at Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig: Yr Ail Brotocol Ychwanegol i Gonfensiwn Cyngor Ewrop ar Seiberdroseddu**

(Tudalennau 136 - 142)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-01-23 – Papur 37 – Llythyr gan y Prif Weinidog at Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 12 Rhagfyr 2022

LJC(6)-01-23 – Papur 36 – Llythyr gan Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig at y Prif Weinidog, 21 Tachwedd 2022

**7.6 Gohebiaeth gan Weinidog yr Economi: Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Masnach (Awstralia a Seland Newydd)**

(Tudalennau 143 - 144)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-01-23 – Papur 38 – Llythyr gan Weinidog yr Economi, 14 Rhagfyr 2022

**7.7 Gohebiaeth gan y Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol: Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru)**

(Tudalennau 145 - 146)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-01-23 – Papur 39 – Llythyr gan y Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol, 15 Rhagfyr 2022

**7.8 Gohebiaeth gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg: Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Ysgolion**

(Tudalennau 147 - 148)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-01-23 – Papur 40 – Llythyr gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg, 16 Rhagfyr 2022

**7.9 Gohebiaeth gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Ymwelwyr Tramor) (Diwygio) (Rhif 4) (Cymru) 2022**

(Tudalennau 149 - 152)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-01-23 – Papur 42 – Llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, 19 Rhagfyr 2022

LJC(6)-01-23 – Papur 41 – Llythyr at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, 9 Rhagfyr 2022

**7.10 Gohebiaeth gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd: Rheoliadau Anifeiliaid ac Iechyd Anifeiliaid, Bwyd Anifeiliaid a Bwyd, Planhigion ac Iechyd Planhigion (Diwygio) 2022**

(Tudalennau 153 - 155)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-01-23 – Papur 44 – Llythyr gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, 22 Rhagfyr 2022

LJC(6)-01-23 – Papur 43 – Llythyr at y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, 7 Rhagfyr 2022

## 8 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod.

(14.05)

## 9 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Esgyll Siarcod: Adroddiad drafft

(14.05 - 14.15) (I ddilyn)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-01-23 – Papur 45 – Adroddiad drafft [Saesneg yn unig]

## 10 Y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol ar y Bil Tai Cymdeithasol (Rheoleiddio)

(14.15 - 14.25) (Tudalennau 156 - 170)

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 4)

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-01-23 – Papur 46 – Nodyn cyngor cyfreithiol [Saesneg yn unig]

LJC(6)-01-23 – Papur 47 – Adroddiad drafft [Saesneg yn unig]

## 11 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar Fil Banc Seilwaith y DU

(14.25 - 14.35) (Tudalennau 171 - 176)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-01-23 – Papur 48 – Nodyn cyngor cyfreithiol [Saesneg yn unig]

## 12 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Technoleg Enetig (Bridio Manwl)

(14.35 - 14.55) (Tudalennau 177 - 208)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-01-23 – Papur 49 – Nodyn cyngor cyfreithiol [Saesneg yn unig]

LJC(6)-01-23 – Papur 50 – Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd, 27 Mehefin 2022

LJC(6)-01-23 – Papur 51 – Papur briffio gan Ymchwil y Senedd [Saesneg yn unig]

## 13 Cytundebau rhyngwladol

(14.55 - 15.05) (Tudalennau 209 - 211)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-01-23 – Papur 52 – Briffio [Saesneg yn unig]

# Offerynnau Statudol sydd ag Adroddiadau Clir

# 09 Ionawr 2023

## SL(6)300 – Rheoliadau Adnoddau Dwr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) (Diwygio) 2022

### Gweithdrefn: Negyddol

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau 2021 drwy ohirio y dyddiad gweithredu ar gyfer y terfyn uchaf blynyddol o 170kg yr hectar o nitrogen mewn tail da byw sy'n cael ei wasgaru, a'r cyfnod cadw cofnodion perthnasol,  o 1 Ionawr 2023 i 30 Ebrill 2023 ar gyfer daliadau neu rannau o ddaliadau nad oeddent gynt wedi eu lleoli o fewn parth perygl nitradau.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y cawsant eu gosod gerbron y Senedd.

**Rhiant-Ddeddf:** Ddeddf Adnoddau Dŵr 1991

**Fe'u gwnaed ar:** 8 Rhagfyr 2022

**Fe'u gosodwyd ar:** 9 Rhagfyr 2022

**Yn dod i rym:** 31 Rhagfyr 2022

# SL(6)299 – Rheoliadau Hadau (Cywerthedd) (Diwygio) (Cymru) 2022

## Cefndir a Diben

Mae Rheoliadau Hadau (Cywerthedd) (Diwygio) (Cymru) 2022 ("y Rheoliadau") yn diwygio Erthygl 6 o Benderfyniad y Cyngor 2003/17/EC dyddiedig 16 Rhagfyr 2002 ar gywerthedd archwiliadau maes a gynhelir mewn trydydd gwledydd ar gnydau sy'n cynhyrchu hadau ac ar gywerthedd hadau a gynhyrchir mewn trydydd gwledydd. Mae'r Rheoliadau yn estyn dyddiad dod i ben y Penderfyniad hwn o 31 Rhagfyr 2022 i 31 Rhagfyr 2029.

Roedd y cynnig i ymestyn Penderfyniad y Cyngor yn ddarostyngedig i gyfnod o chwe wythnos o ymgysylltu anffurfiol â rhanddeiliaid. Gwnaed hyn ar y cyd gan Lywodraethau Cymru, Llywodraeth yr Alban a Llywodraeth y DU.

## Y weithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y cawsant eu gosod gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. **Rheol Sefydlog 21.2(ii) - yr ymddengys ei fod yn gwneud defnydd anarferol neu annisgwyl o'r pwerau a roddwyd gan y deddfiad y mae wedi'i wneud neu y mae i'w wneud oddi tano;**

Yn y rhaglith, mae angen eglurhad ynghylch a yw'r pwerau a ddefnyddiwyd yn gywir. Mae'r offerynnau cyfatebol ar gyfer Lloegr a'r Alban ond yn cyfeirio at "section 16 **(1) and (1A)**" yn lle "section 16**(1) to (4)**". Nid yw'n glir a ddefnyddir y pwerau yn is-adrannau (2) i (4) yn yr offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodir y ddau bwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

2. **Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Yn y Nodiadau Esboniadol, nid oes unrhyw baragraff yn nodi pa un a yw Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn bodoli ai peidio, neu lle y gellir dod o hyd iddo. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn esbonio bod Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn bodoli ond nid yw hyn yn cael ei esbonio yn y Rheoliadau.

**3. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Gwneir y pwyntiau a ganlyn ynghylch termau a ddefnyddir yn y testun Cymraeg ar gyfer "equivalence" a "field inspections".

a. Defnyddir "Cywerthedd" yn y cyfieithiad am y gair "equivalence" yn y testun Cymraeg. Mae'r ffurf hon yn ymddangos yng Ngeiriadur yr Academi Gymreig fel sillafiad posibl o'r enw hwn, a cheir rhai enghreifftiau mewn offerynnau statudol diweddar. Ond mae Uned Cyfieithu Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru yn dilyn Geiriadur Prifysgol Cymru yn bennaf ac yn nodi "cy**f**werthedd" fel y sillafiad safonol ar gyfer yr enw hwn. At hynny, ni chyfeirir at "cywerthedd" ar wefan BydTermCymru, ond defnyddir "cyfwerthedd" yn hytrach am yr enw hwn. Mae'n ymddangos, felly, nad yw'r cyfieithiad wedi defnyddio canllawiau cyfieithu Llywodraeth Cymru trwy ddefnyddio "cywerthedd" yn hytrach na "cyfwerthedd" yn y Rheoliadau hyn.
b. Yn y Rheoliadau hyn, yn y testun Cymraeg, defnyddir "archwiliadau maes" fel y cyfieithiad ar gyfer "field inspections". Ond ymddengys fod rhywfaint o amrywiaeth rhwng "archwiliadau maes" ac "arolygiadau maes" yng nghyfieithiad yr offerynnau statudol. Mae'n ymddangos mai "arolygu" yw'r term safonol ar gyfer "inspection" yn Nherminoleg Ddeddfwriaethol yr Uned Cyfieithu Deddfwriaethol, ac mae angen gwahaniaethu ar adegau rhwng "examine" ac "inspect".

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'r pwynt adrodd technegol, a'r ddau bwynt rhinweddau.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**3 Ionawr 2023**

Eitem 3.2

# SL(6)304 – Rheoliadau Bwydydd Proses sydd wedi eu Seilio ar Rawn a Bwydydd Babanod ar gyfer Babanod a Phlant Ifanc (Cymru) (Diwygio) 2022

## Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Bwydydd Proses sydd wedi'u Seilio ar Rawn a Bwydydd Babanod ar gyfer Babanod a Phlant Ifanc (Cymru) 2004 ("Rheoliadau 2004") i:

a) ganiatáu ychwanegu calsiwm-L-methylffolad wrth weithgynhyrchu bwydydd proses sydd wedi eu seilio ar rawn a bwydydd babanod; a
b) chywiro gwelliant blaenorol a fethwyd i ychwanegu bisglycinad fferrus a zinc clorid fel ffynonellau a ganiateir o fitaminau a mwynau i'w hychwanegu at fwydydd proses sydd wedi eu seilio ar rawn a bwydydd babanod. Hefyd, pan fo bwyd proses sydd wedi ei seilio ar rawn neu fwyd babanod wedi'i labelu â swm cyfartalog y sylweddau hynny, effaith y Rheoliadau hyn yw bod yn rhaid gwneud hyn mewn modd sy'n cydymffurfio â'r gofynion labelu penodol a nodir yn rheoliad 8(2) a (3) o Reoliadau 2004.

## Y weithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y cawsant eu gosod gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodir un pwynt i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. **Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Mae'r Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau hyn wedi'i osod yn Saesneg yn unig. Gofynnir i Lywodraeth Cymru esbonio pam nad oes fersiwn Gymraeg o'r Memorandwm Esboniadol wedi'i osod.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Pwynt Craffu ar Rinweddau :

Rhoddir blaenoriaeth i gyhoeddi Memoranda Esboniadol ar gyfer is-ddeddfwriaeth yn Gymraeg (yn unol â Safon 47 o Safonau'r Gymraeg). Cyhoeddir fersiwn Gymraeg os bydd pwnc y Memorandwm Esboniadol yn awgrymu y dylai fod ar gael yn Gymraeg, neu os bydd y gynulleidfa a ragwelir yn disgwyl gweld fersiwn Gymraeg. Yn yr achos hwn, barnodd Llywodraeth Cymru fod fersiwn Gymraeg o'r Memorandwm Esboniadol yn ddiangen oherwydd natur gyfyng a phenodol y Rheoliadau a'r gynulleidfa darged bach.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**20 Rhagfyr 2022**

Eitem 3.3

# SL(6)305 – Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Estyn Cyfnodau Trosiannol) (Diwygio) (Cymru) 2022

## Cefndir a diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn estyn y Cyfnod Graddoli Trosiannol ar ôl Ymadael â'r UE i ganiatáu amser ychwanegol i ddatblygu a chwblhau cynigion ar gyfer trefn ffiniau yn y dyfodol sy'n diogelu ein bioddiogelwch ac yn cefnogi masnach.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Estyn Cyfnodau Trosiannol) 2021 a Rheoliadau Paratoadau Cig (Diwygio ac Addasiadau Darfodol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2021.

Mae rheoliad 2 yn diwygio Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Estyn Cyfnodau Trosiannol) 2021 er mwyn estyn, o ran Cymru, y dyddiad y daw'r cyfnod graddoli trosiannol i ben, a hynny o 31 Rhagfyr 2022 i 31 Ionawr 2024.

Mae rheoliad 3 yn diwygio Rheoliadau Paratoadau Cig (Diwygio ac Addasiadau Darfodol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2021 er mwyn estyn yr ataliad dros dro ar y gofyniad i baratoadau cig fod wedi eu rhewi'n ddwys pan fyddant yn cael eu mewnforio i Gymru o Aelod-wladwriaethau'r AEE, Ynysoedd Ffaro, yr Ynys Las neu'r Swistir, er mwyn iddo gyd-fynd â'r dyddiad a bennwyd ar gyfer diwedd yr estyniad i'r cyfnod graddoli trosiannol (rheoliad 2).

Ar 30 Rhagfyr 2022, mae'r offeryn hwn yn disodli'r dyddiad ar gyfer dod â'r cyfnod graddoli trosiannol i ben, fel y nodir yn Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Estyn Cyfnodau Trosiannol) 2021, fel na fydd unrhyw wiriadau mewnforio pellach yn dod i rym ar nwyddau iechydol a ffytoiechydol o'r UE yn 2023.  O ganlyniad i'r Rheoliadau hyn, mae'r cyfnod graddoli trosiannol yn cael ei estyn i 31 Ionawr 2024. Mae'r penderfyniad i beidio â chyflwyno gwiriadau pellach ar nwyddau iechydol a ffytoiechydol yn ystod 2023 yn golygu bod y polisïau dros dro a ganlyn yn cael eu hestyn hyd at 31 Ionawr 2024 drwy'r Rheoliadau hwn (gyda pholisïau parhaol i ddilyn maes o law):

• Atal y gofyniad i baratoadau cig a fewnforiwyd i Gymru o aelod-wladwriaethau'r AEE, Ynysoedd Ffaro, yr Ynys Las, neu'r Swistir, gael eu rhewi'n ddwys, gan sicrhau bod yr hawddfraint dros dro hwn yn cyd-fynd â'r rheolaethau cyfnod graddoli trosiannol diwygiedig. Bydd hyn yn caniatáu i baratoadau cig o'r gwledydd hyn barhau i gael eu mewnforio mewn cyflwr oer.

• Eithrio nwyddau personol sy'n rhan o fagiau teithwyr (ac eithrio planhigion i'w plannu) ac a fwriedir ar gyfer eu bwyta neu eu defnyddio'n bersonol, a chyflenwadau bach o gynhyrchion a anfonir at fodau dynol ac na fwriedir eu rhoi ar y farchnad, rhag rheolaethau swyddogol.

• Eithrio rhai nwyddau penodol a gynhyrchir yng Ngogledd Iwerddon neu Weriniaeth Iwerddon ac a fewnforir o Weriniaeth Iwerddon rhag y gofynion rhaghysbysu.

## Gweithdrefn

Negyddol

Cafodd y Rheoliadau eu gwneud gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddyddiau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gosodwyd gerbron y Senedd.

## Craffu Technegol

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodir un pwynt i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu'n codi materion polisi cyhoeddus sy'n debygol o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Nodwn fod y confensiwn 21 diwrnod yn cael ei dorri (h.y. y rheol y dylai 21 diwrnod fynd heibio rhwng y dyddiad y gosodir offeryn "gwneud negyddol" gerbron y Senedd a'r dyddiad y daw'r offeryn i rym), a nodwn yr esboniad am dorri'r confensiwn a roddodd Vaughan Gething AS, Gweinidog yr Economi, mewn llythyr at y Llywydd, dyddiedig 15 Rhagfyr 2022.

Yn benodol, nodwn y canlynol yn y llythyr:

(1) "...Rhaid i'r ddeddfwriaeth ddod i rym erbyn 30 Rhagfyr er mwyn sicrhau nad yw'r cyfnod graddoli trosiannol yn dod i ben ac na fydd bwlch yn y darpariaethau trosiannol. Heb y ddeddfwriaeth hon, ac yn absenoldeb safleoedd rheoli ffin, byddem i bob pwrpas yn cau llwybrau masnach i Gymru ar gyfer rhai nwyddau. Yn flaenorol mae Rheoliadau sy'n ymwneud â'r Cyfnod Graddoli Trosiannol (TSP) ar gyfer nwyddau sy'n dod i mewn i Brydain Fawr o'r UE a rhai gwledydd eraill, wedi'u cyflwyno gan Lywodraeth y DU ar ran Cymru gyda chydsyniad Gweinidogion Cymru. Fodd bynnag, penderfynwyd gennym y byddai'n well deddfu yng Nghymru ar y mater hwn gan gydlynu cyn belled ag y bo modd ar sail Prydain Fawr. Fodd bynnag, mae'r cynnwrf yn San Steffan wedi gohirio cyfarfodydd gweinidogol lle byddai'r polisi yn ymwneud â'r ffin, gan gynnwys estyniad y TSP yn cael ei drafod. Gydag ansicrwydd yn parhau mewn mannau eraill nid oedd modd aros ymhellach ac roedd yn rhaid i ni benderfynu bwrw ymlaen â chyflwyno Rheoliadau i Gymru ar ddyddiad a chyfnod llawer diweddarach nag a fyddai fel arfer yn digwydd. Cyhoeddodd Llywodraeth y DU yn Ebrill 2022 y byddai'n rhoi'r gorau i gyflwyno rhagor o fesurau rheoli ffiniau tan ddiwedd 2023, ac y byddai Llywodraeth y DU yn adolygu'r trefniadau ar gyfer ffin Prydain, gan gynnwys rheolaethau iechydol a ffytoiechydol (SPS). Fodd bynnag, ar y pryd, dim ond tan 31 Rhagfyr 2022 y

gwnaeth Defra ymestyn y cyfnod graddoli trosiannol gyda chydsyniad Gweinidogion Cymru. Felly, mae angen cyflwyno estyniad pellach i'r TSP.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**23 Rhagfyr 2022**

**Vaughan Gething AS/MS**
**Gweinidog yr Economi**
**Minister for Economy**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA/VG/3639/22

Elin Jones AS
Y Llywydd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

15 Rhagfyr 2022

Annwyl Elin.

**Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Estyn Cyfnodau Trosiannol) (Diwygio) (Cymru) 2022**

Yn unol ag adran 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, rwy'n eich hysbysu y bydd yr offeryn statudol hwn yn dod i rym ar 30 Rhagfyr 2022, ymhen llai na 21 diwrnod i'r dyddiad y cafodd ei osod. Mae copi o'r offeryn a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig ynghlwm, er gwybodaeth ichi.

Rhaid i'r ddeddfwriaeth ddod i rym erbyn 30 Rhagfyr er mwyn sicrhau nad yw'r cyfnod graddoli trosiannol yn dod i ben ac na fydd bwlch yn y darpariaethau trosiannol. Heb y ddeddfwriaeth hon, ac yn absenoldeb safleoedd rheoli ffin, byddem i bob pwrpas yn cau llwybrau masnach i Gymru ar gyfer rhai nwyddau. Yn flaenorol mae Rheoliadau sy'n ymwneud â'r Cyfnod Graddoli Trosiannol (TSP) ar gyfer nwyddau sy'n dod i mewn i Brydain Fawr o'r UE a rhai gwledydd eraill, wedi'u cyflwyno gan Lywodraeth y DU ar ran Cymru gyda chydsyniad Gweinidogion Cymru. Fodd bynnag, penderfynwyd gennym y byddai'n well deddfu yng Nghymru ar y mater hwn gan gydlynu cyn belled ag y bo modd ar sail Prydain Fawr. Fodd bynnag, mae'r cynnwrf yn San Steffan wedi gohirio cyfarfodydd gweinidogol lle byddai'r polisi yn ymwneud â'r ffin, gan gynnwys estyniad y TSP, yn cael ei drafod. Gydag ansicrwydd yn parhau mewn mannau eraill nid oedd modd aros ymhellach ac roedd yn rhaid i ni benderfynu bwrw ymlaen â chyflwyno Rheoliadau i Gymru ar ddyddiad a chyfnod llawer diweddarach nag a fyddai fel arfer yn digwydd.

Cyhoeddodd Llywodraeth y DU yn Ebrill 2022 y byddai'n rhoi'r gorau i gyflwyno rhagor o fesurau rheoli ffiniau tan ddiwedd 2023, ac y byddai Llywodraeth y DU yn adolygu'r trefniadau ar gyfer ffin Prydain, gan gynnwys rheolaethau iechydol a ffytoiechydol (SPS). Fodd bynnag, ar y pryd, dim ond tan 31 Rhagfyr 2022 y gwnaeth Defra ymestyn y cyfnod graddoli trosiannol gyda chydsyniad Gweinidogion Cymru. Felly, mae angen cyflwyno estyniad pellach i'r TSP.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Ar 30 Rhagfyr 2022, mae'r Rheoliadau hyn yn disodli'r dyddiad ar gyfer dod â'r cyfnod graddoli trosiannol i ben, fel y nodir yn y Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Estyn Cyfnodau Trosiannol) (Diwygio) 2022, fel na fydd unrhyw wiriadau mewnforio pellach yn dod i rym ar nwyddau SPS o'r UE yn 2023. O ganlyniad i'r Rheoliadau hyn, estynnir y cyfnod graddoli trosiannol hyd at 31 Ionawr 2024.

Mae'r penderfyniad i beidio â chyflwyno gwiriadau pellach ar nwyddau SPS yn ystod 2023 yn golygu bod y polisïau dros dro canlynol yn cael eu hymestyn hyd at 31 Ionawr 2024 trwy'r Rheoliadau hyn (gyda pholisïau parhaol i ddilyn maes o law):

- Atal y gofyniad ar gyfer paratoadau cig a fewnforiwyd i Gymru o aelod-wladwriaethau'r AEE, Ynysoedd Ffaro, yr Ynys Las, neu'r Swistir, i gael eu rhewi'n ddwfn, gan gadw'r hawddfraint dros dro hwn yn unol â'r rheolaethau cyfnod graddoli trosiannol diwygiedig. Bydd hyn yn caniatáu i baratoadau cig o'r gwledydd hyn barhau i gael eu mewnforio mewn cyflwr oer.

- Nwyddau personol sy'n rhan o fagiau teithwyr (ac eithrio planhigion ar gyfer eu plannu) ac sydd wedi'u bwriadu i'w bwyta neu eu defnyddio'n bersonol, a llwythi bach o gynhyrchion a anfonir at bobl na fwriedir eu gosod ar y farchnad ac sydd wedi'u heithrio rhag rheolaethau swyddogol.

- Yr eithriad o'r gofyniad i rag-hysbysu ("rhag-hysbysu") ar gyfer rhai cynhyrchion penodol sy'n cael eu cynhyrchu yng Ngogledd Iwerddon neu Weriniaeth Iwerddon a'u mewnforio o Weriniaeth Iwerddon.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, Huw Irranca-Davies AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd, Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau a Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Yn gywir

**Vaughan Gething AS/MS**
Gweinidog yr Economi
Minister for Economy

**Vaughan Gething AS/MS**
**Gweinidog yr Economi**
**Minister for Economy**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca Davies MS
Cadeirydd Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

15 Rhagfyr 2022

Annwyl Huw

**Mesurau Rheoli Ffin**

Bydd y Pwyllgor yn ymwybodol fod Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi adolygiad o fesurau rheoli ffin ym mis Ebrill 2022, gyda bwriad o gyhoeddi *Model Gweithredu Targed* drafft yn hydref 2022 i'w weithredu erbyn diwedd 2023. Er bod agweddau ar y drefn ar y ffin wedi'u datganoli, byddai'n well gan Lywodraeth Cymru weld rheolau cydlynol a chyson sy'n parchu ein safonau bioddiogelwch uchel ac mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio gyda'u cymheiriaid yng ngweinyddiaethau eraill y DU. Fodd bynnag, nid yw'r *Model Gweithredu Targed* wedi'i gwblhau a'i gytuno gan weinidogion eto.

Rwyf heddiw wedi hysbysu'r Senedd mewn datganiad ysgrifenedig Datganiad Ysgrifenedig: Rheoliadau Mesurau Rheoli Ffin | LLYW.CYMRU fy mod yn bwriadu gosod **Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Estyn Cyfnodau Trosiannol) (Diwygio) (Cymru) 2022 ("Rheoliadau 2022")** cyn toriad y Nadolig. Bydd yr offeryn statudol hwn sy'n darparu estyniad pellach i'r cyfnod graddoli trosiannol yn caniatáu i Lywodraeth Cymru barhau i weithio gyda gweinyddiaethau eraill y DU i gwblhau a gweithredu *Model Gweithredu Targed* y ffin, er mwyn sicrhau system gydlynol, effeithiol ac effeithlon o fesurau rheoli.

Yn ogystal â'r estyniad hwn, fe wnaethom gynnig i gyflwyno gofyniad i rag-hysbysu ar gyfer cynhyrchion penodol sy'n cael eu mewnforio i Gymru o Weriniaeth Iwerddon. Rwyf wedi gwrando'n ofalus ar yr adborth, yn enwedig y pryderon a leisiwyd gan randdeiliaid ynglŷn â'r amser sydd ar gael cyn 1 Ionawr 2023 i baratoi. Felly, rwyf wedi penderfynu gohirio cyflwyno'r gofyniad i rag-hysbysu ar gyfer y categorïau hyn o nwyddau SPS tan yn ddiweddarach yn 2023.

Ein hamcan yw i holl fewnforion yr UE fod yn ddarostyngedig i'r un gofynion rhag-hysbysu, er mwyn i ni dderbyn yr un wybodaeth hanfodol â mannau eraill ym Mhrydain Fawr. Bydd hyn yn diogelu ein bioddiogelwch, yn cynnal safonau diogelwch bwyd, ac yn golygu ein bod yn gallu sicrhau bod modd olrhain cynhyrchion sy'n dod i mewn i'r wlad. Bydd hefyd yn ein helpu i gynllunio seilwaith a gweithrediadau rheoli ffin, a bydd hynny yn ei dro yn helpu i sicrhau bod mesurau rheoli ffin yn cael eu gweithredu'n esmwyth yng Nghymru.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rwyf wedi cael trafodaethau adeiladol gyda Llywodraeth y DU ar y pwnc hwn yn ystod yr wythnosau diwethaf a byddaf yn ceisio cytuno ar ddyddiad gyda nhw ar gyfer cyflwyno’r gofyniad i rag-hysbysu ar gyfer cynhyrchion sy’n cael eu mewnforio o Iwerddon.

Hoffwn gadarnhau’r dyddiad hwnnw cyn gynted â phosib yn y Flwyddyn Newydd er mwyn rhoi digon o rybudd i fusnesau am unrhyw newidiadau yn y dyfodol. Rhaid i mi fodd bynnag nodi bod hwn yn parhau’n fater datganoledig ac os oes angen, bydd Llywodraeth Cymru yn gweithredu’n annibynnol i ddiogelu ein bioddiogelwch ac iechyd pobl, anifeiliaid a phlanhigion yng Nghymru.

Yn gywir,



**Vaughan Gething AS/MS**
Gweinidog yr Economi
Minister for Economy

# SL(6)306 – Rheoliadau Marchnata Hadau a Deunyddiau Lluosogi Planhigion (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) (Rhif 2) 2022

## Cefndir a diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn cywiro gwallau a nodwyd gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad yn ei adroddiad ar Reoliadau Marchnata Hadau a Deunyddiau Lluosogi Planhigion (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â’r UE) 2022 ("y Rheoliadau Gwreiddiol"). Yn benodol, mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud y canlynol:

- Diddymu'r Rheoliadau Gwreiddiol; ac
- Ail-wneud y diwygiadau perthnasol o ran gweithredadwyedd i Reoliadau Marchnata Hadau (Cymru) 2012 a Rheoliadau Marchnata Planhigion Ffrwythau a Deunyddiau Lluosogi (Cymru) 2017.

## Gweithdrefn

Negyddol

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddyddiau pan fo’r Senedd: (i) wedi’i diddymu neu (ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y’u gosodwyd gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodir y tri phwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. **Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy’n debyg o fod o ddiddordeb i’r Senedd.**

Nodwn y torrir y rheol 21 diwrnod (h.y. y rheol y dylai 21 diwrnod fod rhwng y dyddiad y gosodir offeryn “gwneud negyddol” gerbron y Senedd a'r dyddiad y daw'r offeryn i rym), a'r esboniad am dorri’r rheol, a ddarparwyd gan Lesley Griffiths AS, y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru a’r Trefnydd, mewn llythyr at y Llywydd dyddiedig 15 Rhagfyr 2022.

Yn benodol, nodwn y canlynol yn y llythyr:

> *"Y rheswm dros beidio â chadw at y confensiwn 21 diwrnod yn yr achos hwn yw bod y Rheoliadau'n cael eu gwneud gan ddefnyddio pwerau o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, a bydd y pwerau hyn yn dod i ben ar 31 Rhagfyr 2022. O'r herwydd, mae angen i'r Rheoliadau ddod i rym erbyn 31 Rhagfyr."*

**2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Gosodwyd drafft o'r Rheoliadau hyn gerbron y Senedd ar gyfer sifftio o dan baragraff 4 o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, yn unol â Rheol Sefydlog 27.9A. Trafododd y Pwyllgor y drafft hwnnw ar 12 Rhagfyr 2022, a chytunodd mai'r weithdrefn negyddol oedd y weithdrefn briodol ar gyfer y Rheoliadau hyn.

**3. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Ni chynhaliwyd ymgynghoriad ffurfiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. Yn hyn o beth, nodir y frawddeg a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

> *"Gan mai mân gywiriadau oedd i'r Rheoliadau, ni ddigwyddodd ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol."*

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**22 Rhagfyr 2022**

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Elin Jones MS
Llywydd
Senedd Cymru
CAERDYDD
CF99 1SN

15 Rhagfyr 2022

Annwyl Lywydd

**Rheoliadau Marchnata Hadau a Marketing of Seeds a Deunyddiau Lluosogi Planhigion (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) (Rhif 2) 2022**

Yn unol ag adran 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946 yr wyf yn eich hysbysu y bydd yr offeryn statudol hwn yn dod i rym ar 31 Rhagfyr 2022, llai na 21 diwrnod ar ôl iddo gael ei osod. Amgaeir copi o'r offeryn a'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd er eich gwybodaeth.

Mae'r Rheoliadau yn dirymu, yn disodli ac yn cywiro'r Rheoliadau Marchnata Hadau, a Deunyddiau Lluosogi Planhigion (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2022 ("y Rheoliadau blaenorol") a oedd mewn grym yn flaenorol. Gosodwyd y Rheoliadau blaenorol hyn yn y Senedd ar 6 Hydref 2022 a daethant i rym ar 27 Hydref 2022. Gwnaethant ddiwygiadau gweithrediad i sicrhau bod darpariaethau yng nghyfraith Cymru ar blâu sy'n ymwneud â hadau, planhigion ffrwythau a deunydd lluosogi yn parhau i fod yn weithredol gan fod y DU bellach wedi ymadael â'r UE. Mae hyn, yn ei dro, yn sicrhau bod y plâu hyn yn parhau i fod o dan reolaeth yng Nghymru.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Nododd adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad (LJCC) ar y Rheoliadau blaenorol ddau bwynt craffu technegol ac argymhellodd fod y rhain yn cael sylw. Roedd pwynt craffu technegol 1 yn ymwneud ag anghysondeb rhwng teitlau'r fersiynau Cymraeg a'r Saesneg o'r Offeryn Statudol. Yn fersiwn Gymraeg yr offeryn statudol y teitl yw (Diwygio) (Cymru) tra bo teitl y fersiwn Saesneg yw (Wales) (Amendment). Nododd pwynt craffu technegol 2 ddyfyniad coll yn Rheoliad 2(2)(a) yn fersiwn Gymraeg yr Offeryn sy'n ei gwneud yn aneglur pa destun sy'n cael ei ddisodli, sy’n amharu ar effaith y rheoliad. Mae yna anghysondebau hefyd yn y dyfynodau a ddefnyddir o amgylch termau diffiniedig yn y fersiwn Cymraeg o Reoliad 2(a)(i) a 2(a)(iii).

Gwnaed Rheoliadau Marchnata Hadau a Deunydd Lluosogi Planhigion (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â’r UE) (Rhif 2) 2022 i gywiro'r pwyntiau hyn. Yn benodol, mae'r Rheoliadau hyn yn cynnwys cymal sy'n dirymu'r Offerynnau Statudol Saesneg a Chymraeg gwreiddiol. Mae'r Rheoliadau newydd yn disodli'r Rheoliadau a ddirymwyd, gyda theitl newydd sef "... (Cymru) (Diwygio)..." yn y Gymraeg a’r Saesneg. Mae hyn yn datrys yr anghysondeb yn y fersiynau Cymraeg a Saesneg o'r offeryn Statudol. Mae'r Rheoliadau newydd hefyd yn ychwanegu marc dyfyniad agoriadol yn Rheoliad 2(a). Yn drydydd, ceir defnydd cyson o ddyfyniadau o amgylch termau diffiniedig yn Rheoliad 2(a)(i) a (iii) yn y ddwy fersiwn. Ni wnaed unrhyw newidiadau eraill ac nid yw effaith y Rheoliadau wedi newid.

Y rheswm dros beidio â chadw at y confensiwn 21 diwrnod yn yr achos hwn yw bod y Rheoliadau'n cael eu gwneud gan ddefnyddio pwerau o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, a bydd y pwerau hyn yn dod i ben ar 31 Rhagfyr 2022. O'r herwydd, mae angen i'r Rheoliadau ddod i rym erbyn 31 Rhagfyr.

Rwy'n anfon copi o’r llythyr hwn at Huw Irranca-Davies AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd, Sian Wilkins, Pennaeth y Siambr a Gwasanaethau Pwyllgorau, a Julian Luke, Pennaeth y Pwyllgor Polisi a Deddfwriaeth.

Regards,



**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a’r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

# SL(6)297 – Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Gofynion Rhagnodedig a Chynllun Diofyn) (Cymru) (Diwygio) 2023

## Cefndir a Diben

'Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor' ("**CTRS**") yw'r dulliau a ddefnyddir gan awdurdodau lleol yng Nghymru i roi cymorth i aelwydydd ar incwm isel er mwyn iddynt allu talu eu treth gyngor.

Rheolir gweithrediad CTRS yng Nghymru gan *Reoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013* a *Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Cynllun Diofyn) (Cymru) 2013* (y cyfeirir atynt ar y cyd fel "**Rheoliadau CTRS 2013**").

Mae'r **Rheoliadau** hyn yn diwygio Rheoliadau CTRS 2013 i uwchraddio ffigurau penodol a ddefnyddir i gyfrifo hawl ceisydd i ostyngiad o dan CTRS.

Mewn Datganiad Ysgrifenedig ar 6 Rhagfyr 2022 gan y Gweinidog Cllid a Llywodraeth Leol, dywedodd Rebecca Evans AS y bydd hyn yn:

> [...] sicrhau bod y cynllun ar gyfer blwyddyn ariannol 2023-24 yn adlewyrchu'r cynnydd mewn costau byw [ac] yn helpu i sicrhau bod y 270,000, bron, o aelwydydd ag incwm isel ledled Cymru sy'n dibynnu ar y cymorth hwn yn parhau i gael yr hawl honno drwy'r cynllun.

Yn ogystal, mae'r Rheoliadau yn gwneud darpariaeth i sicrhau nad yw unrhyw wladolion o Wcráin sydd wedi cael caniatâd i ddod i mewn i'r DU neu i aros ynddi yn gymwys i gael eu cynnwys mewn CTRS awdurdod lleol, a byddant yn gymwys i gael gostyngiad os ydynt yn bodloni gofynion eraill y CTRS.

## Y weithdrefn

Cadarnhaol drafft.

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod drafft o'r Rheoliadau gerbron y Senedd. Ni chaiff Gweinidogion Cymru wneud y Rheoliadau oni bai bod y Senedd yn cymeradwyo'r Rheoliadau drafft.

## Materion technegol: craffu

Nodir y ddau bwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. **Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol**

Mae rheoliadau 4(4) a 12(4) yn mewnosod, yn eu trefn, is-baragraff a pharagraff 'o' newydd, yn y ddwy set o reoliadau yn Rheoliadau CTRS 2013.

Yn y testun Cymraeg, nid yw'r cyfieithiad yn llwyddo'n llawn gan fod y testun a fewnosodwyd yn anghyson â'r ddarpariaeth bresennol.

Dylai geiriau agoriadol is-baragraff/paragraff 'o' newydd nodi '**yn b**erson' yn hytrach na '**p**erson', er mwyn bod yn gyson ag is-baragraffau/paragraffau presennol 'm' ac 'n'.

2. **Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn neu'r drafft**.

Mae rheoliad 13 yn ceisio diwygio paragraff 20 o'r Atodlen i Reoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Cynllun Diofyn) (Cymru) 2013 (y "Rheoliadau Diofyn").

Mae anghysondeb rhwng y testun Cymraeg a'r testun Saesneg yn rheoliad 13(2).

Wrth nodi'r testun i'w ddisodli yn y Rheoliadau Diofyn, mae'r testun Saesneg yn cyfeirio at "[...] *paragraph (2)",* ac mae'r testun Cymraeg yn cyfeirio at "[...] ***is****-baragraff (2)".*

Ar sail y geiriad yn y Rheoliadau Diofyn, mae testun Cymraeg y Rheoliadau yn gywir.

## Rhinweddau: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

**Pwynt Craffu Technegol: Drafftio Diffygiol**

Pwynt 1:

Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno y dylai geiriau agoriadol is-baragraff/paragraff newydd 'o' yn nhestun Cymraeg y diwygiadau a wneir gan reoliadau 4(4) a 12(4) ddatgan 'yn berson' yn hytrach na 'person'. Gan fod y gwall o natur dechnegol, caiff ei gywiro cyn i'r offeryn gael ei wneud.

Pwynt 2:

Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno y dylai rheoliad 13(2) o'r testun Saesneg gyfeirio at "sub-paragraph (2)". Gan fod y gwall o natur dechnegol, caiff ei gywiro cyn i'r offeryn gael ei wneud.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**21 Rhagfyr 2022**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG
# GAN
# LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Gosod Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Gofynion Rhagnodedig a'r Cynllun Diofyn) (Cymru) (Diwygio) 2023** |
| **DYDDIAD** | **06 Rhagfyr 2022** |
| **GAN** | **Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol** |

Heddiw, rwyf wedi gosod Rheoliadau drafft Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Gofynion Rhagnodedig a'r Cynllun Diofyn) (Cymru) (Diwygio) 2023 gerbron y Senedd.

Yn amodol ar gymeradwyaeth y Senedd, bydd y Rheoliadau hyn yn uwchraddio'r ffigurau ariannol yn Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013, a Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Cynllun Diofyn) (Cymru) 2013, i sicrhau bod y cynllun ar gyfer blwyddyn ariannol 2023-24 yn adlewyrchu'r cynnydd mewn costau byw. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod y 270,000, bron, o aelwydydd ag incwm isel ledled Cymru sy'n dibynnu ar y cymorth hwn yn parhau i gael yr hawl honno drwy'r cynllun.

Yn ogystal, cynigir diwygiad i roi cymorth i wladolion Wcreinaidd o ganlyniad i'r argyfwng ffoaduriaid a achosir gan ryfel Rwsia ac Wcráin. Bydd hyn yn sicrhau eu bod yn gymwys i wneud cais am gymorth.

Mae diwygiad pellach yn sicrhau nad effeithir yn negyddol ar unrhyw ymgeisydd sy'n byw yng Nghymru ac sy'n lletya person o Wcráin o dan gynllun Cartrefi i Wcráin. Mae'r newid yn gwneud darpariaeth fel nad effeithir ar gais y lletywr oherwydd ei gynnig i roi cymorth i bobl o Wcráin.

Yn olaf, rydym wedi dileu'r eithriad i ddinasyddion yr Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE) sydd bellach yn destun rheolaeth fewnfudo.

Edrychaf ymlaen at y ddadl ar y Rheoliadau ddechrau'r flwyddyn newydd.

Eitem 4.1

# SL(6)279 – Gorchymyn Iechyd Anifeiliaid (Compartmentau Dofednod a Chrynoadau Anifeiliaid) (Ffioedd) (Cymru) (Diwygio) 2022

## Cefndir a Diben

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio:

- Gorchymyn Compartmentau Dofednod (Ffioedd) (Cymru) 2010 (O.S. 2010/1781) (Cy. 170) ("Gorchymyn 2010"); a
- Gorchymyn Crynoadau Anifeiliaid (Ffioedd) (Cymru) 2018 (O.S. 2018/645) (Cy. 119) ("Gorchymyn 2018").

Mae'r Gorchymyn hwn yn dirymu darpariaethau yn y Gorchymyn Ffioedd Compartmentau Dofednod sy'n darparu ar hyn o bryd fod Treth ar Werth (TAW) yn cael ei hychwanegu at ffioedd a godir o dan y Gorchymyn hwnnw.

Mae hefyd yn cynyddu'r ffioedd sy'n daladwy i Weinidogion Cymru am wasanaethau a ddarperir gan yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion mewn perthynas â Gorchymyn 2018.

Mae erthygl 2 yn diwygio Gorchymyn 2010 er mwyn hepgor y geiriau "+ TAW" bob tro y maent yn digwydd yn yr Atodlen. O'r herwydd, ni fydd TAW yn daladwy bellach mewn cysylltiad â'r ffioedd a nodir yn y tabl.

Mae erthygl 3 yn diwygio Gorchymyn 2018 er mwyn rhoi, yn lle'r Atodlen, Atodlen newydd sy'n darparu ar gyfer ffioedd uwch ar gyfer trwyddedu mangreoedd ar gyfer crynoadau anifeiliaid.

Mae'r Atodlen newydd yn darparu fel a ganlyn.

- Mae Tabl 1 yn nodi'r ffioedd sy'n daladwy am drwyddedu mangreoedd ar gyfer gwerthiannau anifeiliaid neu ganolfannau casglu nad ydynt yn esempt. Mae colofn 2 yn darparu ar gyfer cynnydd interim ar gyfer ceisiadau sy'n dod i law a thrwyddedau a adnewyddir ar 30 Tachwedd 2023 neu cyn hynny. Mae colofn 3 yn gymwys i geisiadau sy'n dod i law a thrwyddedau a adnewyddir ar ôl 30 Tachwedd 2023 ac yn darparu ar gyfer cynnydd pellach.
- Mae Tabl 2 yn nodi'r ffioedd sy'n daladwy am drwyddedu mangreoedd ar gyfer sioeau neu arddangosfeydd nad ydynt yn esempt. Mae colofn 2 yn darparu ar gyfer cynnydd interim ar gyfer ceisiadau sy'n dod i law a thrwyddedau a adnewyddir ar 30 Tachwedd 2023 neu cyn hynny. Mae colofn 3 yn gymwys i geisiadau sy'n dod i law a thrwyddedau a adnewyddir ar ôl 30 Tachwedd 2023 ac yn darparu ar gyfer cynnydd pellach.

- Mae Tabl 3 yn nodi ffioedd atodol sy'n daladwy am drwyddedu mangreoedd. Mae colofn 2 yn darparu ar gyfer cynnydd interim ar gyfer ymweliadau milfeddygol a gynhelir ar 30 Tachwedd 2023 neu cyn hynny. Mae colofn 3 yn gymwys i ymweliadau milfeddygol a gynhelir ar ôl 30 Tachwedd 2023 ac yn darparu ar gyfer cynnydd pellach.

Mae erthygl 4 yn gwneud darpariaeth drosiannol fel nad yw'r diwygiadau hyn yn gymwys mewn perthynas â chais a wneir cyn i'r Gorchymyn hwn ddod i rym.

## Y weithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Gorchymyn gan Weinidogion Cymru cyn iddo gael ei osod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Gorchymyn o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddyddiau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu, neu (ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'i gosodwyd gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.2(vii) (ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn neu'r drafft)**

Mae gwahaniaeth rhwng testun Cymraeg a Saesneg erthygl 3(2). Mae'r testun Saesneg wedi'i ddrafftio yn y ffordd arferol wrth gyflwyno diwygiadau i destunau dwy iaith deddfwriaeth ddwyieithog. Mae'n awgrymu i'r darllenydd fod diwygiadau'n cael eu gwneud i destun y ddwy iaith.

Fodd bynnag, nid yw testun Cymraeg erthygl 3(2) yn diwygio testun Cymraeg y diffiniad o "canolfan gasglu" yn erthygl 2 o Orchymyn 2018 gan ei fod eisoes yn gywir. Felly, mae wedi ychwanegu'r geiriau "yn y testun Saesneg" a nodir y geiriau a amnewidiwyd yn Saesneg yn unig. Dyma'r dull cywir pan nad oes ond angen diwygio testun Saesneg deddfiad dwyieithog, fel y bydd testun dwy iaith yr offeryn diwygio yn gwneud yr un newid i destun un iaith yn y ddeddfwriaeth bresennol.

Dylai testun Saesneg erthygl 3(2) o'r Gorchymyn hwn hefyd fod wedi cynnwys y geiriau "in the English language text" i nodi mai dim ond i destun Saesneg y testun presennol yn erthygl 2 o Orchymyn 2018 y mae'r diwygiad yn cael ei wneud.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pwyntiau a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**2. Rheol Sefydlog 21.3 (i) – ei fod yn codi tâl ar Gronfa Gyfunol Cymru neu ei fod yn cynnwys darpariaethau sy'n ei gwneud yn ofynnol i daliadau gael eu gwneud i'r Gronfa honno neu i unrhyw ran o'r llywodraeth neu awdurdod lleol neu gyhoeddus er mwyn cydnabod unrhyw drwydded, cydsyniad neu unrhyw wasanaethau sydd i'w rhoi, neu ei fod yn rhagnodi swm unrhyw dâl neu daliad o'r fath.**

Mae'r Gorchymyn yn gwneud newidiadau i'r ffioedd sy'n daladwy mewn perthynas â gwasanaethau statudol a ddarperir gan yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion, yn unol â Gorchymyn 2010 a Gorchymyn 2018.

**3. Rheol Sefydlog 21.3(ii) (ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd)**

Nid yw'r Memorandwm Esboniadol ("y Memorandwm") sy'n cyd-fynd â'r Gorchymyn yn esbonio'r rheswm pam y mae TAW yn cael ei thynnu o'r ffioedd a gynhwysir yn yr Atodlen i Orchymyn 2010. Mae'n anodd felly i ddarllenydd ddeall y rhesymeg dros y newid hwn.

At hynny, mae paragraff olaf adran 4 o'r Memorandwm Esboniadol yn nodi fel a ganlyn:

> *Due to the lack of Wales specific data has been presented and used to estimate the impact to businesses in Wales, where possible.*

Mae ystyr y paragraff hwn yn aneglur, sy'n ei gwneud yn anodd i'r darllenydd ddeall pa ddata a ddefnyddiwyd i amcangyfrif yr effaith ar fusnesau yng Nghymru, ac a yw'n ddigonol.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb Llywodraeth Cymru mewn perthynas â phwyntiau 1 a 3 uchod.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 28 Tachwedd 2022 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.

**Ymateb y Llywodraeth: Gorchymyn Iechyd Anifeiliaid (Compartmentau Dofednod a Chrynoadau Anifeiliaid) (Ffioedd) (Cymru) (Diwygio) 2022**

**Pwynt Craffu Technegol 1:**

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y dull drafftio a ffefrir gan y Pwyllgor. Fodd bynnag, rydym yn fodlon, yn y cyd-destun penodol hwn, fod y diwygiad i erthygl 2 o Orchymyn Crynoadau Anifeiliaid (Cymru) 2018, o'i ddarllen, yn glir ac yn gyfreithiol gywir yn Gymraeg ac yn Saesneg.

**Pwynt Craffu ar Rinweddau 3:**

Mae Ffioedd Statudol wedi eu heithrio o dreth ar werth, felly ni chodir treth ar werth am y gwasanaethau hyn. Nid yw statws presennol y ffi wedi newid drwy hyn (diwygiad cadw tŷ ydyw, yn y bôn).
Caiff geiriad y Memorandwm Esboniadol/Asesiad Effaith Rheoleiddiol ei ddiwygio er mwyn egluro mai data sy'n benodol i Gymru a gyflwynwyd, er mwyn amcangyfrif yr effaith ar fusnesau yng Nghymru.

# SL(6)292 – Rheoliadau’r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Diwygio a Swyddogaethau Deddfwriaethol) ac Iechyd Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2022

## Cefndir a Diben

Mae’r Rheoliadau hyn yn ymdrin ag unrhyw fethiant yng nghyfraith yr UE a ddargedwir i weithredu’n effeithiol a diffygion eraill sy’n deillio o ymadawiad y Deyrnas Unedig â’r Undeb Ewropeaidd. Mae'r Rheoliadau'n gwneud hyn drwy addasu cyfraith yr UE a ddargedwir a diwygio Rheoliadau’r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) 2011 ("Rheoliadau’r FAChP Cymru") a Rheoliadau Iechyd Anifeiliaid (Ffioedd Amrywiol) (Cymru) 2018 ("Rheoliadau 2018"). Mae'r Rheoliadau hefyd yn diwygio Rheoliadau’r FAChP Cymru i estyn esemptiad o'r gofyniad i anifeiliaid penodol gael rheolaethau swyddogol.

Mae Rheoliadau’r FAChP Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i lwythi o anifeiliaid neu gynhyrchion anifeiliaid sy’n cael eu mewnforio i Gymru, neu'n cael eu cludo drwyddi, gydymffurfio â’r gofynion o ran iechyd anifeiliaid ac iechyd y cyhoedd yng Nghyfarwyddebau, Rheoliadau a Phenderfyniadau’r UE a nodir yn Atodlen 1 i’r Rheoliadau hynny.

Roedd Rheoliadau 2018 yn nodi’r ffioedd sy’n daladwy i Weinidogion Cymru am gymeradwyaethau ac arolygiadau ym maes iechyd anifeiliaid.

## Y weithdrefn

Cadarnhaol.

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod fersiwn ddrafft o'r Rheoliadau gerbron y Senedd. Ni all Gweinidogion Cymru wneud y Rheoliadau oni bai bod y Senedd yn cymeradwyo'r Rheoliadau drafft.

## Materion technegol: craffu

Nodwyd y 27 pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â’r offeryn hwn.

1. **Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Mae rheoliad 8 yn darparu ar gyfer rhagor o ddehongli geiriau ac ymadroddion penodol at ddiben Rhan 5 o'r Rheoliadau ac yng Nghyfarwyddebau'r UE sy'n cael eu haddasu gan Ran 5. Yn achos Cyfarwyddebau'r UE, nid yw'n ymddangos bod yr addasiadau a wnaed yn Rhan 5

yn cyfeirio’r sawl sy’n darllen y Cyfarwyddebau hynny at y Rheoliadau hyn i’w alluogi i ddeall ystyr y geiriau a'r ymadroddion sy'n cael eu mewnosod yn y Cyfarwyddebau. Gallai'r materion hyn achosi problemau gyda hygyrchedd y Rheoliadau a'r Cyfarwyddebau y maent yn eu haddasu.

Gofynnir i Lywodraeth Cymru esbonio sut y dylai’r rhai sy’n darllen Cyfarwyddebau'r UE wybod i gyfeirio at y Rheoliadau hyn wrth ddarllen y Cyfarwyddebau.

**2. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu’r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**

Mae rheoliadau 5(1) ac 8(2) yn cynnwys cyfeiriad at yr "awdurdod priodol". Nid yw'r Rheoliadau yn cynnwys diffiniad o'r "awdurdod priodol" at ddiben y Rheoliadau hyn.

**3. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu’r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**

Mae rheoliad 8(2) yn darparu ar gyfer rhagor o ddehongli geiriau ac ymadroddion penodol a ddefnyddir yn y Rheoliadau. Mae'n darparu mai ystyr "third country" yw "unrhyw wlad neu diriogaeth y tu allan i Ynysoedd Prydain". Cynhwysir troednodyn wedyn sy'n datgan bod i "Ynysoedd Prydain" yr ystyr a roddir i “British Islands” yn Atodlen 1 i Ddeddf Dehongli 1978. Gan y defnyddir "Ynysoedd Prydain" yn nhestun gweithredol y Rheoliadau, dylid nodi ei ystyr yn y testun gweithredol hefyd, nid mewn troednodyn.

**4. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu’r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**

Mae rheoliad 8(2) yn cynnwys y diffiniad “ystyr “the TARP (ALF) (Wales) (EU Exit) Regulations 2022” yw’r Rheoliadau hyn”. Yn unol â rheoliad 8(1), mae'r diffiniad hwn i'w ddarllen yng Nghyfarwyddebau'r UE sy'n cael eu haddasu gan Ran 5 o'r Rheoliadau. Fodd bynnag, wrth ei ddarllen fel rhan o'r Cyfarwyddebau hynny, ni fydd ystyr i'r geiriau "[y] Rheoliadau hyn". Rydym o'r farn y dylai'r diffiniad ddarllen “ystyr “the TARP (ALF) (Wales) (EU Exit) Regulations 2022” yw Rheoliadau’r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Diwygio a Swyddogaethau Deddfwriaethol) ac Iechyd Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2022” ac yna y dylai gynnwys troednodyn priodol sy'n darparu'r dyfyniad.

**5. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu’r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**

Mae rheoliadau 9, 10, 11, 12, 13, 14, 15, 16, 17, 18, a 19 yn addasu geiriad Cyfarwyddebau amrywiol ac yn cynnwys cyfeiriad at "the appropriate authority". Nid oes gan y Cyfarwyddebau wedi eu haddasu ddiffiniad o'r ymadrodd "appropriate authority" ac nid yw'r Rheoliadau yn darparu ar gyfer diffiniad o'r fath chwaith.

**6. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

Mae rheoliad 11(9)(b) yn addasu geiriad Cyfarwyddeb 89/556 i osod gweithdrefn newydd ar gyfer hylifau fflysio a golchi awdurdodedig, technegau golchi a, lle y bo angen, driniaethau ensymatig ynghyd â chyfryngau cludo awdurdodedig. Mae'r geiriad addasedig yn golygu y caiff awdurdod priodol bellach lunio protocol, yn unol â gweithdrefn a nodir gan yr awdurdod priodol hwnnw mewn rheoliadau. Gofynnir i Lywodraeth Cymru gadarnhau pam y mae'r geiriad addasedig yn rhoi disgresiwn i'r awdurdod priodol lunio protocol pan oedd geiriad gwreiddiol y Gyfarwyddeb yn ei gwneud yn ofynnol llunio protocol. Ceisir eglurhad hefyd a fydd yr un awdurdod priodol yn gwneud rheoliadau i nodi'r broses iddo ei hun lunio protocol.

**7. Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn neu'r drafft**.

Yn rheoliad 3(3), yn y testun Cymraeg, mae'r gwelliant yn ddiffygiol gan nad yw'n ailadrodd y geiriau "os yw'r" ar ddechrau'r is-baragraff (a) newydd yn rheoliad 15(3) o Reoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) 2011. Yn hytrach, mae wedi dweud "bod y", ond mae angen ailadrodd "os yw'r" er mwyn i'r gwelliant gyd-fynd â strwythur presennol rheoliad 15(3).

Yn hyn o beth, ymddengys i'r cyfieithiad Cymraeg gael ei seilio ar destun y rheoliad 15(3) gwreiddiol a geir yn Rheoliadau 2011 yn hytrach na'r rheoliad 15(3) diwygiedig fel y'i dirprwywyd gan OS 2020/44 (W. 5), rheoliad 23(13), sydd wedi arwain at y gwall.

**8. Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn neu'r drafft**.

Yn rheoliad 4(2)(a)(viii), mae'r testun Saesneg yn cyfeirio at "Annexes 1 and 3" ond mae'r testun Cymraeg wedi cyfieithu'r ystyr fel "Atodiadau 1 i 3".

**9. Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn neu'r drafft**.

Yn rheoliad 5(3), mae'r testun Saesneg yn cyfeirio at "the legislative competence of Senedd Cymru" ond mae'r testun Cymraeg wedi cyfieithu "legislative" fel "datganoledig" fel ei fod yn darllen "cymhwysedd datganoledig Senedd Cymru" (h.y. mae'n ailadrodd y cyfeiriad cynharach at "[g]ymhwysedd datganoledig").

**10. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

Mae rheoliad 13(3)(b)(iii) yn dileu'r cyfeiriad at "dealer" ac "approved dealer's premises" o Erthygl 2 o Gyfarwyddeb 91/68, ond mae'n cadw'r telerau mewn mannau eraill o fewn y Gyfarwyddeb.

Gofynnir i Lywodraeth Cymru roi esboniad am y dull a gymerwyd, o ystyried bod y termau diffiniedig hyn yn dal i gael eu defnyddio yn y Gyfarwyddeb.

**11. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

Yn rheoliad 14(19)(c)(i)(bb), yn y testun newydd ar gyfer yr ail fewnoliad, pwynt (iii), ceir cyfeiriad at "Directive 92/65**/EEC**". Mae'r Gyfarwyddeb hon wedi ei diffinio fel "Cyfarwyddeb 92/65" yn rheoliad 2(2) heb "EEC". Felly, nid yw'n ymddangos ei fod yn defnyddio'r term diffiniedig cywir.

**12. Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn neu'r drafft**.

Yn rheoliad 14(9)(a)(i), mae gwahaniaeth rhwng y testunau Saesneg a Chymraeg. Yn y testun Saesneg, ceir cyfeiriad at "Directive **2009/**158" yn y testun newydd, ond mae'r testun Cymraeg yn cyfeirio at "Directive **1/**158". Ymddengys fod y cyfeiriad yn y testun Saesneg yn gywir.

**13. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

Mae rheoliad 16(1)(a) yn dileu'r cyfeiriad at "distribution" o Erthygl 1 o Gyfarwyddeb 2002/99, ond mae'n cadw'r term hwnnw mewn mannau eraill o fewn y Gyfarwyddeb, gan gynnwys y diffiniad o "all stages of the production, processing and distribution" a gynhwysir ym mhwynt 1 o Erthygl 2 o'r Gyfarwyddeb honno. Nid yw'n glir a wnaed yr addasiadau er mwyn gwahaniaethu rhwng dwy senario - ar un llaw "production, processing and distribution", fel y'i diffinnir, a "production and processing" ar y llall.

Gofynnir i Lywodraeth Cymru roi esboniad am y dull a gymerwyd.

**14. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

Mae rheoliad 16(3)(b)(iii) yn hepgor y diffiniad o "products of animal origin" o Erthygl 2 o Gyfarwyddeb 2002/99, ond cedwir y term hwnnw mewn mannau eraill yn y Gyfarwyddeb honno. Er y diffinnir y term hwnnw mewn deddfwriaeth arall, nid yw'n ymddangos bod yr addasiadau a wnaed i Gyfarwyddeb 2002/99 yn cyfeirio'r sawl sy'n darllen y ddeddfwriaeth lle y gellir dod o hyd i ddiffiniad o "products of animal origin" i'w alluogi i ddeall ystyr y geiriau hynny. Gallai'r materion hyn achosi problemau gyda hygyrchedd y Rheoliadau.

Gofynnir i Lywodraeth Cymru esbonio sut y gallai'r rhai sy'n darllen Cyfarwyddeb 2002/99 ddod o hyd i ddiffiniad o "products of animal origin".

**15. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

Mae rheoliad 16(6)(a)(i)(bb) yn dileu "suspected of being infected", o Erthygl 4 o Gyfarwyddeb 2002/99. Ymddengys fod hyn yn golygu nad yw bellach yn bosibl awdurdodi cynhyrchu, prosesu a dosbarthu cynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid sy'n dod o diriogaeth neu ran o diriogaeth sy'n ddarostyngedig i gyfyngiadau iechyd anifeiliaid ond nad ydynt yn dod

o ddaliad dan amheuaeth o gael ei heintio (h.y. dim ond os nad yw'n dod o ddaliad sydd wedi ei heintio). Ymddengys fod newid o'r fath, sy'n culhau cwmpas awdurdodiad posibl, yn fwy na gwelliant technegol.

Gofynnir i Lywodraeth Cymru esbonio pam y mae'r geiriau "suspected of being infected" wedi eu hepgor o Erthygl 4 o Gyfarwyddeb 2002/99.

**16. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

Mae'r Rheoliadau yn addasu rhai darpariaethau Cyfarwyddebau, ond nid pob un. Er enghraifft, nid oes addasiad o Erthyglau 5, 6 a 10 o Gyfarwyddeb 2002/99 (Tystysgrifau milfeddygol; Rheolaethau milfeddygol swyddogol; ac arolygiadau ac archwiliadau cymunedol). Tybir nad yw'r Erthyglau hyn yn cael eu haddasu gan na fyddant yn gymwys yng Nghymru. Fodd bynnag, nid oes cyfeiriad penodol bod hyn yn wir. Gallai'r materion hyn achosi problemau gyda hygyrchedd y Cyfarwyddebau.

Gofynnir i Lywodraeth Cymru esbonio sut y bydd darllenwyr Cyfarwyddebau'r UE yn gwybod pa ddarpariaethau sydd wedi eu cynnwys yn y Cyfarwyddebau hynny sy'n gymwys yng Nghymru.

**17. Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn neu'r drafft**.

Yn rheoliad 16(6)(c), yn y testun Saesneg, ceir paragraff sydd wedi ei rifo'n anghywir (iii) â'r geiriau agoriadol "in the second subparagraph". Dylai hyn fod wedi ei rifo'n baragraff (ii) fel a geir eisoes yn y testun Cymraeg.

**18. Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn neu'r drafft**.

Yn rheoliad 16(9)(c)(ii), mae gwahaniaeth rhwng y testunau Cymraeg a Saesneg. Yn y testun Cymraeg, nid yw'r geiriau yn y dyfynodau a nodwyd i'w hamnewid yn cynnwys y fannod bendant "the" cyn "Community legislation". Bydd hyn yn gwneud gwahaniaeth o ran sut y bydd y testun yn darllen yn dilyn yr addasiad.

**19. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

Mae rheoliad 17(8)(e)(ii) yn dileu'r gofyniad i ddarparu "a specimen veterinary certificate established in accordance with the procedure referred to in Article 14(2)" o Erthygl 7(e) o Gyfarwyddeb 2004/68. Er bod gweithdrefnau eraill y cyfeirir atynt yn Erthygl 14(2) wedi cael eu hamnewid gan ddarpariaethau y caniateir eu nodi gan yr awdurdod priodol drwy reoliadau, nid oes amnewid tebyg mewn perthynas â thystysgrifau milfeddygol sbesimen. Ymddengys fod newid o'r fath, sy'n dileu gofynion sydd ar waith mewn perthynas â mewnforion anifeiliaid carnol byw, yn fwy na gwelliant technegol.

Gofynnir i Lywodraeth Cymru esbonio pam y mae'r gofyniad i ddarparu "a specimen veterinary certificate" wedi ei hepgor o Gyfarwyddeb 2002/99.

**20. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

Mae rheoliadau 18(5)(e) a 19(13)(a) yn addasu Erthygl 4(6) o Gyfarwyddeb 2009/156 ac Erthygl 16(1) o Gyfarwyddeb 2009/158 yn y drefn honno, i roi pwerau gwneud rheoliadau i'r awdurdod priodol. Mae'r pwynt cyntaf o dan Erthygl 4(6) yn cyfeirio at "the distribution of the disease on its territory" ac mae'r pwynt cyntaf o dan Erthygl 16(1) yn cyfeirio at "the distribution of the disease in its territory". Ymddengys nad yw'r cyfeiriadau hyn yn berthnasol mwyach o ran Cymru.

Gofynnir i Lywodraeth Cymru esbonio pam y mae'r cyfeiriad at "territory" yn parhau i fod yn Erthygl 4(6)(a) o Gyfarwyddeb 2009/156 ac Erthygl 16(1)(a) o Gyfarwyddeb 2009/158.

**21. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

Mae rheoliad 19 yn addasu Cyfarwyddeb 2009/158. Mae'r Gyfarwyddeb honno'n cynnwys cyfeiriadau at "competent veterinary authority" drwyddi draw, gan gynnwys yn Erthygl 2(11), sy'n cael ei diwygio gan reoliad 19(3)(b). Nid yw'n glir a yw'r diffiniad hwnnw'n dal i fod yn berthnasol yn dilyn ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd, ac nid oes diffiniad o "competent veterinary authority" yn y Gyfarwyddeb na chyfeiriad at lle y gellir dod o hyd i ddiffiniad o'r fath. Gallai'r materion hyn achosi problemau gyda hygyrchedd Cyfarwyddeb 2009/158.

Gofynnir i Lywodraeth Cymru esbonio a yw'r diffiniad o "competent veterinary authority" yn parhau i fod yn berthnasol ac, os felly, sut y gallai'r rhai sy'n darllen Cyfarwyddeb 2009/158 ddod o hyd i ddiffiniad ar gyfer y term.

**22. Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn neu'r drafft**.

Yn rheoliad 19(9)(b), mae gwahaniaeth rhwng y testunau Saesneg a Chymraeg. Mae'r testun Saesneg yn nodi'n gywir bod y testun sydd i'w addasu gan yr amnewid yn cynnwys cyfeiriad at "Article 33(2)" ond mae'r testun Cymraeg yn cyfeirio'n anghywir at "Article 33(33)".

**23. Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn neu'r drafft**.

Yn rheoliad 19(21)(a)(iii), mae gwahaniaeth rhwng y testunau Saesneg a Chymraeg. Mae'r testun Saesneg yn nodi'n anghywir bod y testun sydd i'w addasu gan yr amnewid yn dweud "languages or the Member State". Mae'r testun Cymraeg yn dweud yn gywir "languages of the Member State".

**24. Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn neu'r drafft**.

Mae gwahaniaeth rhwng y testunau Saesneg a Chymraeg ar ddechrau Rhan 6. Mae pennawd Rhan yn y testun Saesneg yn dweud "Amendment of the Animal Health (Miscellaneous Fees) (Wales) Regulations 2018". Nid oes pennawd ar gyfer Rhan 6 yn y testun Cymraeg ac mae ar goll yn llwyr o'r cyfieithiad.

**25. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

Mae'r Atodlen yn rhestru darpariaethau'r Cyfarwyddebau sy'n cynnwys swyddogaethau a roddir i Weinidogion Cymru fel awdurdod priodol, ynghyd ag unrhyw ddarpariaethau eraill sydd naill ai'n berthnasol neu'n gysylltiedig ag arfer swyddogaeth restredig. Nid yw'n glir pam y mae darpariaethau'r Atodlen wedi eu drafftio yn y modd y maent wedi eu drafftio. Er mwyn cynorthwyo gyda hygyrchedd y ddeddfwriaeth, byddai esboniad o'r dull a gymerwyd mewn perthynas â'r darpariaethau a ganlyn yn ddefnyddiol:

- Cyfeiriad at drydydd is-baragraff Erthygl 9(2) o Gyfarwyddeb 88/407 ym mharagraff 2(b).
- Cyfeiriad at Erthygl 8(a) ac nid Erthygl 8(b) o Gyfarwyddeb 92/65 ym mharagraff 6(e).
- Cyfeiriad at ail is-baragraff Erthygl 4(3) o Gyfarwyddeb 2002/99 ym mharagraffau 8(c) a (d).
- Cyfeiriad at ail is-baragraff i bedwerydd is-baragraff yn unig Erthygl 8(1) o Gyfarwyddeb 2002/99, ond nid y pumed is-baragraff i'r degfed is-baragraff.
- Cyfeiriad at is-baragraffau unigol mewn rhai achosion, ond nid pob un, er enghraifft Erthyglau 19(a) a 19(b) o Gyfarwyddeb 92/65 ym mharagraffau 6(s) a d6(t); Erthyglau 6(1), 6(2) a 6(3) o Gyfarwyddeb 2004/68 ym mharagraff 9(e); is-baragraff cyntaf ac ail is-baragraff Erthygl 4(6) o Gyfarwyddeb 2009/156 ym mharagraff 10(c) a (d); ac Erthyglau 19(a), 19(b), 19(c) a 19(d) o Gyfarwyddeb 2009/156 ym mharagraffau 10(q) i (t).
- Dim cyfeiriad at Erthygl 5(5)(a) o Gyfarwyddeb 2009/156, mewn cyferbyniad â'r cyfeiriad at Erthygl 5(5)(c) o'r Gyfarwyddeb honno.

**26. Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn neu'r drafft**.

Yn yr Atodlen, mae ychydig o wahaniaethau rhwng y testunau Saesneg a Chymraeg. Ym mharagraff 1(e) ac (f), mae'r gair "Section" wedi ei gyfieithu'n anghywir fel "Rhan" mewn OSau Cymraeg. Mewn mannau eraill, mae'r gair "Adran" wedi ei ddefnyddio'n gywir fel y cyfieithiad ar gyfer "Section" drwy gydol y Rheoliadau.

**27. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**

Yn yr Atodlen, ym mharagraff 3(g)(i), mae'n ymddangos bod gwaith drafftio'r ddarpariaeth yn ddiffygiol gan fod pwyntiau (h), (m) ac (n) oll i'w gweld ym mhwynt 1. Felly dylid mewnosod y cyfeiriad at bwynt "1" yng ngeiriau agoriadol is-baragraff (g), fel ei fod yn gymwys i baragraffau (i), (ii) a (iii).

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y 7 pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**28. Rheol Sefydlog 21.3(i) – ei fod yn codi tâl ar Gronfa Gyfunol Cymru neu ei fod yn cynnwys darpariaethau sy'n ei gwneud yn ofynnol i daliadau gael eu gwneud i'r Gronfa honno neu i unrhyw ran o'r llywodraeth neu i unrhyw awdurdod lleol neu gyhoeddus yn gydnabyddiaeth am unrhyw drwydded neu gydsyniad neu am unrhyw wasanaethau sydd i'w rhoi, neu ei fod yn rhagnodi swm unrhyw dâl neu daliad o'r fath.**

Mae rheoliad 3(6) yn diwygio rheoliad 38 o Reoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) 2011 ("Rheoliadau 2011"). Mae rheoliad 38 o Reoliadau 2011 ar hyn o bryd yn darparu bod yn rhaid i awdurdodau lleol ac awdurdodau iechyd porthladdoedd godi ffi resymol mewn perthynas ag unrhyw weithgaredd rheoli swyddogol yn unol â'r darpariaethau codi tâl a gynhwysir ym Mhennod 6, Teitl 2 o Reoliadau Rheolaethau Swyddogol yr UE, a bod ffi o'r fath yn daladwy gan y gweithredwr sy'n gyfrifol am y llwyth neu ei gynrychiolydd. Mae'r gwelliant y mae rheoliad 3(6) o'r Rheoliadau hyn yn ei wneud i reoliad 38 o Reoliadau 2011 yn ymestyn i Weinidogion Cymru y ddyletswydd i godi'r ffioedd y cyfeirir atynt yn rheoliad 38.

**29. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Mae'r Rheoliadau hyn yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru sy'n cyfateb i bwerau a roddir i Weinidogion y DU yn Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Diwygio a Swyddogaethau Deddfwriaethol) 2022 ("Rheoliadau'r DU").

Mae'r pwerau a roddir i Weinidogion y DU yn Rheoliadau'r DU yn cynnwys pwerau i weithredu mewn meysydd datganoledig yng Nghymru. Felly, mae pwerau cydredol yn y maes hwn o'r gyfraith, h.y. mae pwerau y caniateir eu harfer yng Nghymru:

a) gan Weinidogion Cymru o dan y Rheoliadau hyn, neu
b) gan Weinidogion y DU o dan Reoliadau'r DU (ond dim ond gyda chydsyniad Gweinidogion Cymru).

Mewn llythyr at y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar 21 Hydref, dywedodd Lesley Griffiths AS, y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd mai dim ond o dan "amgylchiadau eithriadol" y byddai Gweinidogion Cymru yn rhoi cydsyniad i Weinidogion y DU ddefnyddio eu pwerau o dan Reoliadau'r DU mewn meysydd datganoledig.

Hefyd, o ran y defnydd o'r pwerau gan Weinidogion Cymru o dan y Rheoliadau hyn, nodwn y cyd-destun pwysig a ddarperir gan y Fframwaith Cyffredin ar Iechyd a Lles Anifeiliaid a'i ofynion ar gyfer ymgysylltiad trawslywodraethol.

**30. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Mae rheoliad 6 yn datgan bod rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru o dan unrhyw un neu ragor o'r swyddogaethau a grybwyllir yn yr Atodlen i'w gwneud drwy ddefnyddio'r weithdrefn graffu negyddol. Mae rheoliad 6(3) yn datgan y caiff rheoliadau o'r fath ddiwygio, diddymu neu ddirymu unrhyw ddeddfiad, sy'n golygu mai pwerau Harri'r Wythfed yw'r pwerau gwneud rheoliadau. Gofynnir i Lywodraeth Cymru gadarnhau pam y mae'r weithdrefn negyddol yn briodol ar gyfer y pwerau gwneud rheoliadau hyn. Gofynnir i Lywodraeth Cymru hefyd gadarnhau a yw rheoliad 6 yn newid y weithdrefn bresennol a gymhwysir i'r pwerau gwneud rheoliadau hyn.

**31. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Mae'r Rheoliadau'n darparu pwerau gwneud rheoliadau i Weinidogion Cymru o dan nifer o Gyfarwyddebau i amnewid gweithdrefnau a gynhwyswyd yn flaenorol o dan y Cyfarwyddebau hynny. Nid yw'n glir beth yw'r bwriadau a'r amserlenni ar gyfer defnyddio'r pwerau ychwanegol hyn. Yn benodol, beth yw'r rhesymau dros ychwanegu pwerau gwneud rheoliadau at y Cyfarwyddebau?

**32. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Yn ogystal â'r pwyntiau penodol a wnaed uchod, nid yw'r Rheoliadau hyn yn rhoi llwybr syml i'r sawl sy'n darllen ddeall beth yw'r gyfraith yn y maes hwn. Mae nifer o ddarnau o ddeddfwriaeth yn cael eu diwygio mewn modd tameidiog gan y Rheoliadau hyn. Mae'n anodd iawn canfod y sefyllfa ddeddfwriaethol yn gyffredinol, a dod o hyd i'r wybodaeth sydd ei hangen i ddeall y gofynion yn y maes hwn.

Yn benodol, ymddengys fod y dull a geir yn rheoliadau 2 ac 8 mewn perthynas â darpariaethau dehongli yn nodi ymadawiad unigryw â'r dull a geir fel arfer mewn offerynnau statudol Cymreig.

Mae'r holl reoliadau yn Rhan 5 sy'n ymwneud â Chyfarwyddebau yn cynnwys darpariaethau sy'n addasu'r darpariaethau dehongli presennol a geir eisoes yn y Cyfarwyddebau hynny (drwy addasu'r diffiniadau presennol neu gyflwyno diffiniadau newydd). O safbwynt ymarferol, mae'n golygu y dylai'r rhai sy'n darllen Cyfarwyddebau hynny yr UE ar legislation.gov.uk, Westlaw a LexisNexis gael eu hysbysu bod yr addasiadau hynny yn bodoli. Fodd bynnag, ni fydd y diffiniadau eraill ar gyfer Cyfarwyddebau hynny yr UE a geir yn rheoliadau 2 ac 8 yn cael eu cynnwys yn y sylwadau testunol ar gyfer Cyfarwyddebau'r UE ar yr adnoddau ar-lein hynny sy'n golygu na fydd y rhai sy'n darllen o reidrwydd yn ymwybodol eu bod yn bodoli. Felly,

gellid dadlau bod hynny yn tanseilio hygyrchedd cyfraith Cymru (gweler adran 1 o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019). Gofynnir i Lywodraeth Cymru esbonio pam y cymerodd y dull o gynnwys diffiniadau yn rheoliadau 2 ac 8 yn hytrach na'u cynnwys yn y rheoliadau sy'n addasu'r darpariaethau dehongli ym mhob Cyfarwyddeb.

Yn yr un modd, yn rheoliad 8(2), diffinnir y termau "national reference laboratory" ac "official laboratory" ond nid ydynt yn cael eu defnyddio yn y Rheoliadau hyn nac yn yr addasiadau i Gyfarwyddebau'r UE a geir yn Rhan 5. Gallai'r dull hwn o bosibl ddrysu neu gamarwain y rhai sy'n darllen y Rheoliadau hyn. Defnyddir y termau diffiniedig yn nhestun presennol rhai o'r Cyfarwyddebau a restrir yn Rhan 5, hyd yn oed os nad ydynt yn cael eu defnyddio yn yr addasiadau a geir yn y Rheoliadau hyn. Felly, gofynnir i Lywodraeth Cymru esbonio pam na wnaeth addasu'r darpariaethau dehongli a geir yn y Cyfarwyddebau hynny at ddibenion hygyrchedd

**33. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Ychydig o ymgynghoriad a gynhaliwyd mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi'r canlynol:

> *Nid yw defnyddio'r Ddeddf Ymadael [Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018] yn golygu bod gofyn i ymgynghori, ac nid oes unrhyw newidiadau polisi felly nid ydym yn disgwyl i'r offeryn hwn gael effaith ar randdeiliaid. Nid yw'r newidiadau hyn yn effeithio er enghraifft ar yr amodau ar gyfer mewnforio cynhyrchion anifeiliaid neu anifeiliaid neu gymeradwyo sefydliadau. Nid yw'r offeryn hwn yn rhoi unrhyw ddyletswyddau neu rwymedigaethau newydd ar ddefnyddwyr neu asiantaethau gorfodi. Bydd y newidiadau hyn yn caniatáu i'r rheolau presennol barhau mewn grym yng Nghymru yn dilyn ein hymadawiad â'r UE.*
>
> *Mae gofyn ymgynghori ar newidiadau oherwydd rheoliad 3(8) sy'n diwygio Atodlen 3, paragraff (8) o TARP Cymru. Cafodd yr ymgynghoriad ei arwain gan Lywodraeth y DU ar lefel Prydain Fawr yn 2021 ac roedd yr ymatebion yn ffafriol iawn.*

Mae'r rhagymadrodd i'r Rheoliadau yn datgan bod:

> ...*Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â'r cyrff a'r personau hynny y mae'n ymddangos i Weinidogion Cymru eu bod yn cynrychioli'r buddiannau y mae'n debygol y bydd y Rheoliadau hyn yn effeithio'n sylweddol arnynt a'r cyrff a'r personau eraill hynny y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried eu bod yn briodol.*

Mae'n ymddangos bod hyn yn anghyson â'r paragraff terfynol o'r dyfyniad o'r Memorandwm Esboniadol uchod, sy'n datgan y bu'r ymgynghoriad dan arweiniad Llywodraeth y DU. Felly, gofynnir am eglurhad gan Lywodraeth Cymru ynghylch sut y cynhaliwyd yr ymgynghoriad.

**34. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Cafwyd hyd i fwy na 70 o wallau teipograffyddol a gwallau yn y troednodiadau i'r Rheoliadau hyn, y mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi eu hysbysu ohonynt ar wahân. Mae'r Pwyllgor yn nodi nad yw'r troednodiadau yn rhan o'r Rheoliadau eu hunain, ond maent yn ddefnyddiol i'r rhai sy'n darllen deddfwriaeth i'r graddau y maent yn gywir ac felly mae'r Pwyllgor yn annog Llywodraeth Cymru i sicrhau eu bod yn gywir.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r pwyntiau adrodd technegol a'r pwyntiau rhinweddau ac eithrio pwyntiau 28 a 34.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 12 Rhagfyr 2022 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.

**Ymateb y Llywodraeth: Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Diwygio a Swyddogaethau Deddfwriaethol) ac Iechyd Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2022**

**Pwynt Craffu Technegol 1**

Bydd diwygiadau a gyflwynir i Reoliadau'r Fasnach Mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) 2011 yn cyfeirio darllenwyr i'r addasiadau a gyflwynir gan y Rheoliadau hyn.

Mae'r Cyfarwyddebau sy'n cael eu haddasu gan Ran 5 o'r Rheoliadau drafft wedi eu gweithredu o ran Cymru gan Reoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) 2011. Gan hynny, byddai unrhyw berson sy'n dymuno ystyried cymhwysiad y Cyfarwyddebau o ran Cymru yn ystyried Rheoliadau 2011. Mae diwygiadau i Reoliadau 2011, yn rheoliad 3(2) a (4) o'r Rheoliadau drafft, yn ei gwneud yn ofynnol i ddarllenydd ystyried y Rheoliadau drafft.

**Pwynt Craffu Technegol 2**

Mae rheoliad 5(1) a (2) yn rhoi'r rôl awdurdod priodol i Weinidogion Cymru.

**Pwynt Craffu Technegol 3**

Mae'r Llywodraeth wedi ystyried y mater, a chan fod y defnydd o'r term "Ynysoedd Prydain" yn y ddarpariaeth hon yn gyson â'i ystyr dealledig arferol, mae'r Llywodraeth o'r farn nad yw'r troednodyn yn angenrheidiol ac felly caiff ei ddileu wrth gyhoeddi'r Rheoliadau.

**Pwynt Craffu Technegol 4**

Mae'r Cyfarwyddebau, fel y maent wedi eu haddasu gan Ran 5 o'r Rheoliadau drafft, yn cael effaith gyfreithiol barhaus o ran Cymru, yn rhinwedd y Rheoliadau drafft a Rheoliadau'r Fasnach Mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) 2011. Gan hynny, mae'n fwy priodol ystyried bod y Cyfarwyddebau yn rhan o'r Rheoliadau hyn, yn hytrach na bod y Rheoliadau hyn yn rhan o'r Cyfarwyddebau hynny. Gan hynny mae'r diffiniad yn rheoliad 8(2) yn effeithiol.

Cyflwynir diffiniad o'r Rheoliadau drafft gan ddiwygiad i Reoliadau 2011, gan reoliad 3(2).

**Pwynt Craffu Technegol 5**

Rydym yn cyfeirio at ein hymateb i Bwynt Craffu Technegol 2.

**Pwynt Craffu Technegol 6**

Mae Cyfarwyddeb 89/556 yn darparu ar gyfer amodau iechyd anifeiliaid sy'n gymwys i'r fasnach mewn embryonau buchol. Mae Erthygl 7 yn darparu na chaniateir mewnforio embryonau ond o drydedd gwledydd awdurdodedig. Mae Erthygl 8 yn darparu, mewn perthynas â'r gwledydd hynny, fod rhaid i'r embryonau fod wedi eu casglu, eu prosesu, eu

storio a'u cludo yn unol â Phennod II o Atodiad A. Mae Gweinidogion Cymru yn ystyried bod pŵer, yn hytrach na dyletswydd, yn briodol i ddeddfu ar gyfer protocol gan fod protocol a dderbynnir eisoes ar waith, sy'n seiliedig ar safonau rhyngwladol a geir yn Llawlyfr y Gymdeithas Trosglwyddo Embryonau Ryngwladol.

**Pwynt Craffu Technegol 7**

Mae'r Llywodraeth yn derbyn y pwynt adrodd. Mae'r Llywodraeth yn ystyried, er gwaethaf y mân wall cyfieithu, fod y bwriad deddfwriaethol yn glir yn y ddwy iaith. Mae'r Llywodraeth yn bwriadu cywiro'r gwall wrth wneud y Rheoliadau.

**Pwynt Craffu Technegol 8**

Mae'r Llywodraeth yn derbyn y pwynt adrodd. Mae'r Llywodraeth yn bwriadu cywiro'r gwall drwy offeryn diwygio pan fydd y cyfle nesaf yn codi. Gwneir diwygiad ddechrau 2023.

**Pwynt Craffu Technegol 9**

Mae'r Llywodraeth yn derbyn y pwynt adrodd. Mae'r Llywodraeth yn ystyried, er gwaethaf y mân wall cyfieithu, fod y bwriad deddfwriaethol yn glir yn y ddwy iaith. Mae'r Llywodraeth yn bwriadu cywiro'r gwall wrth wneud y Rheoliadau.

**Pwynt Craffu Technegol 10**

Mae rheoliad 13(2) yn cadarnhau nad yw Erthyglau 2 a 6 o'r Gyfarwyddeb hon, nac Atodiadau A, B, C a D iddi, yn gymwys ond yn rhinwedd y Rheoliadau drafft hyn, a dim ond at ddibenion cyfeiriadau at y darpariaethau hynny yng Nghyfarwyddeb 92/65 a Rheoliad (EU) Rhif 206/2010. Ni ddefnyddir "dealer" nac "approved dealer's premises" yn y rhannau hynny o Gyfarwyddeb 91/68 a fydd yn cael effaith gyfreithiol barhaus yn rhinwedd y Rheoliadau hyn, ac ni ddefnyddir yr ymadroddion hynny ychwaith yn Rheoliad 206/2010.

**Pwynt Craffu Technegol 11**

Mae'r Llywodraeth yn derbyn y pwynt adrodd cyntaf, mewn perthynas â'r defnydd o'r term "Directive 92/65/EEC" yn hytrach na "Directive 92/65" ac mae'r Llywodraeth yn bwriadu cywiro'r gwall wrth wneud y Rheoliadau. Mae Rheoliad (EC) Rhif 853/2004 yn cyfeirio'n gywir at y term a ddiffiniwyd.

**Pwynt Craffu Technegol 12**

Mae'r Llywodraeth yn derbyn y pwynt adrodd. Mae hwn yn fân wall teipio amlwg, a bydd y Llywodraeth yn cywiro'r gwall wrth wneud y Rheoliadau.

**Pwynt Craffu Technegol 13**

Mae'r term "distribution" wedi ei ddileu o Erthygl 1 o'r Gyfarwyddeb oherwydd ei fod, yng nghyd-destun y ddarpariaeth honno, yn cyfeirio at ddosbarthu, neu symud o fewn yr Undeb Ewropeaidd. Mae'r un sail resymegol yn gymwys i Erthygl 7. Fe'i cedwir am yr un rheswm yn y pennawd i Bennod 1.

Fodd bynnag, cedwir y term "distribution" yn y diffiniad o Erthyglau 2 a 4 gan ei fod yn cyfeirio at y broses gynhyrchu y mae bwyd sy'n dod o anifeiliaid yn cael ei gynhyrchu drwyddi ac yn cyrraedd gweithredwr pellach yn y gadwyn fanwerthu, neu'r defnyddiwr, drwyddi.

Mae Erthygl 3 yn gymwys i weithredwyr busnes bwyd mewn trydedd gwledydd yn hytrach nag yng Nghymru, ac felly yn y cyd-destun hwnnw nid ystyriwyd bod y term "distribution" yn berthnasol.

Yn Erthygl 4, mae'r term "distribution" yn berthnasol, o ran yr hyn y gellid ei awdurdodi yng Nghymru o dan y rhanddirymiad hwnnw.

**Pwynt Craffu Technegol 14**

Mae'r diffiniad o "products of animal origin" yn y Gyfarwyddeb wedi ei ddileu gan ei fod wedi ei ddisodli gan ddiffiniad yn Rheoliad (EU) 2017/625, y Rheoliad Rheolaethau Swyddogol, sef cyfraith yr UE a ddargedwir yn rhinwedd Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018. Mae addasiadau a wneir i baragraff agoriadol Erthygl 2 o'r Gyfarwyddeb yn cadarnhau bod diffiniadau'r Rheoliad Rheolaethau Swyddogol yn gymwys i'r Gyfarwyddeb.

Bydd Rheoliadau'r Fasnach Mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) 2011, y Rheoliad Rheolaethau Swyddogol, y Rheoliadau drafft hyn a nifer o brif Reoliadau uniongyrchol unigol yr UE ym meysydd iechyd anifeiliaid, lles anifeiliaid, hylendid bwyd a bwyd anifeiliaid a diogelwch bwyd oll yn gweithio ochr yn ochr. Yn benodol, y gyfundrefn Reolaethau Swyddogol yw'r system ddilysu a ddefnyddir i ddilysu cydymffurfedd â'r safonau o sylwedd a osodir yng nghyfraith uniongyrchol yr UE a ddargedwir.

**Pwynt Craffu Technegol 15**

Mae rheoliad 16(6)(a)(i)(bb) yn cadw'r geiriad "suspected of being infected" a chyfeirir at hynny er mwyn lleoli'r geiriad newydd "may be authorised" yn union ar ei ôl.

**Pwynt Craffu Technegol 16**

Nid yw'r Cyfarwyddebau sy'n cael eu haddasu gan Ran 5 yn rhan o'r llyfr statud domestig ar hyn o bryd, oherwydd na ddargedwir Cyfarwyddebau gan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018.

Mae'n gywir mai dim ond y darpariaethau sy'n cael eu haddasu fydd yn gymwys o ran Cymru, yn rhinwedd eu cynnwys yn y Rheoliadau drafft hyn. Mae darpariaethau'r Gyfarwyddeb sy'n cael eu haddasu yn Rhan 5 wedi eu gorfodi, o ran Cymru, gan Reoliadau'r Fasnach Mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) 2011, ac mae diwygiadau i'r Rheoliadau hynny, yn rheoliad drafft 3(3) yn cyfeirio darllenwyr i'r Rheoliadau hyn, a'r Cyfarwyddebau sydd wedi eu haddasu.

**Pwynt Craffu Technegol 17**

Mae'r Llywodraeth yn derbyn y pwynt a bydd yn cywiro'r gwall fformadu wrth wneud y Rheoliadau.

**Pwynt Craffu Technegol 18**

Mae'r Llywodraeth yn derbyn y pwynt. Mae hwn yn fân wall teipio amlwg, a bydd y Llywodraeth yn cywiro'r gwall wrth wneud y Rheoliadau.

**Pwynt Craffu Technegol 19**

Mae'r diwygiadau yn rheoliad 17(8)(e)(i) a (ii) yn dileu'r gofyniad i dystysgrif filfeddygol â luniwyd mewn cydymffurfedd gan un o Bwyllgorau'r Undeb Ewropeaidd yn unol ag erthygl 14 o'r Gyfarwyddeb fynd gydag anifeiliaid.

Mae'r ddarpariaeth newydd yn darparu i dystysgrif iechyd berthnasol, ar ffurf a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru, fel awdurdod priodol, o bryd i'w gilydd, fynd gydag anifeiliaid. Gall Gweinidogion Cymru gyhoeddi'r dystysgrif yn weinyddol, ac rydym wedi ein bodloni bod y diwygiad hwn yn ddiwygiad gweithrediad technegol.

**Pwynt Craffu Technegol 20**

Mae'r Llywodraeth yn derbyn y byddai wedi bod yn gyson ag addasiadau tebyg eraill pe bai cyfeiriad at Gymru wedi ei roi yn lle'r cyfeiriadau at "the territory". Fodd bynnag, rydym wedi ein bodloni bod effaith y ddarpariaeth yn glir, ac nid oes risg wirioneddol o ddryswch.

**Pwynt Craffu Technegol 21**

Defnyddir y term "central veterinary authority" mewn perthynas â'r cyfrifoldeb ar drydedd wlad i gymeradwyo labordy cymeradwy yn Erthygl 2 o Gyfarwyddeb 2009/158. 'Approved laboratory' a ddiffinnir yn erthygl 2(11) yn hytrach na "competent veterinary authority".

Gwnaed diwygiad i'r diffiniad o "approved laboratory" yn anad dim er mwyn nacáu'r syniad bod rhaid i labordy cymeradwy fod wedi ei leoli mewn Aelod Wladwriaeth, oherwydd ni fyddai hynny'n gwneud synnwyr yn y cyd-destun domestig.

Nid oes diffiniad o "competent veterinary authority" yn y Gyfarwyddeb felly nid yw'n cael ei ddiwygio gan y Rheoliadau, a defnyddir y term mewn ffordd gyffredinol oherwydd y bydd yn gymwys mewn nifer o wledydd gwahanol.

**Pwynt Craffu Technegol 22**

Mae'r Llywodraeth yn derbyn y pwynt adrodd. Mae'r testun Cymraeg yn cynnwys gwall teipio amlwg, a bydd y Llywodraeth yn ceisio ei gywiro wrth wneud y Rheoliadau.

**Pwynt Craffu Technegol 23**

Mae'r Llywodraeth yn derbyn y pwynt adrodd. Mae'r testun Saesneg yn cynnwys gwall teipio amlwg, a bydd y Llywodraeth yn ceisio ei gywiro wrth wneud y Rheoliadau.

**Pwynt Craffu Technegol 24**

Mae'r Llywodraeth yn derbyn y pwynt adrodd. Mae pennawd Rhan 6 wedi ei hepgor o'r testun Cymraeg. Gan nad yw hyn yn rhan weithredol o'r Rheoliadau drafft, byddwn yn ceisio cywiro'r gwall fformadu hwn wrth wneud y Rheoliadau.

**Pwynt Craffu Technegol 25**

Yng Nghyfarwyddeb 88/407, diben rhestru trydydd is-baragraff Erthygl 9(2) yw ei fod yn berthnasol i bŵer Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau yn Erthygl 8(1).

Yng Nghyfarwyddeb 92/65, diben rhestru trydydd is-baragraff Erthygl 8(a) yw ei fod yn cynnwys pŵer Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau. Mae Erthygl 8(b) yn berthnasol i berson sy'n dymuno mewnforio cacwn o dan ofynion Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) 2011, yn hytrach nag i arfer pwerau Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau.

Yng Nghyfarwyddeb 2002/99, mae paragraff 8(c) yn rhestru pŵer Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau a nodir yn Erthygl 4(3), ac hefyd yr ail is-baragraff, sy'n ymwneud â'r angen i gynnal safonau diogelu iechyd anifeiliaid, oherwydd ei fod yn berthnasol pe bai Gweinidogion Cymru yn deddfu o dan rym paragraff 8(c). Mae hefyd wedi ei restru ar wahân ym mharagraff 8(c) fel pŵer annibynnol neu bŵer ar wahân.

Yng Nghyfarwyddeb 2002/99, o ran Erthygl 8(1) o Gyfarwyddeb 2002/99, mae gan Erthygl 8 is-baragraffau sydd wedi eu rhifo 1, 3, 4 a 5, ond nid oes is-baragraffau 5-10.

O ran yr holl ddarpariaethau a restrir o dan bwynt bwled rhif 5 o dan bwynt craffu technegol 25, y bwriad o ran polisi oedd cyfeirio at ddarpariaethau ar y cyd â phwerau Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau, oherwydd y credir eu bod yn berthnasol i arfer y pwerau hynny i wneud rheoliadau.

O ran Erthyglau 19(a) a 19(b) o Gyfarwyddeb 92/65, ym mharagraffau 6(s) a 6(t), nid ystyriwyd bod angen cyfeirio'n benodol at unrhyw ddarpariaethau eraill, maent wedi'u rhestru ar wahân i adlewyrchu'r gwahaniaeth yn y bwriad polisi rhwng y ddwy ddarpariaeth. O ran Erthyglau 6(1), (2) a (3) o Gyfarwyddeb 2004/68, nodir y pŵer i wneud rheoliadau yn Erthygl 6(1), ond mae Erthyglau 6(2) a (3) yn berthnasol iddo.

O ran rhestru ar wahân is-baragraff cyntaf ac ail is-baragraff Erthygl 4(6) o Gyfarwyddeb 2009/156 ym mharagraffau 10(c) a 10(d), maent wedi eu rhestru ar wahân oherwydd bod y darpariaethau'n cynnwys dau bŵer ar wahân i wneud rheoliadau.

O ran y cyfeiriadau at Erthyglau 19(a) i (d) ym mharagraffau 10(q) i (t) o'r Atodlen, rydym o'r farn y gellid bod wedi eu rhestru mewn un paragraff, ac na fyddai hynny wedi newid yr effaith gyfreithiol, ond mae eu nodi ar wahân yn tynnu sylw at y modd y'u cymhwysir yn wahanol mewn amgylchiadau gwahanol.

Yng Nghyfarwyddeb 2009/156, o ran yr ymholiad ynghylch pam nad yw Erthygl 5(5)(a) wedi ei rhestru, mae'r Llywodraeth wedi edrych ar hyn ac yn cadarnhau ei bod wedi ei hepgor drwy

amryfusedd ac y dylid ei chynnwys yn y rhestr o swyddogaethau yn yr Atodlen. Mae'r Llywodraeth yn bwriadu unioni hyn drwy offeryn statudol diwygio ddechrau 2023.

**Pwynt Craffu Technegol 26**

Mae'r Llywodraeth yn derbyn y pwynt adrodd. Mae'r Llywodraeth yn ystyried, er gwaethaf y mân wall cyfieithu, fod y bwriad deddfwriaethol yn glir yn y ddwy iaith. Mae'r Llywodraeth yn bwriadu cywiro hyn wrth wneud y Rheoliadau.

**Pwynt Craffu Technegol 27**

Mae'r Llywodraeth yn derbyn y pwynt adrodd. Nid yw'r Llywodraeth yn ystyried bod y gwall teipio clir hwn yn peri risg o greu dryswch. Bydd y Llywodraeth yn ceisio cywiro'r gwall hwn wrth wneud y Rheoliadau.

**Pwynt Craffu ar Rinweddau 29**

Nid ymddengys bod angen i'r Llywodraeth ymateb i'r pwynt adrodd hwn.

**Pwynt Craffu ar Rinweddau 30**

Mae rheoliad 6(3) yn darparu y caiff rheoliadau Gweinidogion Cymru a wneir o dan swyddogaethau a restrir yn yr Atodlen i'r Rheoliadau drafft gynnwys darpariaeth ganlyniadol, darpariaeth ddeilliadol, darpariaeth atodol, darpariaeth drosiannol neu ddarpariaeth arbed, gan gynnwys darpariaeth sy'n diwygio, yn diddymu neu'n dirymu *unrhyw* ddeddfiad. Fodd bynnag, mae rhychwant y pŵer i ddiwygio, diddymu neu ddirymu *unrhyw* ddeddfiad felly wedi ei gyfyngu i'r ddarpariaeth ganlyniadol, y ddarpariaeth ddeilliadol, y ddarpariaeth atodol, y ddarpariaeth drosiannol neu'r ddarpariaeth arbed honno sydd wedi ei chynnwys yn rheoliadau Gweinidogion Cymru, ac felly rydym yn ystyried bod y weithdrefn graffu negyddol yn briodol.

**Pwynt Craffu ar Rinweddau 31**

Bwriad y polisi yw darparu i Weinidogion Cymru swyddogaethau gwneud rheoliadau a fydd yn eu galluogi i wneud addasiadau i'r Cyfarwyddebau yn y dyfodol er mwyn mynd bob yn gam â datblygiadau polisi, economaidd, gwyddonol a thechnegol perthnasol yn y dyfodol. Mae'r swyddogaethau newydd hyn i Weinidogion Cymru yn disodli'r swyddogaethau diweddaru hynny a oedd wedi eu breinio yng nghyrff yr UE gan y Cyfarwyddebau.

**Pwynt Craffu ar Rinweddau 32**

Mae'r dull drafftio yn newydd ac yn gymhleth o reidrwydd oherwydd y cyd-destun deddfwriaethol sydd eisoes yn bodoli. Bydd y Rheoliadau'n gymwys mewn maes polisi sydd wedi ei reoleiddio'n helaeth, ac yn rhyngweithio â nifer o eitemau eraill hir a chymhleth o ddeddfwriaeth ddomestig a deddfwriaeth yr UE a ddargedwir, ac yn benodol y gyfundrefn Rheolaethau Swyddogol a Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) 2011.

O ran copïau o'r Cyfarwyddebau sydd ar gael i'r cyhoedd, rydych yn gywir na fyddai'r addasiadau a wneir gan y Rheoliadau hyn ar gael i'w darllen yn y copïau hynny. Fodd bynnag, nid yw'r Cyfarwyddebau yn eu cyfanrwydd, fel y maent yn bodoli y tu hwnt i'r Rheoliadau drafft hyn, yn rhan o'r llyfr statud. Nid yw Rhan 5 yn addasu'r Cyfarwyddebau ond at ddibenion y Rheoliadau drafft a Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) 2011. O ran y Rheoliadau drafft, swyddogaethau'r Rheoliadau drafft yw'r swyddogaethau a restrir yn yr Atodlen, wedi eu drafftio drwy gyfeirio at y Cyfarwyddebau. Mae Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) 2011 yn croesgyfeirio at y Cyfarwyddebau drafft ac felly bydd cymhwysiad y Rheoliadau drafft, a'r modd yr ymgorfforir testunau addasedig y Cyfarwyddebau, yn glir i'r darllenydd.

**Pwynt Craffu ar Rinweddau 33**

Nodwyd. Mae'r rhaglith yn cadarnhau bod y gofyniad i ymgynghori yn Erthygl 144(7) o Reoliad (EU) 2017/625, i'r graddau y bo'r Rheoliadau'n defnyddio Erthyglau 48(b) a 144(6) o Reoliad (EU) 2017/625, wedi ei fodloni. Nid yw Erthyglau 48(b) a 144(6) yn gymwys ond mewn perthynas â rheoliad 3(8).

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad gan Lywodraeth y DU, gyda goruchwyliaeth gan Lywodraeth Cymru, cyn i Lywodraeth y DU weithredu'r newid polisi hwn yn Rheoliadau Esemptiadau rhag Rheolaethau Swyddogol mewn Safleoedd Rheoli ar y Ffin (Diwygio) 2021.

Ar y pryd, ymgynghorodd Llywodraeth y DU, gyda chytundeb Llywodraeth Cymru, â'r holl randdeiliaid perthnasol o sector diwydiant y gwyddorau bywyd a chafwyd ymateb cadarnhaol i Reoliadau 2021.

Cysylltwyd â gwahanol gyrff a sefydliadau blaenllaw yn y diwydiant, sy'n cynrychioli'r sector cyfan ledled Prydain Fawr. Mae'r rhanddeiliaid hyn yn gweithredu ledled Prydain Fawr neu'r Deyrnas Unedig, felly nid ystyriwyd bod angen i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r un rhanddeiliaid ar wahân yng Nghymru.

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

—

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565

—

**Senedd Cymru**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Lesley Griffiths AS

Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd

Lynne Neagle AS

Y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant

12 Rhagfyr 2022

Annwyl gyfeillion

Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Diwygio a Swyddogaethau Deddfwriaethol) ac Iechyd Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2022 a Rheoliadau Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2022

Yn ein cyfarfod heddiw, ar 12 Rhagfyr 2022, ystyriwyd Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Diwygio a Swyddogaethau Deddfwriaethol) ac Iechyd Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2022 (Rheoliadau TARP 2022) a'r Rheoliadau Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2022 (Rheoliadau Bwyd 2022). Mae'n siomedig nad ydym wedi cael ymateb i'r 34 pwynt adrodd yr ydym wedi'u codi mewn perthynas â Rheoliadau TARP 2022, yn enwedig o ystyried goblygiadau posibl y drafftio diffygiol yr ydym wedi'u nodi. O ran Rheoliadau Bwyd 2022, roeddem yn gallu ystyried ymateb Llywodraeth Cymru i'n pwyntiau adrodd.

Rydym yn pryderu ei bod yn ymddangos bod Llywodraeth Cymru yn parhau gyda'i chynlluniau i ofyn am gymeradwyaeth y Senedd ar gyfer y rheoliadau hyn, er bod y ddau offeryn yn ddiffygiol. Rydym felly wedi gwneud y penderfyniad i ysgrifennu atoch ar frys, yn dilyn ein hystyriaeth o'r rheoliadau hyn yn ein cyfarfod y prynhawn yma.

Rydym yn credu ei bod yn hanfodol bod rhagor o wybodaeth yn cael ei darparu i'r Senedd cyn i chi ofyn i'w Haelodau gymeradwyo rheoliadau y gwyddom sy'n wallus, ac a allai leihau effeithiolrwydd a hygyrchedd y gyfraith a'r gallu i'w gweithredu, yn enwedig i randdeiliaid a dinasyddion y mae'n effeithio arnynt yn uniongyrchol.

Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Diwygio a Swyddogaethau Deddfwriaethol) ac Iechyd Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2022

C1. Mae'r pwerau a ddefnyddir i wneud y Rheoliadau hyn yn dod i ben ar 31 Rhagfyr 2022. A allech chi, felly, roi manylion y pwerau a fyddai'n cael eu defnyddio i wneud cywiriadau i unrhyw elfennau diffygiol o'r ddeddfwriaeth?

C2. Pa gyfyngiadau fyddai (os o gwbl) ar osod deddfwriaeth nad yw'n ddiffygiol ar ôl 31 Rhagfyr 2022 (yn hytrach na pharhau â'r Rheoliadau presennol gerbron y Senedd)?

C3. Beth fyddai effaith peidio â gwneud y Rheoliadau hyn cyn 31 Rhagfyr 2022?

C4. Pam rydych chi wedi penderfynu peidio ag arfer pwerau sydd yn *Neddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018* i ganiatáu defnyddio'r weithdrefn frys (gadarnhaol 'gwnaed') fel modd o gywiro'r drafftio diffygiol y tynnodd y Pwyllgor sylw atynt?

C5. A wnewch chi nodi pa bwyntiau rydych chi'n cytuno / anghytuno â hwy yn ein hadroddiad mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn, fel y gall yr Aelodau ddeall eich safbwynt?

C6. A wnewch chi amlinellu beth yw effaith ymarferol gwneud y ddeddfwriaeth hon gyda diffygion yn erbyn yr effaith ymarferol o beidio â gwneud y ddeddfwriaeth hon, gan gynnwys unrhyw risgiau iechyd, diogelwch a / neu fioddiogelwch?

C7. A wnewch chi gadarnhau a yw'r sefyllfa hon yn arwain at ymwahaniad rhwng Gogledd Iwerddon a Phrydain Fawr?

C8. Sut rydych chi'n bwriadu mynd i'r afael â chywiro'r Rheoliadau diffygiol pe caent eu cymeradwyo gan y Senedd ac i ba amserlen?

Rheoliadau Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2022

Yn ymateb Llywodraeth Cymru, rydych yn datgan y byddwch yn cywiro'r gwallau a nodir ym mhwyntiau adrodd 2, 3 a 5 " pan fydd y cyfle nesaf yn codi" a'ch bod yn rhagweld "y bydd offeryn statudol addas ... yn mynd rhagddo yn ystod hanner cyntaf 2023".

Mae Rheoliadau Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) yn cael eu gwneud gan ddefnyddio pwerau ym mharagraff 1(1) o Atodlen 2 a pharagraff 21(b) o Atodlen 7 i *Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018* ac yn adrannau 66(1), 74A(1) ac 84 o *Deddf Amaeth 1970*.

C9. Eto, gofynnwn am gadarnhad ynglŷn â pha bwerau fydd yn cael eu harfer i wneud yr offeryn statudol  cywiro priodol?

C10. Beth fyddai effaith peidio â gwneud y Rheoliadau hyn cyn 31 Rhagfyr 2022?

C11. Pa asesiad o effaith y mae Llywodraeth Cymru wedi'i gynnal i wneud y penderfyniad ei bod yn well diwygio'r ddeddfwriaeth ddiffygiol hon yn y Flwyddyn Newydd yn hytrach na'i thynnu yn ôl a gwneud rheoliadau newydd gan ddefnyddio pwerau eraill?

C12. Pryd y caiff y Rheoliadau cywiro eu gosod gerbron y Senedd?

C13. A wnewch chi gadarnhau a yw'r sefyllfa hon yn arwain at ymwahaniad rhwng Gogledd Iwerddon a Phrydain Fawr?

Byddem yn eich annog i fynd i'r afael â'r cwestiynau hyn yn ystod dadleuon perthnasol yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mawrth 13 Rhagfyr, ac rydym yn disgwyl ymateb ysgrifenedig llawn i'n cwestiynau cyn gynted â phosibl.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Bwyllgor Busnes y Senedd.

Yn gywir

Huw Irranca-Davies

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

**Lynne Neagle AS/MS**
**Y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant**
**Deputy Minister for Mental Health and Wellbeing**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

13 Rhagfyr 2022

Annwyl Huw

**Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Diwygio a Swyddogaethau Deddfwriaethol) ac Iechyd Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2022**

**Rheoliadau Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2022**

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 12 Rhagfyr 2022 ynglŷn â'r Offerynnau Statudol a nodir uchod. Gall Llywodraeth Cymru ond ymddiheuro am yr amser a gymerwyd i ymateb i'r adroddiad ynghylch Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Diwygio a Swyddogaethau Deddfwriaethol). Rhoddwyd yr adroddiad i ni ddydd Mercher 7 Rhagfyr ac roedd y pwyntiau adrodd yn gofyn am ystyriaeth fanwl a thrylwyr sydd wedi cymryd cryn amser.

Yn benodol, mae Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Diwygio a Swyddogaethau Deddfwriaethol) wedi bod yn offeryn hir iawn, yn 100 tudalen o hyd ac yn dechnegol gymhleth i swyddogion ei ddrafftio. Mae hyn o ganlyniad i'r cyd-destun deddfwriaethol y bydd y Rheoliadau yn gweithredu ynddo sydd eisoes yn gymhleth, sef 11 o gyfarwyddebau gan yr UE, 9 o reoliadau yr UE a ddargedwir a 2 set o reoliadau domestig, sy'n gyfanswm o gannoedd o dudalennau o ddeddfwriaeth.

Mae'r Llywodraeth yn ddiolchgar i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad am ei waith craffu ac yn derbyn nifer bach o bwyntiau adrodd sydd angen eu diwygio. Fodd bynnag, mae'r Llywodraeth yn hyderus bod y Rheoliadau, gyda'r cywiriadau arfaethedig, yn parhau yn effeithiol, yn ymarferol ac yn hygyrch. Ar y cyfan, mae'r Llywodraeth o'r farn ei bod yn briodol bwrw ati i gyflwyno'r Rheoliadau i bleidlais yn y Senedd.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried y pwyntiau a godwyd gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad yn ofalus ac mae'n hyderus bod modd eu datrys gan nad ydynt yn achosi effaith sylweddol ar weithrediad y Rheoliadau ac ni ddylent rwystro'r Rheoliadau rhag cael eu gwneud.

Mae'r Llywodraeth wedi cynnig esboniad llawn o'i safbwynt i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad mewn llythyr ymateb i'w hadroddiad manwl. Mae'r Llywodraeth o'r farn bod y gwallau yn glir, yn fân o ran eu heffaith a bod bwriad y drafftio yn glir ac nad oes lle ar gyfer camddealltwriaeth gwirioneddol neu ar gyfer dryswch difrifol.

Mewn perthynas â'r cwestiynau yn eich llythyr, gallwch ddod o hyd i ymatebion y Llywodraeth yn yr Atodiad isod.

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**



**Lynne Neagle AS/MS**
**Y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant**
**Deputy Minister for Mental Health and Wellbeing**



## ATODIAD

**Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Diwygio a Swyddogaethau Deddfwriaethol) ac Iechyd Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2022**

**C1. Mae'r pwerau a ddefnyddir i wneud y Rheoliadau hyn yn dod i ben ar 31 Rhagfyr 2022. A wnewch chi felly roi manylion ynghylch y pwerau a fyddai'n cael eu defnyddio ar gyfer cywiro unrhyw elfennau diffygiol o'r ddeddfwriaeth?**
Cynigiwn ein bod yn dibynnu ar bwerau o dan Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981.

**C2. Pa gyfyngiadau (os yn berthnasol) fyddai o ran gosod deddfwriaeth nad yw'n ddiffygiol ar ôl 31 Rhagfyr 2022 (yn hytrach na pharhau â gosod y Rheoliadau presennol gerbron y Senedd)?**
Os na wneir yr Offeryn Statudol cyn 31 Rhagfyr 2022, bydd pwerau galluogi Gweinidogion Cymru yn cael eu colli, sef y rheini o dan Ddeddf Ymadael â'r UE.

Mae swyddogion wedi dechrau canfod pwerau cyfreithiol eraill er mwyn llunio pecyn tebyg o adnoddau ar gyfer Gweinidogion Cymru. Fodd bynnag, nid yw'r Llywodraeth yn obeithiol y bydd hyn yn sicrhau cynnwys da. Y rheswm am hyn yw ar ddechrau'r prosiect hwn, gwnaeth holl weinyddiaethau y DU asesu pa bwerau a oedd yn y Cyfarwyddebau hyn a fyddai'n cael eu "colli" os na fyddent yn cael eu dargadw o dan Ddeddf Ymadael â'r UE. Pe byddai dewis domestig arall ar gael, ni fyddai angen trosglwyddo pwerau'r Comisiwn drosodd gan y byddai hynny wedi arwain at ddyblygu.

**C3. Beth fyddai'r effaith o beidio â gwneud y Rheoliadau hyn cyn 31 Rhagfyr 2022?**
Mae amryw o effeithiau. Yn gyntaf, bydd y pwerau galluogi ar gyfer yr Offeryn Statudol hwn yn dod i ben ar 31 Rhagfyr 2022, felly o safbwynt polisi ac adnoddau cyfreithiol, byddai hyn yn golygu ailddechrau'r gwaith o'r dechrau a cheisio canfod pwerau newydd i wneud y cywiriadau.

Yr hyn sy'n anodd o ran y dull hwn yw bod y Rheoliadau hyn yn creu pwerau gwneud rheoliadau ac yn eu breinio yng Ngweinidogion Cymru. Yn gyffredinol, mae deddfwriaeth sylfaenol ddomestig yn gosod pwerau gwneud rheoliadau ac nid yw'n caniatáu i bwerau gwneud rheoliadau pellach gael eu gwneud yn y rheoliadau hynny. Amcangyfrifwn y byddai dadansoddiad llawn o bwerau gwneud rheoliadau a phwerau gweinyddol sydd ar gael, a cheisio eu paru i'r darpariaethau a wneir yn yr Offeryn Statudol hwn, yn cymryd 4 i 6 mis. Yn ystod y cyfnod hwn, byddai'r anghysondebau yn ein llyfr rheolau domestig y mae'r Rheoliadau hyn yn ceisio eu cywiro yn parhau.

Yn ail, o safbwynt cydlyniaeth ledled Prydain, pe na fyddai'r Rheoliadau yn cael eu gwneud, byddai cyfraith Cymru yn anghyson â'r hyn sy'n cyfateb yn Lloegr ac yn yr Alban. Byddai Cymru yn llwyr ddibynnol dros dro ar Lywodraeth y DU yn defnyddio'i phŵer cydredol plws pe bai unrhyw frigiad o achosion o glefydau mewn gwlad arall yn arwain at yr angen i ddiweddaru'n gyflym unrhyw un o'r amodau iechyd a gedwir yn y Cyfarwyddebau.

**C4. Pam eich bod wedi penderfynu peidio ag arfer pwerau sydd wedi eu cynnwys yn Neddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 i ganiatáu'r defnydd o weithdrefn (gadarnhaol gwnaed) frys fel modd o gywiro'r drafftio diffygiol sydd wedi ei amlygu gan y Pwyllgor?**
Ystyriodd y Llywodraeth yr opsiwn hwn ond daethpwyd i'r casgliad nad oedd yn ddatrysiad ymarferol gan ystyried maint y gwaith a hynny o fewn amserlen dynn iawn. Nid yw'r Llywodraeth yn derbyn 18 pwynt craffu yn adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, felly byddai drafft wedi ei ailosod yn parhau i gynnwys y darpariaethau y maent yn ymwneud â hwy.

Ymhellach i hynny, mewn perthynas â'r sylwadau cyffredinol ynghylch y gwaith drafftio, ni fyddai modd i ni ailddrafftio yn sylweddol cyn 31 Rhagfyr. O ganlyniad, dim ond oddeutu 50% o'r pwyntiau adrodd y byddai'r rheoliadau "newydd" yn eu datrys, yr union rai y gallwn eu cywiro wrth gyhoeddi a thrwy offeryn diwygio bach os awn ymlaen â'r drafft hwn a osodir.

Er y gobeithiwn y bydd ein hymateb yn datrys y 18 pwynt craffu nad yw'r Llywodraeth yn eu derbyn, ni fyddem yn dymuno rhagfarnu'r ymarfer hwn. Gwnaethom ystyried y sefyllfa felly, ac roedd gofyn y Senedd yr un fath, neu'n debyg iawn ym mhob sefyllfa. Fodd bynnag, o dan y weithdrefn gadarnhaol gwnaed, roedd mater ychwanegol sef y byddai pwerau'r Ddeddf Ymadael eisoes wedi dod i ben cyn y byddai'r Senedd yn pleidleisio ar y Rheoliadau "newydd".

**C5. A wnewch chi nodi pa bwyntiau rydych chi'n cytuno / anghytuno â hwy yn ein hadroddiad o ran y Rheoliadau hyn er mwyn i'r Aelodau ddeall eich safbwynt?**
Mae'r Llywodraeth yn cytuno ag oddeutu hanner y pwyntiau adrodd, gyda dau ohonynt yn golygu bod angen diwygio'r Rheoliadau. Mae manylion llawn wedi eu rhoi yn yr ymateb ffurfiol i adroddiad Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad dyddiedig 7 Rhagfyr.

O'r 34 o bwyntiau adrodd, cynigir y byddai offeryn diwygio bach yn datrys 2 ohonynt.

Mae 12 pwynt adrodd yn wallau mân y gellir eu cywiro wrth gyhoeddi.

Mewn perthynas â 18 pwynt, mae swyddogion yn fodlon y gallant ddarparu rhesymeg ynghylch y drafftio a ddylai ddatrys pryderon y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad.

Nid yw'r 3 pwynt adrodd olaf angen ymateb neu weithredu gan y Llywodraeth.

**C6. Allech chi amlinellu beth yw effaith ymarferol gwneud y ddeddfwriaeth hon â diffygion yn erbyn yr effaith ymarferol o beidio â gwneud y ddeddfwriaeth hon, gan gynnwys unrhyw risgiau iechyd, diogelwch a / neu fioddiogelwch?**
Mae'r Rheoliadau'n ymgorffori yng nghyfraith Cymru ddarpariaethau ar gyfer mewnforio cynhyrchion iechyd anifeiliaid a chynhyrchion anifeiliaid a nodir yng Nghyfarwyddebau'r UE. Bydd Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) 2011 yn gorfodi'r darpariaethau hyn ar bwynt mynediad, lle caiff llwythi eu gwirio a'u dilysu i sicrhau eu bod yn cydymffurfio cyn i lwythi ddod i mewn i Gymru.

Bydd peidio â gwneud y Rheoliadau yn ymestyn risg bresennol o gael fframwaith anghyson ar gyfer rheolaethau mewnforio. Drwy wneud y Rheoliadau nawr rydym yn mynd i'r afael â'r risg honno, ynghyd ag ymrwymiad y Llywodraeth i ddatrys y pwyntiau adrodd a dderbyniwyd. O ran y ddau bwynt y mae angen eu diwygio, rydym o'r farn bod y risg sy'n gysylltiedig â'r ddau bwynt hynny'n ddibwys o safbwynt bioddiogelwch yn y tymor byr.
Yn y cyfamser, gellir rheoli'r anghysondebau hyn yn weithredol cyn i'r diwygiad gael ei wneud ac ni fydd yn effeithio'n andwyol ar fasnachwyr nac yn peri unrhyw risg o beryglu iechyd na lles anifeiliaid.

**C7. Allech chi gadarnhau a yw'r sefyllfa hon yn codi'r mater o Ogledd Iwerddon/Prydain Fawr yn ymwahanu?**
Os na chaiff y Rheoliadau eu gwneud nawr, yna byddai Cymru'n parhau i gael anghysondebau yn ei fframwaith cyfreithiol ar gyfer rheoli mewnforion, tra na fyddai hyn yn wir ar gyfer Lloegr na'r Alban.
Nid oes unrhyw oblygiadau arbennig o ran Gogledd Iwerddon gan ei bod wedi'i halinio'n gyfreithiol â Rheoliad Iechyd Anifeiliaid yr UE. Felly, mae eisoes wedi ymwahanu o'i chymheiriaid ym Mhrydain Fawr.

**C8. Sut ydych chi'n bwriadu delio â'r gwaith o gywiro'r Rheoliadau diffygiol pe baen nhw'n cael eu cymeradwyo gan y Senedd a beth fydd yr amserlen?**
Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i gyflwyno offeryn statudol diwygio mewn perthynas â'r ddau bwynt rydym yn cytuno y bod angen eu cywiro ddechrau 2023 (Ionawr). Ar y cyd, byddwn yn mynd i'r afael â'r pwyntiau craffu bach wrth wneud y Rheoliadau a'u cyhoeddi.

## Rheoliadau Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2022

**C9. Eto, rydym yn gofyn am gadarnhad ynghylch pa bwerau fydd yn cael eu harfer i wneud yr offeryn statudol cywiro priodol?**

Byddwn yn cywiro'r pwyntiau craffu technegol 'Rheoliadau Bwyd 2022' a godwyd gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad gan ddefnyddio pwerau gwahanol. Mae pwyntiau 1 a 4 yn ymwneud â gwallau teipograffyddol bach a chynigir mynd i'r afael â nhw drwy slipiau cywiro. Mae pwyntiau 2 a 3 yn tynnu sylw at ddiwygiadau anghyflawn bach i ddau offeryn sy'n gysylltiedig â bwyd. Cynigir gwneud diwygiadau pellach i'r OSau hynny (gan eu bod yn cael eu diwygio gan Reoliadau Bwyd 2022) er mwyn mynd i'r afael â phwyntiau 2 a 3 a wnaed gan ddefnyddio pwerau o dan adran 16 o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990. Mae pwynt 5 yn tynnu sylw at wall mewn testun Cymraeg a fewnosodir yn offeryn sy'n gysylltiedig â bwyd anifeiliaid. Cynigir diwygiadau pellach i'r OS hwnnw (gan ei fod yn cael ei ddiwygio gan Reoliadau Bwyd 2022) er mwyn mynd i'r afael â'r pwynt a wnaed gan ddefnyddio pwerau o dan adran 74A(1) (66(1) ac 84) o Ddeddf Amaethyddiaeth 1970.

**C10 . Beth fyddai effaith peidio â gwneud y Rheoliadau hyn cyn 31 Rhagfyr 2022?**
Pe na bai ‘Rheoliadau Bwyd 2022’ yn cael eu gwneud cyn 11pm ar 31 Rhagfyr 2022, ni fyddai’n bosibl eu gwneud yn eu ffurf bresennol yn ddiweddarach gan y byddai’r pwerau yn Neddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 yn dod i ben ar y pwynt hwnnw.

Mae pwerau amgen ar gael ar gyfer y rhan fwyaf o ddarpariaethau ac eithrio’r ffaith nad oes pwerau amgen ar gael i wneud rheoliad 4(8). Mae’r ddarpariaeth hon yn bŵer newydd i wneud rheoliadau er mwyn i Weinidogion Cymru ddiwygio’r rhestrau o sylweddau annymunol mewn perthynas â bwyd anifeiliaid.

Os na fyddem yn bwrw ymlaen â’r newidiadau arfaethedig hyn byddai’n creu cyfnod o ymwahanu o ran hygyrchedd y ddeddfwriaeth berthnasol yng Nghymru o’i gymharu â Lloegr a’r Alban. Bydd hyn yn wir hyd nes y byddai’n bosibl alinio rheoliadau Cymru â rheoliadau eraill Prydain Fawr.

**C11. Pa asesiad effaith y mae Llywodraeth Cymru wedi’i gynnal i benderfynu ei bod yn well diwygio’r ddeddfwriaeth ddiffygiol hon yn y Flwyddyn Newydd yn hytrach na’i thynnu yn ôl a gwneud rheoliadau newydd gan ddefnyddio pwerau eraill?**
Mae adolygiad o ‘Reoliadau Bwyd 2022’ wedi cadarnhau na fyddai’n bosibl eu gwneud yn y Flwyddyn Newydd yn eu ffurf bresennol o dan bwerau amgen. Mae newidiadau yn ‘Rheoliadau Bwyd 2022’ yn dibynnu ar bwerau yn Neddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, a fyddai wedi dod i ben. Ystyriwyd y goblygiadau ychwanegol o ran adnoddau ar gyfer y Senedd (gan gynnwys craffu pellach gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad), ASB a Llywodraeth Cymru ynghylch tynnu deddfwriaeth yn ôl a’i hail-greu o dan bwerau amgen. Ystyriwyd hefyd y goblygiadau i randdeiliaid os bydd cyfnod anhysbys o ymwahanu rhwng cymhwysedd y ddeddfwriaeth berthnasol yng Nghymru o gymharu â Lloegr a’r Alban, o ran ffurf (ond nid o ran gallu ei gweithredu).

Y casgliad a gyrhaeddwyd yw mai mynd i’r afael â’r pwyntiau drwy slipiau cywiro a chyfrwng deddfwriaethol priodol yn y dyfodol yw’r dull gweithredu mwyaf cymesur ac effeithiol o ystyried natur fân iawn y gwallau a nodwyd - yn benodol gan nad yw’r gwallau’n effeithio’n sylweddol ar y gallu i weithredu ‘Rheoliadau Bwyd 2022’ na’r gallu i weithredu’r ddeddfwriaeth fel y’i diwygiwyd gan y Rheoliadau.

**C12. Pryd fydd y Rheoliadau cywiro yn cael eu gosod gerbron y Senedd?**
Mae ASB a Llywodraeth Cymru wedi nodi cyfrwng deddfwriaeth gynlluniedig addas y gellid ei ddefnyddio i wneud y diwygiadau arfaethedig pellach. Nid oes gan yr Offeryn Statudol hwn deitl gweithredol eto, ond bydd yn cynnwys awdurdodiadau mewn perthynas â bwydydd newydd, ychwanegion bwyd a chyflasynnau bwyd. Rydym yn cynnig cynnwys y diwygiadau bach pellach sydd eu hangen er mwyn mynd i’r afael â’r pwyntiau adrodd a nodwyd gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad yn yr OS hwn. Ar hyn o bryd, bwriedir gwneud hyn tuag at ddiwedd y chwarter cyntaf, neu’n gynnar yn ail chwarter 2023.

**C13. Allech chi gadarnhau a yw'r sefyllfa hon yn codi'r mater o Ogledd Iwerddon/Prydain Fawr yn ymwahanu?**

Nid yw'r sefyllfa hon yn codi'r mater o Ogledd Iwerddon/Prydain Fawr yn ymwahanu. Mae 'Rheoliad Bwyd 2022' yn mynd i'r afael â materion hygyrchedd ac eglurder a achosir gan yr ymgorfforiad presennol, drwy groesgyfeirio darpariaethau rhai o Gyfarwyddebau'r UE gan fod y Cyfarwyddebau hynny wedi cael effaith ar ddiwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu. Mae'r Rheoliadau'n trosi'r darpariaethau hynny yn uniongyrchol i ddeddfwriaeth ddomestig Cymru. Nid oes newidiadau sylweddol yn cael eu gwneud i'r broses o weithredu'r ddeddfwriaeth.

# SL(6)291 – Rheoliadau Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2022

## Cefndir a diben

Mae'r Rheoliadau Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2022 yn gwneud diwygiadau i is-ddeddfwriaeth, sy'n gymwys o ran Cymru, ym meysydd diogelwch a hylendid bwyd a bwyd anifeiliaid.

Yn benodol, mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud y canlynol:

- mynd i'r afael â diffygion a nodwyd yn neddfwriaeth ddomestig Cymru sy'n ymwneud â hylendid a diogelwch bwyd a bwyd anifeiliaid. Yn benodol, dileu croesgyfeiriadau at Gyfarwyddebau'r UE, a throsi Atodiadau penodol i'r Cyfarwyddebau hynny yn ddeddfwriaeth ddomestig.
- cywiro cyfeiriadau o fewn deddfwriaeth ddomestig Cymru sy'n diffinio awdurdodau gorfodi mewn perthynas â bwyd anifeiliaid.

## Gweithdrefn

Cadarnhaol.

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod fersiwn ddrafft o'r Rheoliadau gerbron y Senedd. Ni all Gweinidogion Cymru wneud y Rheoliadau oni bai bod y Senedd yn cymeradwyo'r Rheoliadau drafft.

## Materion technegol: craffu

Nodir y pwyntiau a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. **Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod y drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol**

Yn y rhaglith ar dudalen 5, cyfeirir yn anghywir at Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 fel Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) *2020 [pwyslais wedi'i ychwanegu]*.

2. **Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod y drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol**

Mae Rheoliad 2(4)(b) yn diwygio rheoliad 12(2) o Reoliadau Deunyddiau ac Eitemau mewn Cysylltiad â Bwyd (Cymru) 2012.

Cyn ei ddiwygio, roedd y geiriad perthnasol yn y ddarpariaeth fel a ganlyn:

> *"…sylweddau a restrir yn y **rhan gyntaf** o Atodiad II ac yn ddarostyngedig i'r cyfyngiadau a nodir yn y **rhan*** honno." ***[ychwanegwyd y pwyslais]***

Yn dilyn y diwygiad mae'r ddarpariaeth yn darllen:

> *"…sylweddau a restrir yn **nhabl 1** o Atodlen 6 ac yn ddarostyngedig i'r cyfyngiadau a nodir yn y **rhan*** honno." *[**ychwanegwyd y pwyslais**]*

O ystyried bod y tabl yn Atodlen 6 heb ei rannu'n rhannau (yn hytrach nag Atodiad II, sydd wedi'i rannu), dylid rhoi'r gair "tabl" yn lle'r cyfeiriad at "rhan" a adawyd yn rheoliad 2(4)(b).

**3. Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn neu'r drafft**.

Yn rheoliad 3(2)(a)(ii), yn y testun Cymraeg, cynhwyswyd y diffiniad Saesneg cyfatebol mewn cromfachau ac italig o'r diffiniad presennol o "*Rheoliadau'r UE*".

Nid yw'r diwygiad a wneir gan reoliad 3(2)(a)(ii), fodd bynnag, yn diwygio'r diffiniad Saesneg sy'n ymddangos mewn cromfachau ac italig ar ôl y diffiniad diwygiedig yn y testun Cymraeg. O ganlyniad, bydd y diffiniad Cymraeg diwygiedig newydd yn dal i gynnwys y diffiniad Saesneg gwreiddiol mewn cromfachau ar ei ôl ("*Rheoliadau'r UE*") yn hytrach na'r diffiniad Saesneg newydd ("*Rheoliadau'r UE a ddargedwir*"). Bydd hyn yn drysu yn hytrach na chynorthwyo'r darllenydd, drwy gysylltu'r diffiniad Cymraeg newydd â'r hen ddiffiniad Saesneg.

**4. Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn neu'r drafft**.

Yn rheoliad 3(8), yn y testun Cymraeg, mae'r disgrifiad o'r diwygiad yn methu â nodi'n union ble i fewnosod y testun newydd - mae'n nodi y dylid mewnosod y testun newydd ar ôl "***Rh**eoliadau'r UE*" [***ychwanegwyd pwyslais***] yn rheoliad 19(2) o Reoliadau 2013.

Fodd bynnag, dylai'r testun ddweud "***R**eoliadau'r UE*" [***ychwanegwyd pwyslais***] gan bod y geiriau yn ymddangos mewn ffurf dreigledig ym mharagraff (2) o reoliad 19. Nid yw'r geiriau "*Rheoliadau'r UE*" (heb eu treiglo) yn ymddangos yn unrhyw le yn rheoliad 19(2) o Reoliadau 2013.

**5. Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn neu'r drafft**.

Yn Atodlen 3, yn Nhabl 1 yn yr Atodlen 1B newydd, yn y testun Cymraeg, mae "*feed materials*" wedi ei gamgyfieithu fel "*deunyddiau **blawd***" [***ychwanegwyd pwyslais***] sy'n golygu bod "*deunyddiau blawd"* yn ymddangos ym mhob man o ran y geiriau sy'n cyfateb i "*flawd gwymon a deunyddiau **blawd** sy'n deillio o wymon*" yn yr ail golofn ar gyfer cofnod rhif. 1, Arsenig.

Y cyfieithiad cywir ar gyfer "feed materials" yw "*deunyddiau **bwyd anifeiliaid***" [***ychwanegwyd pwyslais***] fel y ceir mewn man arall yn y Tabl hwnnw, ac yn y rheoliad 15(7)(c) presennol o Reoliadau Bwyd Anifeiliaid (Cyfansoddiad, Marchnata a Defnydd) (Cymru) 2016.

## Rhinweddau: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 5 Rhagfyr 2022 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.

**Ymateb y Llywodraeth: *Rheoliadau Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2022***

**Pwynt Craffu Technegol 1**

Mae'r Llywodraeth yn derbyn y pwynt.

Nid yw'r Llywodraeth o'r farn bod y gwall teipograffyddol mân yn effeithio ar ddilysrwydd yr offeryn. Mae'r gwall a'r cyfeiriad cywir yn glir o'r cyd-destun a'r troednodyn.

Er eglurder, mae'r Llywodraeth o'r farn bod cywiriad yn briodol, a bydd yn ceisio ei wneud cyn gynted â phosibl drwy slip cywiro.

**Pwynt Craffu Technegol 2**

Mae'r Llywodraeth yn derbyn y pwynt.

Er gwaethaf y gwall, mae'r Llywodraeth o'r farn bod y bwriad deddfwriaethol yn glir, y gellir dod o hyd i'r cyfyngiadau sy'n gymwys i'r sylweddau a restrir yn yr Atodlen 6 newydd i O.S 2012/2705 (Cy. 291) yn yr Atodlen honno.

Mae'r Llywodraeth yn bwriadu cywiro'r gwall pan fydd y cyfle nesaf yn codi. Rhagwelir ei bod yn debygol y bydd offeryn statudol addas ar gyfer y cywiriad yn mynd rhagddo yn ystod hanner cyntaf 2023.

**Pwynt Craffu Technegol 3**

Mae'r Llywodraeth yn derbyn y pwynt.

Er gwaethaf y gwall, mae'r Llywodraeth o'r farn nad oes risg gwirioneddol o ddryswch. Mae'r diwygiad i'r term Cymraeg ei hun a ddiffinnir yn gywir. Yn nhestun Saesneg rheoliad 2(1) o O.S. 2013/2591 (Cy. 255), nid oes unrhyw ddiffiniad arall y gellid drysu'r diffiniad Cymraeg ag ef.

Mae'r Llywodraeth yn bwriadu cywiro'r gwall yn y testun Cymraeg pan fydd y cyfle nesaf yn codi. Rhagwelir ei bod yn debygol y bydd offeryn statudol addas ar gyfer y cywiriad yn mynd rhagddo yn ystod hanner cyntaf 2023.

**Pwynt Craffu Technegol 4**

Mae'r Llywodraeth yn derbyn y pwynt.

Mae'r gwall teipograffyddol mân yn ymddangos yn y testun sy'n nodi lleoliad y diwygiad arfaethedig i reoliad 19(2) o O.S. 2013/2591 (Cy. 255). Nid yw'r Llywodraeth o'r farn bod y gwall teipograffyddol amlwg hwn yn arwain at risg o ddryswch ynghylch lle y bwriedir mewnosod y diwygiad.

Bydd y Llywodraeth yn ceisio cywiro'r gwall hwn drwy slip cywiro.

**Pwynt Craffu Technegol 5**

Mae'r Llywodraeth yn derbyn y pwynt.

Mae'r Nodiadau Esboniadol yn cadarnhau bod yr Atodlen 1B newydd i O.S 2016/386 (Cy. 120) yn gopi wedi'i drosi o Atodiad 1 i Gyfarwyddeb 2002/32/EC fel yr oedd y Gyfarwyddeb honno yn cael effaith yn union cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu. Mae'n glir nad oes newid o sylwedd yn cael ei wneud. Mae'r testun o dan sylw "*blawd gwymon a deunyddiau blawd sy'n deillio o wymon*" wedi bod yn agwedd sefydledig o'r Atodiad hwnnw ers 2003, felly bydd rhanddeiliaid yn gyfarwydd â'r cynnwys cywir. Wrth ddehongli'r ddeddfwriaeth, mae'r Llywodraeth o'r farn ei bod yn amlwg bod gwall yn y testun Cymraeg, a bod y testun Saesneg yn cynnwys y geiriad cywir y bwriedir ei gymhwyso.

Mae'r Llywodraeth yn bwriadu cywiro'r gwall yn y testun Cymraeg pan fydd y cyfle nesaf yn codi. Rhagwelir ei bod yn debygol y bydd offeryn statudol addas ar gyfer y cywiriad yn mynd rhagddo yn ystod hanner cyntaf 2023.

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

**Lynne Neagle AS/MS**
**Y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant**
**Deputy Minister for Mental Health and Wellbeing**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

13 Rhagfyr 2022

Annwyl Huw

**Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Diwygio a Swyddogaethau Deddfwriaethol) ac Iechyd Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2022**

**Rheoliadau Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2022**

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 12 Rhagfyr 2022 ynglŷn â'r Offerynnau Statudol a nodir uchod. Gall Llywodraeth Cymru ond ymddiheuro am yr amser a gymerwyd i ymateb i'r adroddiad ynghylch Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Diwygio a Swyddogaethau Deddfwriaethol). Rhoddwyd yr adroddiad i ni ddydd Mercher 7 Rhagfyr ac roedd y pwyntiau adrodd yn gofyn am ystyriaeth fanwl a thrylwyr sydd wedi cymryd cryn amser.

Yn benodol, mae Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Diwygio a Swyddogaethau Deddfwriaethol) wedi bod yn offeryn hir iawn, yn 100 tudalen o hyd ac yn dechnegol gymhleth i swyddogion ei ddrafftio. Mae hyn o ganlyniad i'r cyd-destun deddfwriaethol y bydd y Rheoliadau yn gweithredu ynddo sydd eisoes yn gymhleth, sef 11 o gyfarwyddebau gan yr UE, 9 o reoliadau yr UE a ddargedwir a 2 set o reoliadau domestig, sy'n gyfanswm o gannoedd o dudalennau o ddeddfwriaeth.

Mae'r Llywodraeth yn ddiolchgar i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad am ei waith craffu ac yn derbyn nifer bach o bwyntiau adrodd sydd angen eu diwygio. Fodd bynnag, mae'r Llywodraeth yn hyderus bod y Rheoliadau, gyda'r cywiriadau arfaethedig, yn parhau yn effeithiol, yn ymarferol ac yn hygyrch. Ar y cyfan, mae'r Llywodraeth o'r farn ei bod yn briodol bwrw ati i gyflwyno'r Rheoliadau i bleidlais yn y Senedd.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried y pwyntiau a godwyd gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad yn ofalus ac mae'n hyderus bod modd eu datrys gan nad ydynt yn achosi effaith sylweddol ar weithrediad y Rheoliadau ac ni ddylent rwystro'r Rheoliadau rhag cael eu gwneud.

Mae'r Llywodraeth wedi cynnig esboniad llawn o'i safbwynt i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad mewn llythyr ymateb i'w hadroddiad manwl. Mae'r Llywodraeth o'r farn bod y gwallau yn glir, yn fân o ran eu heffaith a bod bwriad y drafftio yn glir ac nad oes lle ar gyfer camddealltwriaeth gwirioneddol neu ar gyfer dryswch difrifol.

Mewn perthynas â'r cwestiynau yn eich llythyr, gallwch ddod o hyd i ymatebion y Llywodraeth yn yr Atodiad isod.

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**



**Lynne Neagle AS/MS**
**Y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant**
**Deputy Minister for Mental Health and Wellbeing**



## ATODIAD

**Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Diwygio a Swyddogaethau Deddfwriaethol) ac Iechyd Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2022**

**C1. Mae'r pwerau a ddefnyddir i wneud y Rheoliadau hyn yn dod i ben ar 31 Rhagfyr 2022. A wnewch chi felly roi manylion ynghylch y pwerau a fyddai'n cael eu defnyddio ar gyfer cywiro unrhyw elfennau diffygiol o'r ddeddfwriaeth?**
Cynigiwn ein bod yn dibynnu ar bwerau o dan Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981.

**C2. Pa gyfyngiadau (os yn berthnasol) fyddai o ran gosod deddfwriaeth nad yw'n ddiffygiol ar ôl 31 Rhagfyr 2022 (yn hytrach na pharhau â gosod y Rheoliadau presennol gerbron y Senedd)?**
Os na wneir yr Offeryn Statudol cyn 31 Rhagfyr 2022, bydd pwerau galluogi Gweinidogion Cymru yn cael eu colli, sef y rheini o dan Ddeddf Ymadael â'r UE.

Mae swyddogion wedi dechrau canfod pwerau cyfreithiol eraill er mwyn llunio pecyn tebyg o adnoddau ar gyfer Gweinidogion Cymru. Fodd bynnag, nid yw'r Llywodraeth yn obeithiol y bydd hyn yn sicrhau cynnwys da. Y rheswm am hyn yw ar ddechrau'r prosiect hwn, gwnaeth holl weinyddiaethau y DU asesu pa bwerau a oedd yn y Cyfarwyddebau hyn a fyddai'n cael eu "colli" os na fyddent yn cael eu dargadw o dan Ddeddf Ymadael â'r UE. Pe byddai dewis domestig arall ar gael, ni fyddai angen trosglwyddo pwerau'r Comisiwn drosodd gan y byddai hynny wedi arwain at ddyblygu.

**C3. Beth fyddai'r effaith o beidio â gwneud y Rheoliadau hyn cyn 31 Rhagfyr 2022?**
Mae amryw o effeithiau. Yn gyntaf, bydd y pwerau galluogi ar gyfer yr Offeryn Statudol hwn yn dod i ben ar 31 Rhagfyr 2022, felly o safbwynt polisi ac adnoddau cyfreithiol, byddai hyn yn golygu ailddechrau'r gwaith o'r dechrau a cheisio canfod pwerau newydd i wneud y cywiriadau.

Yr hyn sy'n anodd o ran y dull hwn yw bod y Rheoliadau hyn yn creu pwerau gwneud rheoliadau ac yn eu breinio yng Ngweinidogion Cymru. Yn gyffredinol, mae deddfwriaeth sylfaenol ddomestig yn gosod pwerau gwneud rheoliadau ac nid yw'n caniatáu i bwerau gwneud rheoliadau pellach gael eu gwneud yn y rheoliadau hynny. Amcangyfrifwn y byddai dadansoddiad llawn o bwerau gwneud rheoliadau a phwerau gweinyddol sydd ar gael, a cheisio eu paru i'r darpariaethau a wneir yn yr Offeryn Statudol hwn, yn cymryd 4 i 6 mis. Yn ystod y cyfnod hwn, byddai'r anghysondebau yn ein llyfr rheolau domestig y mae'r Rheoliadau hyn yn ceisio eu cywiro yn parhau.

Yn ail, o safbwynt cydlyniaeth ledled Prydain, pe na fyddai'r Rheoliadau yn cael eu gwneud, byddai cyfraith Cymru yn anghyson â'r hyn sy'n cyfateb yn Lloegr ac yn yr Alban. Byddai Cymru yn llwyr ddibynnol dros dro ar Lywodraeth y DU yn defnyddio'i phŵer cydredol plws pe bai unrhyw frigiad o achosion o glefydau mewn gwlad arall yn arwain at yr angen i ddiweddaru'n gyflym unrhyw un o'r amodau iechyd a gedwir yn y Cyfarwyddebau.

**C4. Pam eich bod wedi penderfynu peidio ag arfer pwerau sydd wedi eu cynnwys yn Neddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 i ganiatáu'r defnydd o weithdrefn (gadarnhaol gwnaed) frys fel modd o gywiro'r drafftio diffygiol sydd wedi ei amlygu gan y Pwyllgor?**
Ystyriodd y Llywodraeth yr opsiwn hwn ond daethpwyd i'r casgliad nad oedd yn ddatrysiad ymarferol gan ystyried maint y gwaith a hynny o fewn amserlen dynn iawn. Nid yw'r Llywodraeth yn derbyn 18 pwynt craffu yn adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, felly byddai drafft wedi ei ailosod yn parhau i gynnwys y darpariaethau y maent yn ymwneud â hwy.

Ymhellach i hynny, mewn perthynas â'r sylwadau cyffredinol ynghylch y gwaith drafftio, ni fyddai modd i ni ailddrafftio yn sylweddol cyn 31 Rhagfyr. O ganlyniad, dim ond oddeutu 50% o'r pwyntiau adrodd y byddai'r rheoliadau "newydd" yn eu datrys, yr union rai y gallwn eu cywiro wrth gyhoeddi a thrwy offeryn diwygio bach os awn ymlaen â'r drafft hwn a osodir.

Er y gobeithiwn y bydd ein hymateb yn datrys y 18 pwynt craffu nad yw'r Llywodraeth yn eu derbyn, ni fyddem yn dymuno rhagfarnu'r ymarfer hwn. Gwnaethom ystyried y sefyllfa felly, ac roedd gofyn y Senedd yr un fath, neu'n debyg iawn ym mhob sefyllfa. Fodd bynnag, o dan y weithdrefn gadarnhaol gwnaed, roedd mater ychwanegol sef y byddai pwerau'r Ddeddf Ymadael eisoes wedi dod i ben cyn y byddai'r Senedd yn pleidleisio ar y Rheoliadau "newydd".

**C5. A wnewch chi nodi pa bwyntiau rydych chi'n cytuno / anghytuno â hwy yn ein hadroddiad o ran y Rheoliadau hyn er mwyn i'r Aelodau ddeall eich safbwynt?**
Mae'r Llywodraeth yn cytuno ag oddeutu hanner y pwyntiau adrodd, gyda dau ohonynt yn golygu bod angen diwygio'r Rheoliadau. Mae manylion llawn wedi eu rhoi yn yr ymateb ffurfiol i adroddiad Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad dyddiedig 7 Rhagfyr.

O'r 34 o bwyntiau adrodd, cynigir y byddai offeryn diwygio bach yn datrys 2 ohonynt.

Mae 12 pwynt adrodd yn wallau mân y gellir eu cywiro wrth gyhoeddi.

Mewn perthynas â 18 pwynt, mae swyddogion yn fodlon y gallant ddarparu rhesymeg ynghylch y drafftio a ddylai ddatrys pryderon y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad.

Nid yw'r 3 pwynt adrodd olaf angen ymateb neu weithredu gan y Llywodraeth.

**C6. Allech chi amlinellu beth yw effaith ymarferol gwneud y ddeddfwriaeth hon â diffygion yn erbyn yr effaith ymarferol o beidio â gwneud y ddeddfwriaeth hon, gan gynnwys unrhyw risgiau iechyd, diogelwch a / neu fioddiogelwch?**
Mae'r Rheoliadau'n ymgorffori yng nghyfraith Cymru ddarpariaethau ar gyfer mewnforio cynhyrchion iechyd anifeiliaid a chynhyrchion anifeiliaid a nodir yng Nghyfarwyddebau'r UE. Bydd Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) 2011 yn gorfodi'r darpariaethau hyn ar bwynt mynediad, lle caiff llwythi eu gwirio a'u dilysu i sicrhau eu bod yn cydymffurfio cyn i lwythi ddod i mewn i Gymru.

Bydd peidio â gwneud y Rheoliadau yn ymestyn risg bresennol o gael fframwaith anghyson ar gyfer rheolaethau mewnforio. Drwy wneud y Rheoliadau nawr rydym yn mynd i'r afael â'r risg honno, ynghyd ag ymrwymiad y Llywodraeth i ddatrys y pwyntiau adrodd a dderbyniwyd. O ran y ddau bwynt y mae angen eu diwygio, rydym o'r farn bod y risg sy'n gysylltiedig â'r ddau bwynt hynny'n ddibwys o safbwynt bioddiogelwch yn y tymor byr.
Yn y cyfamser, gellir rheoli'r anghysondebau hyn yn weithredol cyn i'r diwygiad gael ei wneud ac ni fydd yn effeithio'n andwyol ar fasnachwyr nac yn peri unrhyw risg o beryglu iechyd na lles anifeiliaid.

**C7. Allech chi gadarnhau a yw'r sefyllfa hon yn codi'r mater o Ogledd Iwerddon/Prydain Fawr yn ymwahanu?**
Os na chaiff y Rheoliadau eu gwneud nawr, yna byddai Cymru'n parhau i gael anghysondebau yn ei fframwaith cyfreithiol ar gyfer rheoli mewnforion, tra na fyddai hyn yn wir ar gyfer Lloegr na'r Alban.
Nid oes unrhyw oblygiadau arbennig o ran Gogledd Iwerddon gan ei bod wedi'i halinio'n gyfreithiol â Rheoliad Iechyd Anifeiliaid yr UE. Felly, mae eisoes wedi ymwahanu o'i chymheiriaid ym Mhrydain Fawr.

**C8. Sut ydych chi'n bwriadu delio â'r gwaith o gywiro'r Rheoliadau diffygiol pe baen nhw'n cael eu cymeradwyo gan y Senedd a beth fydd yr amserlen?**
Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i gyflwyno offeryn statudol diwygio mewn perthynas â'r ddau bwynt rydym yn cytuno y bod angen eu cywiro ddechrau 2023 (Ionawr). Ar y cyd, byddwn yn mynd i'r afael â'r pwyntiau craffu bach wrth wneud y Rheoliadau a'u cyhoeddi.

**<u>Rheoliadau Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2022</u>**

**C9. Eto, rydym yn gofyn am gadarnhad ynghylch pa bwerau fydd yn cael eu harfer i wneud yr offeryn statudol cywiro priodol?**

Byddwn yn cywiro'r pwyntiau craffu technegol 'Rheoliadau Bwyd 2022' a godwyd gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad gan ddefnyddio pwerau gwahanol. Mae pwyntiau 1 a 4 yn ymwneud â gwallau teipograffyddol bach a chynigir mynd i'r afael â nhw drwy slipiau cywiro. Mae pwyntiau 2 a 3 yn tynnu sylw at ddiwygiadau anghyflawn bach i ddau offeryn sy'n gysylltiedig â bwyd. Cynigir gwneud diwygiadau pellach i'r OSau hynny (gan eu bod yn cael eu diwygio gan Reoliadau Bwyd 2022) er mwyn mynd i'r afael â phwyntiau 2 a 3 a wnaed gan ddefnyddio pwerau o dan adran 16 o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990. Mae pwynt 5 yn tynnu sylw at wall mewn testun Cymraeg a fewnosodir yn offeryn sy'n gysylltiedig â bwyd anifeiliaid. Cynigir diwygiadau pellach i'r OS hwnnw (gan ei fod yn cael ei ddiwygio gan Reoliadau Bwyd 2022) er mwyn mynd i'r afael â'r pwynt a wnaed gan ddefnyddio pwerau o dan adran 74A(1) (66(1) ac 84) o Ddeddf Amaethyddiaeth 1970.

**C10 . Beth fyddai effaith peidio â gwneud y Rheoliadau hyn cyn 31 Rhagfyr 2022?**
Pe na bai 'Rheoliadau Bwyd 2022' yn cael eu gwneud cyn 11pm ar 31 Rhagfyr 2022, ni fyddai'n bosibl eu gwneud yn eu ffurf bresennol yn ddiweddarach gan y byddai'r pwerau yn Neddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 yn dod i ben ar y pwynt hwnnw.

Mae pwerau amgen ar gael ar gyfer y rhan fwyaf o ddarpariaethau ac eithrio'r ffaith nad oes pwerau amgen ar gael i wneud rheoliad 4(8). Mae'r ddarpariaeth hon yn bŵer newydd i wneud rheoliadau er mwyn i Weinidogion Cymru ddiwygio'r rhestrau o sylweddau annymunol mewn perthynas â bwyd anifeiliaid.

Os na fyddem yn bwrw ymlaen â'r newidiadau arfaethedig hyn byddai'n creu cyfnod o ymwahanu o ran hygyrchedd y ddeddfwriaeth berthnasol yng Nghymru o'i gymharu â Lloegr a'r Alban. Bydd hyn yn wir hyd nes y byddai'n bosibl alinio rheoliadau Cymru â rheoliadau eraill Prydain Fawr.

**C11. Pa asesiad effaith y mae Llywodraeth Cymru wedi'i gynnal i benderfynu ei bod yn well diwygio'r ddeddfwriaeth ddiffygiol hon yn y Flwyddyn Newydd yn hytrach na'i thynnu yn ôl a gwneud rheoliadau newydd gan ddefnyddio pwerau eraill?**
Mae adolygiad o 'Reoliadau Bwyd 2022' wedi cadarnhau na fyddai'n bosibl eu gwneud yn y Flwyddyn Newydd yn eu ffurf bresennol o dan bwerau amgen. Mae newidiadau yn 'Rheoliadau Bwyd 2022' yn dibynnu ar bwerau yn Neddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, a fyddai wedi dod i ben. Ystyriwyd y goblygiadau ychwanegol o ran adnoddau ar gyfer y Senedd (gan gynnwys craffu pellach gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad), ASB a Llywodraeth Cymru ynghylch tynnu deddfwriaeth yn ôl a'i hail-greu o dan bwerau amgen. Ystyriwyd hefyd y goblygiadau i randdeiliaid os bydd cyfnod anhysbys o ymwahanu rhwng cymhwysedd y ddeddfwriaeth berthnasol yng Nghymru o gymharu â Lloegr a'r Alban, o ran ffurf (ond nid o ran gallu ei gweithredu).

Y casgliad a gyrhaeddwyd yw mai mynd i'r afael â'r pwyntiau drwy slipiau cywiro a chyfrwng deddfwriaethol priodol yn y dyfodol yw'r dull gweithredu mwyaf cymesur ac effeithiol o ystyried natur fân iawn y gwallau a nodwyd - yn benodol gan nad yw'r gwallau'n effeithio'n sylweddol ar y gallu i weithredu 'Rheoliadau Bwyd 2022' na'r gallu i weithredu'r ddeddfwriaeth fel y'i diwygiwyd gan y Rheoliadau.

**C12. Pryd fydd y Rheoliadau cywiro yn cael eu gosod gerbron y Senedd?**
Mae ASB a Llywodraeth Cymru wedi nodi cyfrwng deddfwriaeth gynlluniedig addas y gellid ei ddefnyddio i wneud y diwygiadau arfaethedig pellach. Nid oes gan yr Offeryn Statudol hwn deitl gweithredol eto, ond bydd yn cynnwys awdurdodiadau mewn perthynas â bwydydd newydd, ychwanegion bwyd a chyflasynnau bwyd. Rydym yn cynnig cynnwys y diwygiadau bach pellach sydd eu hangen er mwyn mynd i'r afael â'r pwyntiau adrodd a nodwyd gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad yn yr OS hwn. Ar hyn o bryd, bwriedir gwneud hyn tuag at ddiwedd y chwarter cyntaf, neu'n gynnar yn ail chwarter 2023.

**C13. Allech chi gadarnhau a yw'r sefyllfa hon yn codi'r mater o Ogledd Iwerddon/Prydain Fawr yn ymwahanu?**

Nid yw'r sefyllfa hon yn codi'r mater o Ogledd Iwerddon/Prydain Fawr yn ymwahanu. Mae 'Rheoliad Bwyd 2022' yn mynd i'r afael â materion hygyrchedd ac eglurder a achosir gan yr ymgorfforiad presennol, drwy groesgyfeirio darpariaethau rhai o Gyfarwyddebau'r UE gan fod y Cyfarwyddebau hynny wedi cael effaith ar ddiwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu. Mae'r Rheoliadau'n trosi'r darpariaethau hynny yn uniongyrchol i ddeddfwriaeth ddomestig Cymru. Nid oes newidiadau sylweddol yn cael eu gwneud i'r broses o weithredu'r ddeddfwriaeth.

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

—

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565

—

**Senedd Cymru**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Lesley Griffiths AS
Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd
Lynne Neagle AS
Y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant

12 Rhagfyr 2022

Annwyl gyfeillion

Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Diwygio a Swyddogaethau Deddfwriaethol) ac Iechyd Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2022 a Rheoliadau Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2022

Yn ein cyfarfod heddiw, ar 12 Rhagfyr 2022, ystyriwyd Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Diwygio a Swyddogaethau Deddfwriaethol) ac Iechyd Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2022 (Rheoliadau TARP 2022) a'r Rheoliadau Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2022 (Rheoliadau Bwyd 2022). Mae'n siomedig nad ydym wedi cael ymateb i'r 34 pwynt adrodd yr ydym wedi'u codi mewn perthynas â Rheoliadau TARP 2022, yn enwedig o ystyried goblygiadau posibl y drafftio diffygiol yr ydym wedi'u nodi. O ran Rheoliadau Bwyd 2022, roeddem yn gallu ystyried ymateb Llywodraeth Cymru i'n pwyntiau adrodd.

Rydym yn pryderu ei bod yn ymddangos bod Llywodraeth Cymru yn parhau gyda'i chynlluniau i ofyn am gymeradwyaeth y Senedd ar gyfer y rheoliadau hyn, er bod y ddau offeryn yn ddiffygiol. Rydym felly wedi gwneud y penderfyniad i ysgrifennu atoch ar frys, yn dilyn ein hystyriaeth o'r rheoliadau hyn yn ein cyfarfod y prynhawn yma.

Rydym yn credu ei bod yn hanfodol bod rhagor o wybodaeth yn cael ei darparu i'r Senedd cyn i chi ofyn i'w Haelodau gymeradwyo rheoliadau y gwyddom sy'n wallus, ac a allai leihau effeithiolrwydd a hygyrchedd y gyfraith a'r gallu i'w gweithredu, yn enwedig i randdeiliaid a dinasyddion y mae'n effeithio arnynt yn uniongyrchol.

Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Diwygio a Swyddogaethau Deddfwriaethol) ac Iechyd Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2022

C1. Mae'r pwerau a ddefnyddir i wneud y Rheoliadau hyn yn dod i ben ar 31 Rhagfyr 2022. A allech chi, felly, roi manylion y pwerau a fyddai'n cael eu defnyddio i wneud cywiriadau i unrhyw elfennau diffygiol o'r ddeddfwriaeth?

C2. Pa gyfyngiadau fyddai (os o gwbl) ar osod deddfwriaeth nad yw'n ddiffygiol ar ôl 31 Rhagfyr 2022 (yn hytrach na pharhau â'r Rheoliadau presennol gerbron y Senedd)?

C3. Beth fyddai effaith peidio â gwneud y Rheoliadau hyn cyn 31 Rhagfyr 2022?

C4. Pam rydych chi wedi penderfynu peidio ag arfer pwerau sydd yn *Neddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018* i ganiatáu defnyddio'r weithdrefn frys (gadarnhaol 'gwnaed') fel modd o gywiro'r drafftio diffygiol y tynnodd y Pwyllgor sylw atynt?

C5. A wnewch chi nodi pa bwyntiau rydych chi'n cytuno / anghytuno â hwy yn ein hadroddiad mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn, fel y gall yr Aelodau ddeall eich safbwynt?

C6. A wnewch chi amlinellu beth yw effaith ymarferol gwneud y ddeddfwriaeth hon gyda diffygion yn erbyn yr effaith ymarferol o beidio â gwneud y ddeddfwriaeth hon, gan gynnwys unrhyw risgiau iechyd, diogelwch a / neu fioddiogelwch?

C7. A wnewch chi gadarnhau a yw'r sefyllfa hon yn arwain at ymwahaniad rhwng Gogledd Iwerddon a Phrydain Fawr?

C8. Sut rydych chi'n bwriadu mynd i'r afael â chywiro'r Rheoliadau diffygiol pe caent eu cymeradwyo gan y Senedd ac i ba amserlen?

Rheoliadau Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2022

Yn ymateb Llywodraeth Cymru, rydych yn datgan y byddwch yn cywiro'r gwallau a nodir ym mhwyntiau adrodd 2, 3 a 5 " pan fydd y cyfle nesaf yn codi" a'ch bod yn rhagweld "y bydd offeryn statudol addas ... yn mynd rhagddo yn ystod hanner cyntaf 2023".

Mae Rheoliadau Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) yn cael eu gwneud gan ddefnyddio pwerau ym mharagraff 1(1) o Atodlen 2 a pharagraff 21(b) o Atodlen 7 i *Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018* ac yn adrannau 66(1), 74A(1) ac 84 o *Deddf Amaeth 1970*.

C9. Eto, gofynnwn am gadarnhad ynglŷn â pha bwerau fydd yn cael eu harfer i wneud yr offeryn statudol cywiro priodol?

C10. Beth fyddai effaith peidio â gwneud y Rheoliadau hyn cyn 31 Rhagfyr 2022?

C11. Pa asesiad o effaith y mae Llywodraeth Cymru wedi'i gynnal i wneud y penderfyniad ei bod yn well diwygio'r ddeddfwriaeth ddiffygiol hon yn y Flwyddyn Newydd yn hytrach na'i thynnu yn ôl a gwneud rheoliadau newydd gan ddefnyddio pwerau eraill?

C12. Pryd y caiff y Rheoliadau cywiro eu gosod gerbron y Senedd?

C13. A wnewch chi gadarnhau a yw'r sefyllfa hon yn arwain at ymwahaniad rhwng Gogledd Iwerddon a Phrydain Fawr?

Byddem yn eich annog i fynd i'r afael â'r cwestiynau hyn yn ystod dadleuon perthnasol yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mawrth 13 Rhagfyr, ac rydym yn disgwyl ymateb ysgrifenedig llawn i'n cwestiynau cyn gynted â phosibl.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Bwyllgor Busnes y Senedd.

Yn gywir

Huw Irranca-Davies

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd

Senedd Cymru
**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**

# Fframweithiau Cyffredin

Rhagfyr 2022

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.senedd.cymru/SeneddEconomi**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:


**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**
**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddEconomi@senedd.cymru**
Twitter: **@SeneddEconomi**



**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2022**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**

# Fframweithiau Cyffredin

Rhagfyr 2022



www.senedd.cymru

# Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 23 Mehefin 2021. Ceir ei gylch gwaith yn:
**www.senedd.cymru/SeneddEconomi**

---

## Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Cadeirydd y Pwyllgor:**
**Paul Davies AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**Hefin David AS**
Llafur Cymru



**Luke Fletcher AS**
Plaid Cymru



**Samuel Kurtz AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**Vikki Howells AS**
Llafur Cymru



**Sarah Murphy AS**
Llafur Cymru

# Cynnwys

**Rhagair....5**

**Argymhellion....6**

**1. Cyflwyniad....11**

**2. Materion trawsbynciol....12**

Nodau'r rhaglen fframweithiau cyffredin....12

Datblygu'r fframweithiau cyffredin....12

Mewnbwn rhanddeiliaid yn ystod y gwaith datblygu....13

Ansawdd, eglurder a chysondeb dogfennau fframwaith cyffredin....13

Goblygiadau ar gyfer llunio deddfau a pholisïau i Gymru....15

Prosesau gwneud penderfyniadau Senedd a Llywodraeth Cymru....15

Rôl rhanddeiliaid wrth wneud penderfyniadau....16

Effaith ymarferol....17

Cwmpas....17

Penderfynu pryd mae ymwahanu'n dderbyniol....19

Datrys anghydfodau....19

Rheoli effaith Deddf Marchnad Fewnol y DU 2020....21

Rheoli effaith Bil Cyfraith yr Undeb Ewropeaidd a Ddargedwir....22

Rheoli ymwahanu o'r Undeb Ewropeaidd a Gogledd Iwerddon....22

Rheoli rhwymedigaethau rhyngwladol....23

Rheoli ymgysylltu â'r fframwaith sefydliadol rhwng y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd....24

Rheoli ymgysylltiad mewn trafodaethau masnach ryngwladol....25

Adrodd yn y dyfodol....26

Adolygu a diwygio....26

**3. Iechyd planhigion....28**

Materion o bwys....28

Cyfoeth Naturiol Cymru ..... 28

**4. Amrywogaethau a hadau planhigion ..... 29**

Materion o bwys ..... 29

Ansawdd ac eglurder ..... 29

Cylch gorchwyl ar gyfer grwpiau llywodraethu ..... 29

Protocolau ar gyfer gwneud penderfyniadau ..... 29

**5. Cymorth amaethyddol ..... 31**

Materion o bwys ..... 31

Ansawdd ac eglurder ..... 31

Cwmpas ..... 31

Deddf Rheoli Cymorthdaliadau 2022 ..... 32

Concordat ar Gytundeb Sefydliad Masnach y Byd ar Amaethyddiaeth ..... 32

Adolygu a diwygio ..... 32

**6. Gwrteithiau ..... 34**

Materion o bwys ..... 34

Ansawdd ac eglurder ..... 34

Cwmpas ..... 34

**7. Cynhyrchu organig ..... 36**

Materion o bwys ..... 36

Cwmpas ..... 36

Grŵp Arbenigol y Deyrnas Unedig ar Gynhyrchu Organig ..... 36

# Rhagair

Cytunodd pedair llywodraeth y DU i gydweithio i ddatblygu fframweithiau cyffredin yn 2017. Cytundebau rhwng y DU a'r llywodraethau datganoledig yw'r fframweithiau cyffredin ar sut i reoli ymwahanu mewn rhai meysydd polisi a arferai gael eu llywodraethu neu eu cydlynu ar lefel yr UE.

Daeth y rhan fwyaf o fframweithiau cyffredin i rym dros dro ar ddiwedd proses bontio Brexit ar 31 Rhagfyr 2020, ond nid ydynt wedi'u cwblhau eto. Mae deddfwrfeydd y DU wedi cael y dasg o graffu ar y fframweithiau dros dro hyn a gwneud argymhellion ynghylch eu cynnwys i'w llywodraethau priodol cyn cytuno ar fersiynau terfynol.

Yn y Senedd, y pwyllgorau pwnc perthnasol sydd wedi gwneud y gwaith craffu, gyda'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad yn cadw trosolwg ar y rhaglen yn ei chyfanrwydd.

Cafodd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig y dasg o graffu ar chwe fframwaith o fewn ei gylch gwaith. Roedd hyn yn cynnwys y Fframwaith Rheoli a Chefnogi Pysgodfeydd, a ystyriwyd ochr yn ochr â chraffu ar y **Cyd-ddatganiad Drafft ar Gyfer Pysgodfeydd**. Oherwydd y cysylltiadau agos rhwng y meysydd y mae'r fframweithiau hyn yn eu cwmpasu, dewisodd y Pwyllgor ystyried y fframweithiau hyn gyda'i gilydd. Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys themâu ac argymhellion cyffredin y mae'r Pwyllgor wedi'u nodi ar draws y chwe fframwaith, yn ogystal â materion penodol sy'n ymwneud â'r fframweithiau unigol.

Mae'r adroddiad yn gwneud cyfanswm o 44 o argymhellion. Mae rhai yn galw ar Lywodraeth Cymru i gymryd camau penodol i gyflawni'r rhaglen fframweithiau yng Nghymru. Mae eraill yn galw am newidiadau i gynnwys y fframweithiau eu hunain.

Wrth wneud argymhellion, mae'r Pwyllgor wedi mynd ati'n ofalus i ystyried gwaith ei bwyllgorau cyfatebol ledled y DU, ac mae wedi canfod llawer o feysydd sy'n peri pryder a diddordeb cyffredin.

Mae'r fframweithiau'n rhan bwysig o lywodraethiant cyfansoddiadol y DU ar ôl Brexit ac mae'n hanfodol ein bod yn eu cael yn iawn.



**Paul Davies AS,**

Cadeirydd

# Argymhellion

**Argymhelliad 1.** Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod barn rhanddeiliaid Cymru yn cael ei cheisio ar y fframweithiau cyffredin dros dro a'u hystyried cyn iddynt gael eu cwblhau. .......... Tudalen 13

**Argymhelliad 2.** Dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am y cynnydd tuag at gwblhau'r fframweithiau cyffredin dros dro. .......... Tudalen 13

**Argymhelliad 3.** Dylai Llywodraeth Cymru egluro sut bydd yn sicrhau bod sicrwydd ac ymarfer prawf o ansawdd llawn yn cael ei wneud ar y fframweithiau cyffredin dros dro hyn cyn cyhoeddi fersiynau terfynol. .......... Tudalen 15

**Argymhelliad 4.** Cytunwn gyda **Phwyllgor Craffu ar Fframweithiau Cyffredin Tŷ'r Arglwyddi**, er na fydd dull safonol bob amser yn bosibl, lle mae fframweithiau wedi ymwahanu o'r model safonol, dylid esbonio'r rhesymau dros hyn yn glir. .......... Tudalen 15

**Argymhelliad 5.** Cytunwn gyda **Phwyllgor Craffu ar Fframweithiau Cyffredin Tŷ'r Arglwyddi** y dylai'r fframweithiau cyffredin **gynnwys** cylch gorchwyl clir ar gyfer yr holl weithgorau a diagramau sy'n dangos y berthynas rhyngddynt yn glir. .......... Tudalen 15

**Argymhelliad 6.** Dylai Llywodraeth Cymru gadarnhau na fydd y fframwaith FCSL yn arwain at wanhau'r trefniadau o ran ymgynghori â'r cyhoedd a chraffu seneddol wrth lunio polisïau neu'r broses ddeddfwriaethol. .......... Tudalen 17

**Argymhelliad 7.** Dylai Llywodraeth Cymru egluro sut bydd yn nodi, yn rheoli ac yn lliniaru unrhyw risg y gallai'r fframweithiau gyfyngu ar rôl Llywodraeth Cymru, y Senedd, na rhanddeiliaid yng Nghymru wrth lunio deddfau a pholisïau i Gymru. .......... Tudalen 17

**Argymhelliad 8.** Dylai Llywodraeth Cymru ei gwneud yn glir i'r Senedd a rhanddeiliaid pan fydd deddfwriaeth neu bolisi arfaethedig yn mynd drwy unrhyw un o'r fframweithiau cyffredin hyn. .......... Tudalen 17

**Argymhelliad 9.** Dylai Llywodraeth Cymru roi gwybod i'r Senedd os yw cynigion ar gyfer deddfwriaeth neu bolisi yn newid o ganlyniad i brosesau gwneud penderfyniadau yn unrhyw un o'r fframweithiau cyffredin hyn. .......... Tudalen 17

**Argymhelliad 10.** Dylai Llywodraeth Cymru ofyn am gytundeb rhynglywodraethol i ddiwygio'r fframweithiau cyffredin hyn i egluro na ddylai newidiadau i gyfraith a pholisi mewn meysydd lle roedd gan Lywodraeth Cymru hyblygrwydd rheoleiddiol pan oedd y Deyrnas Unedig yn un o Aelod-Wladwriaethau'r Undeb Ewropeaidd fod yn rhwymedig i ofynion gwneud penderfyniadau ar y cyd na bod yn rhwym wrth brosesau datrys anghydfod. ................ Tudalen 18

**Argymhelliad 11.** Dylai Llywodraeth Cymru nodi'n glir y rhesymau dros wneud y fframwaith iechyd a lles anifeiliaid yn eang o ran cwmpas, a dylai gadarnhau bod ganddi o leiaf yr un hyblygrwydd i ddatblygu polisi a deddfwriaeth ag yr oedd ganddi cyn gadael yr Undeb Ewropeaidd........................................................................................................................ Tudalen 18

**Argymhelliad 12.** Dylai Llywodraeth Cymru ofyn am gytundeb rhynglywodraethol i ddiwygio fframweithiau cyffredin i sicrhau eu bod yn nodi'n glir pryd bydd penderfyniadau yn dod o dan y cwmpas a'r rhesymau am hyn. ........................................................................................ Tudalen 18

**Argymhelliad 13.** Dylai Llywodraeth Cymru ymgysylltu â rhanddeiliaid i sicrhau bod cwmpas fframweithiau cyffredin yn cael ei ddeall yn eang. .................................................................... Tudalen 18

**Argymhelliad 14.** Dylai Llywodraeth Cymru geisio cytundeb rhynglywodraethol y dylai pob fframwaith nodi pan fo ymwahanu'n dderbyniol mewn ffordd glir, cyson a hygyrch. .... Tudalen 19

**Argymhelliad 15.** Dylai Llywodraeth Cymru egluro sut bydd yn sicrhau bod prosesau ar gyfer penderfynu a yw ymwahanu'n dderbyniol yn agored ac yn hygyrch i'r Senedd a rhanddeiliaid..19

**Argymhelliad 16.** Dylai Llywodraeth Cymru ofyn am gytundeb rhynglywodraethol i ddiweddaru'r fframweithiau i gyfeirio at y broses newydd o ddatrys anghydfodau rhyngweinidogol, ar ôl i'r Adolygiad Cysylltiadau Rhynglywodraethol gael ei roi ar waith.
........................................................................................................................................ Tudalen 19

**Argymhelliad 17.** Dylai Llywodraeth Cymru egluro sut bydd yn sicrhau nad yw oedi'n ormodol ar gamau dan anghydfod yn arwain at oedi diangen o ran penderfyniadau.
........................................................................................................................................ Tudalen 20

**Argymhelliad 18.** Dylai Llywodraeth Cymru ofyn am gytundeb rhynglywodraethol y dylai pob un o'r fframweithiau cyffredin hyn ddarparu i'r llywodraethau geisio cyngor annibynnol yn ystod y broses o ddatrys anghydfodau......................................................................................... Tudalen 20

**Argymhelliad 19.** Dylai Llywodraeth Cymru ofyn am gytundeb rhynglywodraethol y dylai pob fframwaith ddarparu bod seneddau'n cael gwybod am anghydfodau sy'n cael eu huwchgyfeirio i lefel Weinidogol. ............................................................................................................ Tudalen 21

**Argymhelliad 20.** Er budd tryloywder, dylai Llywodraeth Cymru geisio cytundeb rhynglywodraethol i gynnwys cyfeiriad yn y fframweithiau cyffredin hyn at Ddeddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020 a'r broses eithriadau fel bo'n berthnasol. ........................ Tudalen 22

**Argymhelliad 21.** Dylai Llywodraeth Cymru gadarnhau y bydd unrhyw newid arfaethedig i gyfraith yr Undeb Ewropeaidd a ddargedwir o ran cwmpas y fframweithiau cyffredin hyn yn mynd drwy brosesau fframwaith perthnasol. ........................ Tudalen 22

**Argymhelliad 22.** Dylai Llywodraeth Cymru egluro sut bydd yn sicrhau bod penderfyniadau ar gyd-fynd â chyfraith yr Undeb Ewropeaidd, neu ymwahanu oddi wrthi, yn glir i'r Senedd wrth graffu ar ddeddfwriaeth yn y meysydd fframwaith cyffredin hyn. ........................ Tudalen 22

**Argymhelliad 23.** Dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Senedd ar unrhyw fesur y cytunwyd arno i leihau effeithiau niweidiol ymwahanu rhwng Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon o ganlyniad i'r Protocol yn y meysydd fframwaith cyffredin hyn. .... Tudalen 23

**Argymhelliad 24.** Dylai Llywodraeth Cymru ofyn am gytundeb rhynglywodraethol i gynnwys y testun uchod fel rhan o'r geiriad safonol sydd ar y Protocol yn y fframweithiau cyffredin hyn. ........................ Tudalen 23

**Argymhelliad 25.** Rydym yn cytuno â Phwyllgor Craffu Fframweithiau Cyffredin Tŷ'r Arglwyddi y dylid diweddaru'r holl fframweithiau cyffredin sy'n cydblethu â'r Protocol er mwyn sicrhau rhannu gwybodaeth yn fynych rhwng partïon i'r fframwaith ar ddeddfwriaeth sydd i ddod gan yr Undeb Ewropeaidd. ........................ Tudalen 23

**Argymhelliad 26.** Dylai Llywodraeth Cymru gadarnhau ei dealltwriaeth pam mae'r fframweithiau yn defnyddio dulliau gwahanol o ymdrin â'u rôl yn natblygiad polisi rhyngwladol. ........................ Tudalen 24

**Argymhelliad 27.** Dylai Llywodraeth Cymru egluro'r trefniadau ar gyfer sicrhau cynrychiolaeth effeithiol i Gymru wrth ddatblygu polisi rhyngwladol y Deyrnas Unedig yn y meysydd fframwaith cyffredin hyn. ........................ Tudalen 24

**Argymhelliad 28.** Dylai Llywodraeth Cymru ofyn am gytundeb rhynglywodraethol y dylai pob fframwaith cyffredin gynnwys adran safonol ar Gytundeb Masnach a Chydweithredu'r Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd, nodi darpariaethau perthnasol, eu pwyllgor Cytundeb Masnach a Chydweithredu eu hunain, a sut bydd y llywodraethau'n cydweithio ar weithredu. ... Tudalen 25

**Argymhelliad 29.** Dylai Llywodraeth Cymru egluro sut bydd trafodaethau rhwng y llywodraethau drwy'r fframweithiau cyffredin yn bwydo i mewn i waith y Grŵp Rhyngweinidogol ar Gysylltiadau rhwng y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd. ........................................ Tudalen 25

**Argymhelliad 30.** Dylai Llywodraeth Cymru egluro sut bydd yn ceisio sicrhau bod modd mynd i'r afael ag anghytuno ynghylch trafodaethau masnach ryngwladol yn y meysydd fframwaith cyffredin hyn drwy'r fframweithiau cyffredin, a bod anghydfodau yn cael eu huwchgyfeirio a'u datrys yn effeithiol. ........................................ Tudalen 26

**Argymhelliad 31.** Dylai Llywodraeth Cymru egluro sut bydd trafodaethau ar fasnach ryngwladol drwy'r fframweithiau cyffredin hyn yn bwydo i mewn i waith y Fforwm Rhyngweinidogol ar Fasnach. ........................................ Tudalen 26

**Argymhelliad 32.** Dylai Llywodraeth Cymru ddilyn cytundeb rhynglywodraethol ar adrodd yn rheolaidd ar fframweithiau cyffredin a rhoi diweddariadau i'r Senedd ar gynnydd. ....... Tudalen 26

**Argymhelliad 33.** Dylai Llywodraeth Cymru ofyn am gytundeb rhynglywodraethol y dylai pob fframwaith gael ei ddiweddaru i ddarparu ar gyfer ymgysylltu â seneddau a rhanddeiliaid yn ystod y broses adolygu a diwygio ac i'r seneddau gael gwybod y diweddaraf ar ôl i adolygiad ddod i ben. ........................................ Tudalen 27

**Argymhelliad 34.** Dylai Llywodraeth Cymru ofyn am gytundeb rhynglywodraethol i ddiwygio'r fframwaith i adlewyrchu rôl Cyfoeth Naturiol Cymru wrth ddarparu swyddogaethau iechyd planhigion yng Nghymru. ........................................ Tudalen 28

**Argymhelliad 35.** Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod unrhyw wall yn y fframwaith cyffredin hwn yn cael ei gywiro cyn iddo gael ei gwblhau. ........................................ Tudalen 29

**Argymhelliad 36.** Dylai Llywodraeth Cymru ofyn am gytundeb rhynglywodraethol i ddiwygio'r fframweithiau i gynnwys cylch gorchwyl ar gyfer y grwpiau hyn. .................... Tudalen 29

**Argymhelliad 37.** Dylai Llywodraeth Cymru roi diweddariadau i'r Pwyllgor am gynnydd tuag at ddatblygu a chyhoeddi'r protocolau. ........................................ Tudalen 30

**Argymhelliad 38.** Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod gwybodaeth glir am drefniadau llywodraethu yn cael ei nodi cyn cwblhau'r broses honno. ........................................ Tudalen 31

**Argymhelliad 39.** Dylai Llywodraeth Cymru ofyn am gytundeb rhynglywodraethol i egluro a yw cynlluniau ffermio cynaliadwy (a) o fewn cwmpas y fframwaith a (b) wedi eu cynnwys yn y taliadau cymorth amaethyddol y bydd y Grŵp Cydweithredu ar Bolisi yn cael gwybod amdanynt yn heolaidd. ........................................ Tudalen 31

**Argymhelliad 40.** Cytunwn gyda **Phwyllgor Craffu ar Fframweithiau Cyffredin Tŷ'r Arglwyddi** y dylai adolygiadau o'r fframwaith hwn gynnwys dadansoddiad o sut mae'n rhyngweithio â'r Ddeddf Rheoli Cymorthdaliadau. ........ Tudalen 32

**Argymhelliad 41.** Dylai Llywodraeth Cymru roi gwybod i'r Senedd am y cynnydd tuag at gyhoeddi'r Concordat terfynol ar Gytundeb Sefydliad Masnach y Byd ar Amaethyddiaeth. ........ Tudalen 32

**Argymhelliad 42.** Dylai Llywodraeth Cymru geisio cytundeb rhynglywodraethol i ddiwygio'r fframwaith er mwyn gwneud yn glir y bydd adolygiadau yn symud i gylch tair blynedd dim ond ar ôl ymgynghori â rhanddeiliaid. ........ Tudalen 33

**Argymhelliad 43.** Dylai Llywodraeth Cymru ofyn am gytundeb rhynglywodraethol i ddiwygio'r fframwaith i osod strwythurau llywodraethu yn glir, ac yn benodol rôl, aelodaeth a swyddogaethau'r Grŵp Cyswllt Gwrtaith. ........ Tudalen 34

**Argymhelliad 44.** Dylai Llywodraeth Cymru nodi'n glir y rhesymau dros wneud y fframwaith gwrtaith yn eang o ran cwmpas, a dylai gadarnhau bod ganddo o leiaf yr un hyblygrwydd i ddatblygu polisi a deddfwriaeth ag yr oedd ganddi cyn gadael yr Undeb Ewropeaidd. ........ Tudalen 35

**Argymhelliad 45.** Dylai Llywodraeth Cymru nodi'n glir y rhesymau dros wneud y fframwaith cynhyrchu organig yn eang o ran cwmpas, a dylai gadarnhau bod ganddi o leiaf yr un hyblygrwydd i ddatblygu polisi a deddfwriaeth ag yr oedd ganddi cyn gadael yr Undeb Ewropeaidd. ........ Tudalen 36

**Argymhelliad 46.** Dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am sefydlu Grŵp Arbenigol y DU ar Gynhyrchu Organig. ........ Tudalen 36

# 1. Cyflwyniad

## Cytundebau rhwng llywodraethau yw'r fframweithiau cyffredin ar sut i reoli ymwahanu mewn meysydd penodol a arferai gael eu llywodraethu neu eu cydlynu ar lefel yr UE.

**1.** Mae'r fframweithiau cyffredin wedi bod ar waith dros dro ers diwedd y cyfnod pontio Brexit ar 31 Rhagfyr 2020. **Cyhoeddodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig** fframweithiau cyffredin dros dro ym mis Chwefror 2022 ar:

- iechyd a lles anifeiliaid,
- iechyd planhigion,
- amrywogaethau a hadau planhigion,
- cynnyrch organig,
- gwrteithiau,
- cymorth amaethyddol.

**2.** Trafododd y Pwyllgor y fframweithiau cyffredin dros dro yn ystod gwanwyn 2022, gan glywed yn breifat gan swyddogion Llywodraeth Cymru mewn **sesiwn briffio technegol** a **gohebu â Llywodraeth Cymru**. Cynhaliodd y **Pwyllgor ymgynghoriad hefyd** i gasglu barn rhanddeiliaid.

**3.** Yn gyntaf, mae'r adroddiad hwn yn ystyried materion sy'n torri ar draws yr holl fframweithiau cyffredin hyn, cyn troi i ystyried pob fframwaith yn ei dro.

# 2. Materion trawsbynciol

## Nodau'r rhaglen fframweithiau cyffredin

**4.** **Cytunodd y Cyd-Bwyllgor Gweinidogol (Trafodaethau Ewrop)** ar egwyddorion ar gyfer fframweithiau cyffredin ym mis Hydref 2017 a meini prawf ar gyfer lle dylid eu sefydlu.

**5.** Mewn tystiolaeth i'r Pwyllgor, croesawodd rhanddeiliaid yr uchelgais i gryfhau cydweithredu a chydweithio rhynglywodraethol.

**6.** **Dywedodd NFU Cymru** y dylid cael y lefelau cydweithredu "agosaf posibl" rhwng y Deyrnas Unedig a llywodraethau datganoledig ar amaethyddiaeth, yr amgylchedd a bwyd, gan ddadlau bod fframweithiau cyffredin yn arbennig o bwysig ar gyfer lleihau rhwystrau i fasnachu o fewn y Deyrnas Unedig a sicrhau bod y Deyrnas Unedig yn cynnal rhwymedigaethau rhyngwladol. Yn ogystal, tynnodd **RSPCA Cymru** ac **Undeb Amaethwyr Cymru** sylw at fanteision gweithio'n agos rhwng llywodraethau.

**7.** Amlygwyd risgiau posibl y dull fframwaith cyffredin hefyd. Fe wnaeth **RSPCA Cymru** ddadlau na ddylai'r fframwaith atal llywodraeth yn ormodol os oedd am godi safonau mewn maes polisi fel lles anifeiliaid. Cododd bryderon hefyd nad oedd yn glir a allai fframweithiau cyffredin fentro cyfyngu ar bŵer deddfwrfeydd – er enghraifft, pe bai seneddwyr meinciau cefn yn cyflwyno cynigion ar gyfer deddfwriaeth nad oedd wedi bod yn ddarostyngedig i'r broses fframwaith gyffredin.

**8.** Wrth ystyried y fframweithiau cyffredin hyn, mae'r Pwyllgor wedi ceisio deall sut gellir gwireddu eu buddion yn llawn a sut gellir cydnabod a lliniaru risgiau.

## Datblygu'r fframweithiau cyffredin

**9.** Daeth y fframweithiau cyffredin dros dro a ystyriwyd gan y Pwyllgor i rym o ddiwedd y cyfnod trosglwyddo ym mis Rhagfyr 2020. Fe'u cyhoeddwyd ar gyfer gwaith craffu ym mis Chwefror 2022.

**10.** Roedd cyfnod o fwy na blwyddyn felly lle'r oedd y fframweithiau cyffredin dros dro ar waith dros dro, ond nad oeddent ar gael i'r Senedd na'r cyhoedd.

**11.** Yn dilyn yr etholiadau i Gynulliad Gogledd Iwerddon ym mis Mai 2022, nid yw'n glir pryd bydd y fframweithiau cyffredin dros dro yn cael eu cwblhau, na pha gynnydd sydd wedi ei wneud tuag at hyn.

**12.** Mae'r llywodraethau wedi cytuno mewn egwyddor i adrodd yn rheolaidd i'r seneddau ar fframweithiau cyffredin. Fodd bynnag, nid yw'n glir pryd bydd y fframweithiau'n cael eu cwblhau na pha bryd y bydd y gwaith adrodd yn dechrau. Mae hyn yn golygu nad yw'n glir sut bydd seneddau a rhanddeiliaid yn cael gwybod sut mae fframweithiau cyffredin yn gweithio yn y cyfamser.

### Mewnbwn rhanddeiliaid yn ystod y gwaith datblygu

**13.** Mewn ymateb i ohebiaeth gan y Pwyllgor, rhoddodd Llywodraeth Cymru rywfaint o wybodaeth am ymgysylltu â rhanddeiliaid wrth ddatblygu'r fframweithiau cyffredin.

**14.** Er enghraifft, **rhoddodd Llywodraeth Cymru restr ddangosol i'r Pwyllgor** o randdeiliaid Cymru yr ymgynghorwyd â nhw ar y fframwaith cyffredin dros dro ar iechyd a lles anifeiliaid.

**15.** Nododd Llywodraeth Cymru fod adborth rhanddeiliaid ar y fframwaith cyffredin iechyd a lles anifeiliaid ac ar "nifer o fframweithiau eraill" wedi bod yn gyfyngedig.

**16.** Fodd bynnag, daeth rhai pryderon i sylw'r Pwyllgor am lefel yr ymgysylltu â rhanddeiliaid. Dywedodd **Undeb Amaethwyr Cymru** wrth y Pwyllgor nad oedd Llywodraeth Cymru, hyd y gwyddai, wedi gofyn am farn rhanddeiliaid allweddol o Gymru cyn i'r fframwaith cymorth amaethyddol gael ei ddrafftio a'i gytuno.

**Argymhelliad 1.** Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod barn rhanddeiliaid Cymru yn cael ei cheisio ar y fframweithiau cyffredin dros dro a'u hystyried cyn iddynt gael eu cwblhau.

**Argymhelliad 2.** Dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am y cynnydd tuag at gwblhau'r fframweithiau cyffredin dros dro.

## Ansawdd, eglurder a chysondeb dogfennau fframwaith cyffredin

**17.** Mae fframweithiau cyffredin yn gosod prosesau newydd a fydd yn llywio'r broses ar gyfer sut gall Llywodraeth Cymru wneud penderfyniadau. Mae hyn yn golygu ei bod yn bwysig i'r Senedd a rhanddeiliaid ddeall sut mae fframweithiau cyffredin yn gweithio'n ymarferol.

**18.** Fodd bynnag, gwelodd y Pwyllgor fod deall y dogfennau fframwaith cyffredin hyn yn heriol, yn debyg i **Bwyllgor Craffu ar Fframweithiau Cyffredin Tŷ'r Arglwyddi** a **Phwyllgor Amaeth, Amgylchedd a Materion Gwledig Cynulliad Gogledd Iwerddon** (mandad 2017-2022).

**19.** Ymddengys nad oedd y fframweithiau cyffredin, ar y cyfan, wedi eu drafftio gyda chynulleidfaoedd allanol mewn golwg. Disgrifir strwythurau llywodraethu cymhleth heb fawr o esboniad, a chyfeirir at grwpiau llywodraethu heb gylch gorchwyl. Er enghraifft, mae pwyllgorau ledled y Deyrnas Unedig wedi tynnu sylw at faterion o ran cymhlethdod y strwythurau llywodraethu yn y fframweithiau iechyd planhigion.

**20.** Mae nifer o wallau sylweddol yn y fframweithiau cyffredin – er enghraifft, disgrifio strwythurau llywodraethu yn anghyson, defnyddio'r lliwiau du a gwyn ar gyfer diagramau â chod lliw, ailadrodd adrannau o destun, neu gynnwys croesgyfeiriadau anghywir.

**21.** Mae anghysondebau hefyd rhwng y dulliau gweithredu mewn fframweithiau gwahanol. Er bod testun safonol yn cael ei ddefnyddio'n gyffredinol ar gyfer adrannau a ddefnyddir ar draws gwahanol fframweithiau cyffredin, mae gwyriad yn aml o'r testun safonol hwn heb reswm amlwg.

**22.** Er enghraifft, mae **Pwyllgor Craffu ar Fframweithiau Cyffredin Tŷ'r Arglwyddi** a **Phwyllgor Amaeth, Amgylchedd a Materion Gwledig Cynulliad Gogledd Iwerddon** (mandad 2017-22) wedi nodi pryderon manwl am ansawdd ac eglurder dogfen fframwaith gyffredin iechyd a lles anifeiliaid.

**23.** Mewn ymateb i bryderon y Pwyllgor am wallau ac anghysondebau yn y fframwaith iechyd a lles anifeiliaid, y fframwaith deunydd organig, y fframwaith cymorth amaethyddol a'r fframwaith gwrtaith, **dywedodd Llywodraeth Cymru** y gallai cyfyngiadau amser fod wedi bod yn ffactor. O ystyried bod y gwaith o ddatblygu fframweithiau cyffredin wedi dechrau yn 2017, mae hyn yn syndod.

**24.** Mae'r problemau hyn o ran ansawdd, eglurder a chysondeb yn codi cwestiynau am:

- y prosesau a ddefnyddiwyd i ddatblygu fframweithiau cyffredin ac i'w cymeradwyo gan swyddogion iau, uwch swyddogion a Gweinidogion ym mhob un o'r pedair llywodraeth;
- pa mor ddifrifol mae'r pedair llywodraeth yn ystyried fframweithiau cyffredin;
- i ba raddau y defnyddir fframweithiau cyffredin mewn gwirionedd i lunio penderfyniadau; a
- sut bydd y Senedd a rhanddeiliaid yn gallu deall sut mae fframweithiau cyffredin yn gweithio'n ymarferol.

**Argymhelliad 3.** Dylai Llywodraeth Cymru egluro sut bydd yn sicrhau bod sicrwydd ac ymarfer prawf o ansawdd llawn yn cael ei wneud ar y fframweithiau cyffredin dros dro hyn cyn cyhoeddi fersiynau terfynol.

**Argymhelliad 4.** Cytunwn gyda **Phwyllgor Craffu ar Fframweithiau Cyffredin Tŷ'r Arglwyddi**, er na fydd dull safonol bob amser yn bosibl, lle mae fframweithiau wedi ymwahanu o'r model safonol, dylid esbonio'r rhesymau dros hyn yn glir.

**Argymhelliad 5.** Cytunwn gyda **Phwyllgor Craffu ar Fframweithiau Cyffredin Tŷ'r Arglwyddi** y dylai'r fframweithiau cyffredin **gynnwys** cylch gorchwyl clir ar gyfer yr holl weithgorau a diagramau sy'n dangos y berthynas rhyngddynt yn glir.

## Goblygiadau ar gyfer llunio deddfau a pholisïau i Gymru

### Prosesau gwneud penderfyniadau Senedd a Llywodraeth Cymru

**25.** Mae'r fframweithiau cyffredin hyn, yn gyffredinol, yn gosod prosesau er mwyn i'r llywodraethau gydweithio a phenderfynu pryd i ddilyn yr un rheolau, a phryd i ymwahanu. Os nad yw'r llywodraethau'n cytuno ar ba ddull i'w ddefnyddio, gellir codi anghydfod.

Enghraifft: Iechyd a lles anifeiliaid

Mae'r fframwaith hwn yn darparu:

- bydd y llywodraethau yn rhoi gwybod i'w gilydd am newidiadau polisi posibl yn gynnar, ac mewn pryd i gael trafodaethau ar y cyd am eu goblygiadau;
- cyn i un llywodraeth ymwahanu, rhaid i'r llywodraethau weld a allant gytuno ar ddull cyffredin sy'n lleihau ymwahanu tra'n dal i fodloni dymuniadau'r parti hwnnw;
- os yw llywodraeth yn dal i fod eisiau ymwahanu, dylai nodi pam mai'r ffordd hon yw'r ffordd fwyaf addas o weithredu o hyd. Dylid cynnal asesiad o'r goblygiadau i farchnad fewnol y Deyrnas Unedig, negodi a gweithredu cytundebau rhyngwladol, a bioddiogelwch. Bydd swyddogion polisi a Phrif Swyddogion Milfeddygol yn ystyried effaith y newidiadau; ac
- os na all y llywodraethau gytuno a ddylid mabwysiadu'r un dull neu ymwahanu, gellir defnyddio'r broses datrys anghydfodau.

**26.** Mewn tystiolaeth i'r Pwyllgor, cododd rhai rhanddeiliaid bryderon am effaith y fframweithiau cyffredin ar sut gall Senedd a Llywodraeth Cymru arfer eu cymhwysedd.

**27.** Tynnodd **RSPCA Cymru** sylw at effaith bosibl y broses o wneud penderfyniadau rhynglywodraethol ar rôl Aelodau o'r Senedd nad ydynt yn rhan o'r llywodraeth. Galwodd am ymrwymiad na ddylai fframweithiau atal na lleihau cynigion ar newid safonau a'r gyfraith rhag cael eu cymeradwyo yn y pedair deddfwrfa os nad ydynt yn cael eu cynnig gan y llywodraethau.

**28.** Holodd y Pwyllgor Lywodraeth Cymru am effaith y prosesau ar gyfer gwneud penderfyniadau ar y cyd yn y fframwaith iechyd a lles anifeiliaid ar gymhwysedd y Senedd a Llywodraeth Cymru.

**29.** **Dywedodd Llywodraeth Cymru** nad oedd y fframwaith iechyd a lles anifeiliaid yn atal nac yn rhwystro cymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru i weithredu polisïau newydd na chymhwysedd y Senedd i basio deddfwriaeth.

**30.** Fodd bynnag, nid yw'n glir sut gall y fframweithiau cyffredin osod prosesau i'r llywodraethau wneud penderfyniadau ar y cyd am sut i ddefnyddio eu pwerau, ac ar yr un pryd beidio ag effeithio ar sut bydd y Senedd a Llywodraeth Cymru yn arfer y pwerau hynny. 2.4.2.

## Rôl rhanddeiliaid wrth wneud penderfyniadau

**31.** Yn gyffredinol, nid yw'r fframweithiau cyffredin hyn yn nodi llwybrau diffiniedig i randdeiliaid ddarparu mewnbwn i'r ffordd y gwneir penderfyniadau rhynglywodraethol.

**32.** Yn ei gyflwyniad i'r Pwyllgor, dywedodd **NFU Cymru** ei fod yn deall y byddai'n agored i randdeiliaid wneud sylwadau i Grŵp Monitro'r Farchnad yn y fframwaith cyffredin cymorth amaethyddol.

**33.** Fodd bynnag, dywedodd ei bod yn destun gofid nad oedd llwybr ffurfiol wedi ei nodi i randdeiliaid ddarparu mewnbwn i Grŵp Monitro'r Farchnad na'r Grŵp Cydweithio ar Bolisi.

**34.** Mewn rhai achosion, mae'n ymddangos bod y fframweithiau cyffredin hyn hefyd yn cyfyngu ar y cwmpas i lywodraethau ymgysylltu â rhanddeiliaid ar newidiadau polisi arfaethedig.

**35.** Nododd **RSPCA Cymru** yn ei gyflwyniad i'r Pwyllgor nad oedd yn glir pa bryd y byddai'n rhaid i gynigion fynd drwy fframweithiau cyffredin cyn dechrau'r broses ddeddfwriaethol, os byddai'n rhaid o gwbl.

**36.** Galwodd am broses glir i ddeall pa gynigion fyddai'n destun prosesau fframwaith cyffredin, ac esboniad ar draws y gymdeithas ddinesig o sut bydd y broses hon yn gweithio.

**Argymhelliad 6.** Dylai Llywodraeth Cymru gadarnhau na fydd y fframwaith FCSL yn arwain at wanhau'r trefniadau o ran ymgynghori â'r cyhoedd a chraffu seneddol wrth lunio polisïau neu'r broses ddeddfwriaethol.

**Argymhelliad 7.** Dylai Llywodraeth Cymru egluro sut bydd yn nodi, yn rheoli ac yn lliniaru unrhyw risg y gallai'r fframweithiau gyfyngu ar rôl Llywodraeth Cymru, y Senedd, na rhanddeiliaid yng Nghymru wrth lunio deddfau a pholisïau i Gymru.

## Effaith ymarferol

**37.** Mae ansicrwydd o hyd ynghylch sut mae'r llywodraethau'n defnyddio'r fframweithiau cyffredin i wneud penderfyniadau ar y cyd, yn awr ac yn y dyfodol.

**38.** Mewn gohebiaeth â'r Pwyllgor, rhoddodd Llywodraeth Cymru rai enghreifftiau o gydweithio adeiladol drwy fframweithiau cyffredin, fel creu bwrdd rhaglenni trawslywodraethol i fynd i'r afael â newidiadau i **Reoliadau Iechyd Anifeiliaid yr Undeb Ewropeaidd** mewn cyfraith ddomestig.

**39.** Fodd bynnag, mewn rhai achosion mae Llywodraeth Cymru wedi codi pryderon nad yw'r llywodraethau mewn gwirionedd wedi defnyddio fframweithiau cyffredin i gydweithio ar newidiadau arfaethedig i gyfraith a pholisi o fewn eu cwmpas.

**40.** **Cododd y Cwnsler Cyffredinol bryderon** nad yw darpariaethau Bil Technolegau Genetig y Deyrnas Unedig (Bridio Manwl) wedi mynd drwy fframweithiau cyffredin perthnasol.

**41.** Mae hyn yn awgrymu y gallai fod yn anodd i'r Senedd a rhanddeiliaid ddeall pryd mae'r llywodraethau'n cydweithio ar newidiadau i gyfraith a pholisi drwy'r fframweithiau cyffredin a phryd nad ydynt. Mae perygl y bydd hyn yn tanseilio tryloywder a hyder yn y broses llunio polisi a deddfwriaeth.

**Argymhelliad 8.** Dylai Llywodraeth Cymru ei gwneud yn glir i'r Senedd a rhanddeiliaid pan fydd deddfwriaeth neu bolisi arfaethedig yn mynd drwy unrhyw un o'r fframweithiau cyffredin hyn.

**Argymhelliad 9.** Dylai Llywodraeth Cymru roi gwybod i'r Senedd os yw cynigion ar gyfer deddfwriaeth neu bolisi yn newid o ganlyniad i brosesau gwneud penderfyniadau yn unrhyw un o'r fframweithiau cyffredin hyn.

## Cwmpas

**42.** Fel rhan o'r egwyddorion ar gyfer fframweithiau cyffredin, cytunodd y llywodraethau y dylent gynnal, ar y lleiaf, yr hyblygrwydd cyfatebol ar gyfer teilwra polisïau i anghenion penodol

pob tiriogaeth fel ag a roddwyd gan reolau'r Undeb Ewropeaidd pan oedd y Deyrnas Unedig yn aelod.

**43.** Mae'r fframweithiau cyffredin hyn yn defnyddio dulliau amrywiol o ran eu cwmpas. Er enghraifft, mae'r fframwaith iechyd a lles anifeiliaid yn dweud ei bod yn cwmpasu holl gyfraith yr Undeb Ewropeaidd a gedwir a chyfraith ddomestig yn y maes polisi, oni bai bod y llywodraethau'n cytuno fel arall.

**44.** **Dywedodd Llywodraeth Cymru** wrth y Pwyllgor mai'r rheswm am hyn yw oherwydd bod y mwyafrif o ddeddfwriaeth iechyd a lles anifeiliaid yn gyfraith yr Undeb Ewropeaidd a gedwir, ac felly "ni fyddai'n gwneud synnwyr ymarferol cael strwythurau ar wahân o dan y Fframwaith ar gyfer trafodaethau a gwneud penderfyniadau ar gyfraith yr UE a ddargedwir a chyfraith iechyd a lles anifeiliaid nas dargedwir".

**45.** Fodd bynnag, mae'n ymddangos bod y dull hwn yn golygu y bydd y llywodraethau'n gwneud penderfyniadau ar y cyd ar bob polisi a deddfwriaeth iechyd a lles anifeiliaid drwy'r fframwaith cyffredin, hyd yn oed pan fyddent, yn flaenorol, wedi cael ymreolaeth i reoleiddio'n wahanol pan oedd y Deyrnas Unedig yn yr Undeb Ewropeaidd.

**46.** Nid yw'n glir pam yr ystyrir bod hyn yn gyson â'r egwyddor y dylai fframweithiau gynnal hyblygrwydd cyfatebol i reolau'r Undeb Ewropeaidd pan oedd y Deyrnas Unedig yn un o Aelod-wladwriaethau'r Undeb Ewropeaidd.

**Argymhelliad 10.** Dylai Llywodraeth Cymru ofyn am gytundeb rhynglywodraethol i ddiwygio'r fframweithiau cyffredin hyn i egluro na ddylai newidiadau i gyfraith a pholisi mewn meysydd lle roedd gan Lywodraeth Cymru hyblygrwydd rheoleiddiol pan oedd y Deyrnas Unedig yn un o Aelod-Wladwriaethau'r Undeb Ewropeaidd fod yn rhwymedig i ofynion gwneud penderfyniadau ar y cyd na bod yn rhwym wrth brosesau datrys anghydfod.

**Argymhelliad 11.** Dylai Llywodraeth Cymru nodi'n glir y rhesymau dros wneud y fframwaith iechyd a lles anifeiliaid yn eang o ran cwmpas, a dylai gadarnhau bod ganddi o leiaf yr un hyblygrwydd i ddatblygu polisi a deddfwriaeth ag yr oedd ganddi cyn gadael yr Undeb Ewropeaidd.

**Argymhelliad 12.** Dylai Llywodraeth Cymru ofyn am gytundeb rhynglywodraethol i ddiwygio fframweithiau cyffredin i sicrhau eu bod yn nodi'n glir pryd bydd penderfyniadau yn dod o dan y cwmpas a'r rhesymau am hyn.

**Argymhelliad 13.** Dylai Llywodraeth Cymru ymgysylltu â rhanddeiliaid i sicrhau bod cwmpas fframweithiau cyffredin yn cael ei ddeall yn eang.

## Penderfynu pryd mae ymwahanu'n dderbyniol

**47.** Mae'r fframweithiau cyffredin yn gosod paramedrau amrywiol i'r llywodraethau eu hystyried wrth benderfynu pryd mae ymwahanu'n dderbyniol.

**48.** Disgrifir ymwahanu mewn gwahanol ffyrdd mewn fframweithiau gwahanol, ac weithiau mewn gwahanol ffyrdd o fewn fframwaith.

**49.** Er enghraifft, mae'r fframwaith cymorth amaethyddol yn cyfeirio at ymwahanu mewn gwahanol ffyrdd mewn gwahanol adrannau, fel ymwahanu 'problematig', ymwahanu 'diangen', 'effaith negyddol' ymwahanu, a chyfeirio at ddangos pam mae 'polisi ymwahanu yn angenrheidiol'.

**50.** Gall hyn ei gwneud hi'n anodd i'r Senedd a rhanddeiliaid wybod a yw'n debygol y bernir bod ymwahanu'n dderbyniol ai peidio.

**Argymhelliad 14.** Dylai Llywodraeth Cymru geisio cytundeb rhynglywodraethol y dylai pob fframwaith nodi pan fo ymwahanu'n dderbyniol mewn ffordd glir, cyson a hygyrch.

**Argymhelliad 15.** Dylai Llywodraeth Cymru egluro sut bydd yn sicrhau bod prosesau ar gyfer penderfynu a yw ymwahanu'n dderbyniol yn agored ac yn hygyrch i'r Senedd a rhanddeiliaid.

## Datrys anghydfodau

**51.** Mae'r fframweithiau cyffredin yn nodi prosesau lle gellir dwysáu anghydfodau rhwng y llywodraethau o lefel swyddogol i lefel weinidogaethol.

**52.** Os na ellir datrys anghydfod drwy'r broses hon, mae'r fframwaith yn dweud y gellir ei huwchgyfeirio i'r broses datrys anghydfod rhynglywodraethol a nodir yn y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ar Ddatganoli.

**53.** Ym mis Ionawr 2022, **cytunodd y llywodraethau** i wneud newidiadau i'r broses datrys anghydfod rhyngweinidogol fel rhan o'r Adolygiad o Berthynas Rynglywodraethol.

**54.** Er i randdeiliaid groesawu'r prosesau datrys anghydfod yn y fframweithiau, nododd **RSPCA Cymru** ac **NFU Cymru** ansicrwydd ynglŷn â sut byddent yn gweithio'n ymarferol. Mae'r broses o ddatrys anghydfodau rhynglywodraethol diwygiedig yn parhau heb ei phrofi.

**Argymhelliad 16.** Dylai Llywodraeth Cymru ofyn am gytundeb rhynglywodraethol i ddiweddaru'r fframweithiau i gyfeirio at y broses newydd o ddatrys anghydfodau rhyngweinidogol, ar ôl i'r Adolygiad Cysylltiadau Rhynglywodraethol gael ei roi ar waith.

**55.** Nid oes terfynau amser wedi eu pennu ar gyfer datrys anghydfodau. Mae'r fframwaith cyffredin iechyd a lles anifeiliaid yn darparu'n glir y dylid oedi camau o dan anghydfod tra'n aros am ddatrysiad.

**56.** Gofynnodd y Pwyllgor i Lywodraeth Cymru am effaith hyn ar ddatblygu cyfraith a pholisi i Gymru wrth graffu ar fframwaith cyffredin iechyd a lles anifeiliaid. **Dywedodd Llywodraeth Cymru**:

> *"Mae gohirio unrhyw gamau gweithredu sy'n destun anghydfod yn rhan gytûn o'r mecanwaith datrys anghydfodau yn y fframweithiau, ond byddai'n dibynnu ar yr achos gan y gallai natur clefydau olygu bod gohirio camau gweithredu nes y ceir datrysiad yn gadael risgiau heb eu lliniaru."*

**57.** Mae hyn yn awgrymu y gallai oedi gweithredoedd dan anghydfod arwain at oedi i benderfyniadau sy'n hanfodol i iechyd pobl, anifeiliaid neu blanhigion.

**58.** Nid yw'n glir sut bydd y llywodraethau'n cydbwyso'r angen i geisio gwneud penderfyniadau ar y cyd a datrys anghydfodau drwy'r broses y cytunwyd arni gyda'r angen i wneud penderfyniadau lle mae'r amseru'n hollbwysig yn gyflym.

**Argymhelliad 17.** Dylai Llywodraeth Cymru egluro sut bydd yn sicrhau nad yw oedi'n ormodol ar gamau dan anghydfod yn arwain at oedi diangen o ran penderfyniadau.

**59.** Yn gyffredinol, nid yw'r fframweithiau cyffredin hyn yn darparu ar gyfer mewnbwn allanol i'r broses o ddatrys anghydfod i'w ceisio fel safonau. Mae'r fframwaith cymorth amaethyddol yn nodi y gellir gofyn am gyngor trydydd parti yn ystod y broses datrys anghydfodau.

**60.** Mewn tystiolaeth i'r Pwyllgor, dywedodd **RSPCA Cymru** ei bod yn deall bod cynlluniau cychwynnol ar gyfer fframweithiau cyffredin wedi rhagweld sefydlu bwrdd annibynnol o arbenigwyr i ystyried anghydfodau.

**61.** Nid yw'r fframweithiau cyffredin yn darparu ar gyfer rhoi gwybod i'r Senedd na rhanddeiliaid am anghydfodau. Fodd bynnag, mae **Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo** i roi gwybod i'r Senedd am anghydfodau fydd yn cael eu huwchgyfeirio i Weinidogion drwy fframweithiau cyffredin. Croesewir hyn.

**Argymhelliad 18.** Dylai Llywodraeth Cymru ofyn am gytundeb rhynglywodraethol y dylai pob un o'r fframweithiau cyffredin hyn ddarparu i'r llywodraethau geisio cyngor annibynnol yn ystod y broses o ddatrys anghydfodau.

**Argymhelliad 19.** Dylai Llywodraeth Cymru ofyn am gytundeb rhynglywodraethol y dylai pob fframwaith ddarparu bod seneddau'n cael gwybod am anghydfodau sy'n cael eu huwchgyfeirio i lefel Weinidogol.

## Rheoli effaith Deddf Marchnad Fewnol y DU 2020

**62.** Yn 2017, **cytunodd y Cyd-Bwyllgor Gweinidogol (Trafodaethau Ewrop) y dylid sefydlu fframweithiau cyffredin** lle mae angen sicrhau gweithrediad marchnad fewnol y Deyrnas Unedig.

**63.** Mae **Deddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig** yn sefydlu egwyddorion mynediad i'r farchnad yn y gyfraith. Bwriad yr egwyddorion hyn yw sicrhau y gellir gwerthu neu gydnabod nwyddau, gwasanaethau a chymwysterau proffesiynol a gaiff eu gwerthu neu eu cydnabod mewn un rhan o'r Deyrnas Unedig mewn rhan arall. Pleidleisiodd y Pumed Senedd i beidio â rhoi caniatâd i Fil Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig.

**64.** Mae rhai eithriadau cyfyngedig o'r egwyddorion mynediad i'r farchnad – er enghraifft, ar gyfer bygythiadau i iechyd pobl, anifeiliaid neu blanhigion. Mae adrannau 10 a 18 o'r Ddeddf yn caniatáu i Lywodraeth y DU wneud rheoliadau i greu eithriadau newydd o'r egwyddorion mynediad i'r farchnad.

**65.** Mae egwyddorion mynediad i'r farchnad yn debygol o gael effaith sylweddol ar ddatblygiad cyfraith a pholisi yn y rhan fwyaf o feysydd polisi a gwmpesir gan y fframweithiau hyn.

**66.** Ym mis Rhagfyr 2021, fe wnaeth y llywodraethau gytuno ar broses ar gyfer **ystyried a chytuno ar eithriadau i Ddeddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig mewn meysydd fframwaith cyffredin**.

**67.** Mewn cyflwyniadau i'r Pwyllgor, **cododd rhanddeiliaid bryderon** am effaith y Ddeddf ar ddatblygu cyfraith a pholisi Cymru.

**68.** Fodd bynnag, roedd **Dr Mary Dobbs, Dr Viviane Gravey a Dr Ludivine Petetin yn dadlau** bod fframweithiau cyffredin bellach yn "offeryn posib i ddiogelu datganoli", gan y gallent ddarparu llwybr i Lywodraeth Cymru sicrhau eithriadau o egwyddorion mynediad i'r farchnad a dylanwadu'n anffurfiol ar gyfraith a pholisi mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig.

**69.** Nid yw'r fframweithiau cyffredin yn cyfeirio at y broses eithriadau. Mae **Pwyllgor Craffu ar Fframweithiau Cyffredin Tŷ'r Arglwyddi wedi argymell** y dylid diweddaru fframweithiau cyffredin i gyfeirio at y broses eithrio y cytunwyd arni.

**70.** Ym mis Mawrth 2022, **dywedodd Llywodraeth Cymru wrth y Pwyllgor** nad oedd o'r farn ei bod yn briodol cynnwys cyfeiriadau at y broses eithriadau o ystyried ei her gyfreithiol i'r Ddeddf.

**Argymhelliad 20.** Er budd tryloywder, dylai Llywodraeth Cymru geisio cytundeb rhynglywodraethol i gynnwys cyfeiriad yn y fframweithiau cyffredin hyn at Ddeddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020 a'r broses eithriadau fel bo'n berthnasol.

## Rheoli effaith Bil Cyfraith yr Undeb Ewropeaidd a Ddargedwir

**71.** **Amlinellodd llywodraeth flaenorol y Deyrnas Unedig gynlluniau** i gyflwyno Bil Cyfraith yr Undeb Ewropeaidd a Ddargedwir (neu "Fil Rhyddid yn sgil Brexit") i'w gwneud yn haws newid neu ddiddymu cyfraith yr Undeb Ewropeaidd a ddargedwir a dileu'r statws arbennig sydd ganddi yng nghyfraith y Deyrnas Unedig.

**72.** Mae **Llywodraeth y DU wedi dweud** na fydd yn ceisio newid cyfraith yr UE a ddargedwir o fewn fframweithiau cyffredin heb ddilyn y prosesau y cytunwyd arnynt gan weinidogion ym mhob fframwaith.

**Argymhelliad 21.** Dylai Llywodraeth Cymru gadarnhau y bydd unrhyw newid arfaethedig i gyfraith yr Undeb Ewropeaidd a ddargedwir o ran cwmpas y fframweithiau cyffredin hyn yn mynd drwy brosesau fframwaith perthnasol.

**Argymhelliad 22.** Dylai Llywodraeth Cymru egluro sut bydd yn sicrhau bod penderfyniadau ar gyd-fynd â chyfraith yr Undeb Ewropeaidd, neu ymwahanu oddi wrthi, yn glir i'r Senedd wrth graffu ar ddeddfwriaeth yn y meysydd fframwaith cyffredin hyn.

### Rheoli ymwahanu o'r Undeb Ewropeaidd a Gogledd Iwerddon

**73.** O dan Brotocol Gogledd Iwerddon, mae cyfraith yr Undeb Ewropeaidd yn gymwys i Ogledd Iwerddon ac yng Ngogledd Iwerddon, a hynny mewn meysydd polisi a gwmpesir gan y fframweithiau cyffredin hyn.

**74.** Mae ymwahanu rhwng deddfwriaeth ym Mhrydain Fawr a Gogledd Iwerddon a'r Undeb Ewropeaidd wedi cynyddu ers diwedd y cyfnod pontio. Cododd **Pwyllgor Amaeth, Amgylchedd a Materion Gwledig Cynulliad Gogledd Iwerddon** (mandad 2017-2022) bryderon yn ystod ei waith craffu ar y fframweithiau cyffredin hyn ynghylch effaith ymwahanu ar fusnesau yng Ngogledd Iwerddon.

**75.** Wrth graffu ar fframwaith cyffredin cynhyrchu organig, **dywedodd Llywodraeth Cymru wrth y Pwyllgor** fod y llywodraethau'n cydweithio drwy'r fframwaith i ddatblygu cyfraith a

pholisi ar gyfer Prydain Fawr mewn modd sy'n lleihau effaith niweidiol ymwahanu ar Ogledd Iwerddon.

**Argymhelliad 23.** Dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Senedd ar unrhyw fesur y cytunwyd arno i leihau effeithiau niweidiol ymwahanu rhwng Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon o ganlyniad i'r Protocol yn y meysydd fframwaith cyffredin hyn.

**76.** Yn gyffredinol, mae'r fframweithiau cyffredin yn cynnwys geiriad safonol ar sut bydd y llywodraethau'n mynd i'r afael ag ymwahanu sy'n deillio o'r ffaith bod Gogledd Iwerddon yn parhau i fod wedi alinio â newidiadau yn yr Undeb Ewropeaidd, fel y cytunwyd yn y Protocol.

**77.** Nododd **Pwyllgor Amaeth, Amgylchedd a Materion Gwledig Cynulliad Gogledd Iwerddon (mandad 2017-2022)** yn ystod ei waith craffu bod fframwaith cyffredin iechyd a lles anifeiliaid yn cynnig arweiniad cliriach ar sut bydd ymwahanu o ganlyniad i'r Protocol yn cael ei reoli o'i gymharu â fframweithiau eraill, gan nodi:

> *"If Northern Ireland has to diverge in order to maintain parity with the EU the same review process will be followed and the same assessments are made as whether it would be in the best interests of GB to follow suit or to allow divergence."*

**78.** Argymhellodd y Pwyllgor y dylid mabwysiadu'r geiriad hwn ar draws y fframweithiau cyffredin.

**Argymhelliad 24.** Dylai Llywodraeth Cymru ofyn am gytundeb rhynglywodraethol i gynnwys y testun uchod fel rhan o'r geiriad safonol sydd ar y Protocol yn y fframweithiau cyffredin hyn.

**Argymhelliad 25.** Rydym yn cytuno â Phwyllgor Craffu Fframweithiau Cyffredin Tŷ'r Arglwyddi y dylid diweddaru'r holl fframweithiau cyffredin sy'n cydblethu â'r Protocol er mwyn sicrhau rhannu gwybodaeth yn fynych rhwng partïon i'r fframwaith ar ddeddfwriaeth sydd i ddod gan yr Undeb Ewropeaidd.

## Rheoli rhwymedigaethau rhyngwladol

**79.** Yn 2017, cytunodd **Cyd-bwyllgor y Gweinidogion (Negodiadau Ewropeaidd)** y dylid sefydlu fframweithiau cyffredin pan fo'u hangen er mwyn sicrhau cydymffurfiad â rhwymedigaethau rhyngwladol.

**80.** Mae'r fframweithiau cyffredin hyn yn nodi ymrwymiadau i lywodraeth y Deyrnas Unedig a llywodraethau datganoledig gydweithio ar negodi a gweithredu rhwymedigaethau rhyngwladol.

**81.** Mae testun safonol ym mhob un o'r fframweithiau yn darparu y bydd y gwaith o lunio polisïau rhyngwladol yn seiliedig ar "y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth Datganoli presennol a'i Goncordat Cysylltiadau Rhyngwladol cysylltiedig", ac y byddant yn awtomatig yn defnyddio unrhyw Goncordat Cysylltiadau Rhyngwladol wedi ei ddiweddaru, a chanlyniadau ehangach y Cydadolygiad o Gysylltiadau Rhynglywodraethol.

**82.** Cafodd y **Concordat Cysylltiadau Rhyngwladol** ei ddiweddaru ddiwethaf yn 2013; ni chafodd ei ddiwygio yn 2022 fel rhan o'r Adolygiad o Gysylltiadau Rhynglywodraethol. Nid yw'r Concordat yn adlewyrchu'n benodol rôl gynyddol Llywodraeth y Deyrnas Unedig o ran cytuno ar rwymedigaethau rhyngwladol ar ôl Brexit mewn meysydd a arferai fod o fewn cymhwysedd yr Undeb Ewropeaidd, fel masnach.

**83.** Gofynnodd y Pwyllgor i Lywodraeth Cymru sut byddai'r fframweithiau yn effeithio ar y cwmpas i weinyddiaethau datganoledig ymgysylltu wrth lunio polisi rhyngwladol. Roedd yr ymatebion yn amrywio.

**Argymhelliad 26.** Dylai Llywodraeth Cymru gadarnhau ei dealltwriaeth pam mae'r fframweithiau yn defnyddio dulliau gwahanol o ymdrin â'u rôl yn natblygiad polisi rhyngwladol.

**Argymhelliad 27.** Dylai Llywodraeth Cymru egluro'r trefniadau ar gyfer sicrhau cynrychiolaeth effeithiol i Gymru wrth ddatblygu polisi rhyngwladol y Deyrnas Unedig yn y meysydd fframwaith cyffredin hyn.

### Rheoli ymgysylltu â'r fframwaith sefydliadol rhwng y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd

**84.** Mae'r rhan fwyaf o'r fframweithiau cyffredin hyn yn cynnwys testun safonol sy'n cadarnhau **ymrwymiadau Llywodraeth y Deyrnas Unedig i'r llywodraethau datganoledig** ar ymgysylltu datganoledig yn fframwaith sefydliadol y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd. Mae Llywodraeth Cymru wedi mynegi anfodlonrwydd â'r trefniadau hyn.

**85.** Nid yw'r fframwaith cyffredin cymorth amaethyddol yn sôn yn benodol am Gytundeb Masnach a Chydweithredu'r Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd. Mae cymorth amaethyddol wedi ei eithrio o'r darpariaethau cymorth gwladol yn y Cytundeb, ond bydd y fframwaith hwn yn rhyngweithio â nifer o fframweithiau eraill sy'n cyfeirio'n benodol at Cytundeb. Ymddengys hefyd nad yw'r Concordat i'r fframwaith hwn wedi ei ddiweddaru i adlewyrchu'r cytundeb a chadarnhau'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu.

**86.** Cynhaliodd llywodraeth y Deyrnas Unedig a llywodraethau'r gwledydd datganoledig gyfarfod cyntaf **Grŵp Rhyngweinidogol ar gyfer cysylltiadau rhwng y Deyrnas Unedig**

**a'r Undeb Ewropeaidd** ym mis Chwefror 2022. Nid yw'n glir sut bydd trafodaethau rhwng y llywodraethau drwy'r fframweithiau cyffredin hyn yn bwydo i mewn i waith y grŵp rhyngweinidogol.

**Argymhelliad 28.** Dylai Llywodraeth Cymru ofyn am gytundeb rhynglywodraethol y dylai pob fframwaith cyffredin gynnwys adran safonol ar Gytundeb Masnach a Chydweithredu'r Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd, nodi darpariaethau perthnasol, eu pwyllgor Cytundeb Masnach a Chydweithredu eu hunain, a sut bydd y llywodraethau'n cydweithio ar weithredu.

**Argymhelliad 29.** Dylai Llywodraeth Cymru egluro sut bydd trafodaethau rhwng y llywodraethau drwy'r fframweithiau cyffredin yn bwydo i mewn i waith y Grŵp Rhyngweinidogol ar Gysylltiadau rhwng y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd.

## Rheoli ymgysylltiad mewn trafodaethau masnach ryngwladol

**87.** Mae'r fframweithiau cyffredin hyn yn amlinellu sut bydd y llywodraethau'n cydweithio ar negodi a gweithredu cytundebau masnach rhyngwladol. Mae testun safonol ym mhob un o'r fframweithiau (ac eithrio cymorth amaethyddol) yn nodi y bydd yn galluogi'r llywodraethau i ganfod effaith masnach ryngwladol ar reoli ymwahanu polisi.

**88.** Mewn tystiolaeth i'r Pwyllgor ar y fframwaith iechyd a lles anifeiliaid, **dywedodd Llywodraeth Cymru** fod y fframwaith yn caniatáu i Lywodraeth Cymru ddylanwadu ar safbwynt Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar faterion sy'n ymwneud ag iechyd a lles anifeiliaid mewn trafodaethau masnach, ac i uwchgyfeirio trafodaethau i lefel ryngweinidogol.

**89.** Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi codi pryderon ynghylch ymgysylltu â Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar drafodaethau masnach yn y meysydd fframwaith cyffredin hyn.

**90.** Ym mis Rhagfyr 2021, **dywedodd Gweinidog yr Economi** ei fod yn "siomedig" ei bod yn ymddangos na chafodd sylwadau Llywodraeth Cymru am effaith y cytundeb masnach rydd rhwng y Deyrnas Unedig ac Awstralia ar safonau lles anifeiliaid eu hystyried.

**91.** Yn ei gyflwyniad i'r Pwyllgor, **mynegodd RSPCA Cymru bryderon** ei bod hi'n ymddangos na chyfeiriwyd at egwyddorion y fframweithiau cyffredin wrth ystyried effaith tariffau cig eidion a chig oen ym nghytundebau masnach rydd Seland Newydd ac Awstralia.

**92.** Cyhoeddodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig gylch gorchwyl ar gyfer y **Grŵp Rhyngweinidogol ar Fasnach** ym mis Awst 2022. Nid yw'n glir sut bydd trafodaethau rhwng y llywodraethau drwy'r fframweithiau cyffredin hyn yn bwydo i mewn i waith y grŵp rhyngweinidogol.

**Argymhelliad 30.** Dylai Llywodraeth Cymru egluro sut bydd yn ceisio sicrhau bod modd mynd i'r afael ag anghytuno ynghylch trafodaethau masnach ryngwladol yn y meysydd fframwaith cyffredin hyn drwy'r fframweithiau cyffredin, a bod anghydfodau yn cael eu huwchgyfeirio a'u datrys yn effeithiol.

**Argymhelliad 31.** Dylai Llywodraeth Cymru egluro sut bydd trafodaethau ar fasnach ryngwladol drwy'r fframweithiau cyffredin hyn yn bwydo i mewn i waith y Fforwm Rhyngweinidogol ar Fasnach.

## Adrodd yn y dyfodol

**93.** Yn ystod y Bumed Senedd, **ymrwymodd Llywodraeth Cymru** yn unochrog i adrodd yn flynyddol i'r Senedd ar y rhaglen fframweithiau yn ei chyfanrwydd.

**94.** **Cadarnhaodd y Cwnsler Cyffredinol ym mis Tachwedd 2021** bod y llywodraethau i gyd wedi cytuno mewn egwyddor i adrodd ar fframweithiau cyffredin yn y dyfodol. Dywedodd fod swyddogion Llywodraeth Cymru yn paratoi papur er mwyn i'r pedair llywodraeth gytuno ar ddull o wneud hyn.

**95.** Ym mis Mawrth 2022, **dywedodd y Cwnsler Cyffredinol** fod "gwaith yn mynd rhagddo ar lefel swyddogol ar hyn o bryd i benderfynu ar union ffurf y system adrodd flynyddol".

**Argymhelliad 32.** Dylai Llywodraeth Cymru ddilyn cytundeb rhynglywodraethol ar adrodd yn rheolaidd ar fframweithiau cyffredin a rhoi diweddariadau i'r Senedd ar gynnydd.

## Adolygu a diwygio

**96.** Mae'r fframweithiau cyffredin hyn yn nodi prosesau y gellir eu defnyddio i'w hadolygu a'u diwygio o bryd i'w gilydd. Mae'r rhan fwyaf o'r fframweithiau (ac eithrio iechyd a lles anifeiliaid) yn darparu y gellir gofyn am gyngor trydydd parti yn ystod y gwaith adolygu a diwygio.

**97.** Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i roi gwybod i'r Senedd a rhanddeiliaid pan fydd fframwaith cyffredin yn cael ei adolygu, a thrafod eu hargymhellion cyn i'r broses adolygu ddod i ben. Croesewir hyn.

**98.** Mae **Pwyllgor Craffu ar Fframweithiau Cyffredin Tŷ'r Arglwyddi wedi argymell** y dylid cael proses ymgynghori agored â rhanddeiliaid a chyhoeddusrwydd da yn ystod adolygiadau o fframweithiau cyffredin yn y dyfodol, ac y dylid rhoi diweddariadau i seneddau ar ôl i'r adolygiadau unigol ddod i ben.

**Argymhelliad 33.** Dylai Llywodraeth Cymru ofyn am gytundeb rhynglywodraethol y dylai pob fframwaith gael ei ddiweddaru i ddarparu ar gyfer ymgysylltu â seneddau a rhanddeiliaid yn ystod y broses adolygu a diwygio ac i'r seneddau gael gwybod y diweddaraf ar ôl i adolygiad ddod i ben.

# 3. Iechyd planhigion

**99.** Mae fframwaith cyffredin iechyd planhigion yn cwmpasu gofynion o ran mewnforio, allforio a symud planhigion a chynhyrchion planhigion, goruchwylio ac asesu risg plâu planhigion a rheoli brigiadau o achosion, a gwarchod bioddiogelwch planhigion.

## Materion o bwys

### Cyfoeth Naturiol Cymru

**100.** Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n gyfrifol am ddarparu swyddogaethau iechyd planhigion (coedwigaeth) Gweinidogion Cymru. Nid yw'r fframwaith yn darparu i Cyfoeth Naturiol Cymru gael ei gynrychioli yn ei strwythurau llywodraethu.

**101.** Dywedodd Llywodraeth Cymru wrth y Pwyllgor bod Cyfoeth Naturiol Cymru yn mynd i gyfarfodydd ar lefel gyflawni fel bo'n briodol.

**Argymhelliad 34.** Dylai Llywodraeth Cymru ofyn am gytundeb rhynglywodraethol i ddiwygio'r fframwaith i adlewyrchu rôl Cyfoeth Naturiol Cymru wrth ddarparu swyddogaethau iechyd planhigion yng Nghymru.

# 4. Amrywogaethau a hadau planhigion

**102.** Mae'r fframwaith cyffredin amrywogaethau a hadau planhigion yn cynnwys hawliau eiddo bridwyr planhigion, cofrestru amrywogaethau planhigion, a safonau ar gyfer marchnata ac ardystio hadau a deunyddiau eraill lluosogi planhigion.

## Materion o bwys

### Ansawdd ac eglurder

**103.** Mae **Pwyllgor Amaethyddiaeth, Amgylchedd a Materion Gwledig Cynulliad Gogledd Iwerddon** wedi codi pryderon am ansawdd y ddogfen fframwaith, gan gynnwys dyblygu sylweddol.

**104.** Ar dudalen 38 o'r fframwaith, mae cyfeiriad at adolygu'r concordat bob chwe blynedd. Ymddengys fod hyn yn wall.

**Argymhelliad 35.** Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod unrhyw wall yn y fframwaith cyffredin hwn yn cael ei gywiro cyn iddo gael ei gwblhau.

### Cylch gorchwyl ar gyfer grwpiau llywodraethu

**105.** Mae'r fframwaith yn nodi haenau llywodraethu ar gyfer gwneud penderfyniadau a datrys anghydfodau.

**106.** Nid yw'r fframwaith yn darparu cylch gorchwyl na gwybodaeth am aelodaeth y Pwyllgor Amrywogaethau a Hadau Planhigion na'r Pwyllgor Rhestrau a Hadau Cenedlaethol, gan ddweud eu bod yn cael eu hadolygu.

**107.** **Dywedodd Llywodraeth Cymru wrth y Pwyllgor** nad oedd bwriad i ddarparu cylch gorchwyl ar gyfer grwpiau llywodraethu, ond y gellid eu darparu ar gais.

**Argymhelliad 36.** Dylai Llywodraeth Cymru ofyn am gytundeb rhynglywodraethol i ddiwygio'r fframweithiau i gynnwys cylch gorchwyl ar gyfer y grwpiau hyn.

### Protocolau ar gyfer gwneud penderfyniadau

**108.** Mae'r fframwaith hefyd yn cyfeirio at bedwar protocol ar gyfer gwneud penderfyniadau mewn meysydd penodol, ond nid yw'n eu cynnwys. Dyma'r protocolau:

- cynigion ar gyfer deddfwriaeth;

- rhoi rhanddirymiadau i alluogi marchnata hadau o safon egino is dros dro;
- trin ceisiadau gan wledydd eraill i'w deunydd planhigion gael ei gydnabod fel yn gyfwerth â deunydd planhigion y Deyrnas Unedig;
- cynrychiolaeth a chydgysylltiad rhyngwladol.

**109.** Dywedir yn y fframwaith y bydd y protocolau hyn yn "dilyn maes o law". Gan nad yw'r protocolau hyn ar gael, nid yw'n bosibl darparu asesiad llawn o brosesau gwneud penderfyniadau'r fframwaith.

**110.** **Dywedodd Llywodraeth Cymru wrth y Pwyllgor** mai'r bwriad oedd y byddai'r protocolau'n cael eu cyhoeddi ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid technegol yn ddiweddarach yn 2022 a'u bod ar gael maes o law.

**Argymhelliad 37.** Dylai Llywodraeth Cymru roi diweddariadau i'r Pwyllgor am gynnydd tuag at ddatblygu a chyhoeddi'r protocolau.

# 5. Cymorth amaethyddol

**111.** Mae'r fframwaith cyffredin cymorth amaethyddol yn cwmpasu cymorth uniongyrchol i ffermwyr a chymorth ymyrraeth yn y farchnad, mecanweithiau rheoli argyfyngau, ffermydd traws-ffiniol a chasglu data.

**112.** Mae pedair llywodraeth y Deyrnas Unedig wrthi'n datblygu cynlluniau cymorth amaethyddol newydd yn lle'r Polisi Amaethyddol Cyffredin. Gan hynny, bydd y fframwaith yn chwarae rhan allweddol wrth reoli ymwahanu yn y cyd-destun newydd hwn.

**113.** Yn ei gyflwyniad i'r Pwyllgor, **dywedodd Undeb Amaethwyr Cymru** fod y fframwaith yn nodi ffyrdd o weithio, ond amlygodd absenoldeb fframweithiau mwy diffiniedig ar gyfer cymorth amaethyddol ledled y Deyrnas Unedig. Cododd bryderon y gallai hyn arwain at ganlyniadau gwrthnysig a chynyddu'r tebygolrwydd o anghydfodau.

## Materion o bwys

### Ansawdd ac eglurder

**114.** Fe wnaeth Llywodraeth Cymru hefyd roi rhagor o wybodaeth i'r Pwyllgor am lywodraethiant y fframwaith, ac ymrwymodd i ddweud wrth y Senedd pan fyddai grwpiau rheoli argyfwng yn cael eu sefydlu. Croesewir hyn.

**Argymhelliad 38.** Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod gwybodaeth glir am drefniadau llywodraethu yn cael ei nodi cyn cwblhau'r broses honno.

### Cwmpas

**115.** Nodir yn y fframwaith cymorth amaethyddol na fydd y Grŵp Cydweithredu ar Bolisi Amaeth yn cael gwybod am bob gwariant amaethyddol, dim ond gwariant sy'n ymwneud â chymorth â phrisiau'r farchnad, taliadau'n seiliedig ar allbynnau neu gymorth cynhyrchu ac allforio (tudalen 28).

**116.** Mewn gohebiaeth â'r Pwyllgor, cadarnhaodd Llywodraeth Cymru fod cynlluniau rheoli tir cynaliadwy hefyd yn dod o dan gwmpas y fframwaith. Mae hyn yn syndod o gofio nad yw gwariant o'r fath wedi ei restru fel rhywbeth y dylid rhoi gwybod amdano i'r Grŵp Cydweithredu.

**Argymhelliad 39.** Dylai Llywodraeth Cymru ofyn am gytundeb rhynglywodraethol i egluro a yw cynlluniau ffermio cynaliadwy (a) o fewn cwmpas y fframwaith a (b) wedi eu cynnwys yn y

taliadau cymorth amaethyddol y bydd y Grŵp Cydweithredu ar Bolisi yn cael gwybod amdanynt yn rheolaidd.

## Deddf Rheoli Cymorthdaliadau 2022

**117.** Mae Deddf Rheoli Cymorthdaliadau'r Deyrnas Unedig 2022 yn nodi trefn reoleiddio newydd ar gyfer rheoli cymorthdaliadau, i ddisodli cyfundrefn cymorth gwladwriaethol yr Undeb Ewropeaidd, gan roi pwerau i Weinidogion y Deyrnas Unedig reoli'r drefn hon.

**118.** Codwyd pryder am y rhyngweithio rhwng y Ddeddf a'r fframwaith gan **Bwyllgor Craffu ar Fframweithiau Cyffredin Tŷ'r Arglwyddi**, **Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a Chyfansoddiad** Senedd Cymru ac **Undeb Amaethwyr Cymru**.

**Argymhelliad 40.** Cytunwn gyda **Phwyllgor Craffu ar Fframweithiau Cyffredin Tŷ'r Arglwyddi** y dylai adolygiadau o'r fframwaith hwn gynnwys dadansoddiad o sut mae'n rhyngweithio â'r Ddeddf Rheoli Cymorthdaliadau.

## Concordat ar Gytundeb Sefydliad Masnach y Byd ar Amaethyddiaeth

**119.** Rhoddodd Deddf Amaethyddiaeth 2020 bwerau i Ysgrifennydd Gwladol y Deyrnas Unedig wneud rheoliadau i osod nenfydau ar rai mathau o gymorth gan y llywodraeth i sicrhau bod y Deyrnas Unedig yn cyflawni ei rhwymedigaethau o dan Gytundeb Sefydliad Masnach y Byd ar Amaethyddiaeth.

**120.** Cytunodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig i ddatblygu Concordat gyda'r llywodraethau datganoledig yn nodi sut byddai'n defnyddio'r pwerau hyn i lunio rheoliadau. Dywedir yn y fframwaith ei fod ar ffurf ddrafft, ond unwaith y cytunir arno bydd yn gweithredu ochr yn ochr â'r fframwaith hwn.

**121.** **Dywedodd Llywodraeth Cymru** wrth y Pwyllgor bod y Concordat hwn yn cael ei ystyried gan Weinidogion ym mhob un o'r pedair llywodraeth ac y byddai amserlen i'w gyhoeddi yn cael ei chytuno yn dilyn cymeradwyaeth.

**Argymhelliad 41.** Dylai Llywodraeth Cymru roi gwybod i'r Senedd am y cynnydd tuag at gyhoeddi'r Concordat terfynol ar Gytundeb Sefydliad Masnach y Byd ar Amaethyddiaeth.

## Adolygu a diwygio

**122.** Nid yw'r amserlenni ar gyfer adolygu'r fframwaith yn glir. Dywedir y bydd y Concordat yn cael ei adolygu flwyddyn ar ôl y cytundeb. Bydd adolygiadau pellach yn parhau bob blwyddyn; ac mae modd wedyn ei adolygu bob tair blynedd.

**123.** Cadarnhaodd Llywodraeth Cymru mewn gohebiaeth â'r Pwyllgor y byddai'r fframwaith yn cael ei newid i egluro y bydd adolygiadau'n cael eu cynnal yn flynyddol nes bod yr adolygwyr yn cytuno bod cyfnod adolygu tair blynedd yn foddhaol. Croesewir yr ymrwymiad hwn.

**124.** Mewn tystiolaeth i'r Pwyllgor, **dadleuodd NFU Cymru** y gallai fod yn briodol i adolygiadau ddigwydd yn flynyddol am beth amser, ac yn sicr nes bydd y fframwaith wedi ymsefydlu.

**Argymhelliad 42.** Dylai Llywodraeth Cymru geisio cytundeb rhynglywodraethol i ddiwygio'r fframwaith er mwyn gwneud yn glir y bydd adolygiadau yn symud i gylch tair blynedd dim ond ar ôl ymgynghori â rhanddeiliaid.

# 6. Gwrteithiau

**125.** Mae'r fframwaith gwrteithiau nid yn unig yn cwmpasu prosesau ar gyfer rheoli rheoleiddio mewn meysydd a lywodraethwyd yn flaenorol gan gyfraith yr Undeb Ewropeaidd, ond hefyd y modd mae llywodraethau yn ymdrin â pholisi gwrteithiau yn ei gyfanrwydd.

**126.** Mae'r fframwaith yn nodi y bydd "newid mawr" mewn rheoleiddio gwrteithiau i foderneiddio'r system lywodraethu yn "arwain at newid sylweddol i waith polisi ledled y Deyrnas Unedig dros y blynyddoedd nesaf". Mae hyn yn golygu y bydd y fframwaith yn wynebu prawf cynnar.

## Materion o bwys

### Ansawdd ac eglurder

**127.** Nodir yn y fframwaith mai'r prif strwythur ar gyfer gwneud penderfyniadau ar bolisi gwrteithiau fydd Pwyllgor Rheoleiddio Gwrteithiau newydd y Deyrnas Unedig (UKFRC).

**128.** Mae'r diagramau a'r disgrifiadau manwl o'r broses o wneud penderfyniadau hefyd yn crybwyll Grŵp Cyswllt Gwrteithiau, ond nid ydynt yn esbonio beth yw'r Grŵp hwn na sut mae'n berthnasol i'r Pwyllgor Rheoleiddio.

**129.** **Darparodd Llywodraeth Cymru ragor o wybodaeth i'r Pwyllgor** i egluro rolau'r Pwyllgor Rheoleiddio a'r Grŵp Cyswllt Gwrtaith.

**Argymhelliad 43.** Dylai Llywodraeth Cymru ofyn am gytundeb rhynglywodraethol i ddiwygio'r fframwaith i osod strwythurau llywodraethu yn glir, ac yn benodol rôl, aelodaeth a swyddogaethau'r Grŵp Cyswllt Gwrtaith.

### Cwmpas

**130.** Awgrymir yn y dogfennau fframwaith bod y fframwaith yn eang ei gwmpas ac y bydd nid yn unig yn cwmpasu prosesau ar gyfer rheoli rheoleiddio mewn meysydd a lywodraethwyd yn flaenorol gan yr Undeb Ewropeaidd, ond hefyd polisi gwrteithiau yn ei gyfanrwydd.

**131.** Gofynnodd y Pwyllgor i Lywodraeth Cymru a oedd ganddi'r un hyblygrwydd wrth ddatblygu deddfwriaeth a pholisi o dan y fframwaith ag yr oedd ganddi yn ystod aelodaeth o'r Undeb Ewropeaidd.

**132.** Dywedodd Llywodraeth Cymru:

> *"Nid yw gallu Llywodraeth Cymru i ddeddfu a datblygu polisi mewn perthynas â gwrteithiau wedi lleihau ers diwedd y cyfnod pontio."*

**133.** Nid yw'r ymateb hwn yn mynd i'r afael yn uniongyrchol â'r cwestiwn a oes hyblygrwydd cyfatebol.

**Argymhelliad 44.** Dylai Llywodraeth Cymru nodi'n glir y rhesymau dros wneud y fframwaith gwrtaith yn eang o ran cwmpas, a dylai gadarnhau bod ganddo o leiaf yr un hyblygrwydd i ddatblygu polisi a deddfwriaeth ag yr oedd ganddi cyn gadael yr Undeb Ewropeaidd.

# 7. Cynhyrchu organig

**134.** Mae'r fframwaith hwn yn cwmpasu safonau cynhyrchu organig ac ardystio, labelu a masnachu cynnyrch organig, dyframaeth organig a rheolaethau swyddogol.

**135.** Erbyn hyn mae ymwahaniad rhwng Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon/yr Undeb Ewropeaidd ar reoleiddio organig oherwydd gweithredu Rheoliad newydd yr Undeb Ewropeaidd 848/2018.

## Materion o bwys

### Cwmpas

**136.** Mae cwmpas y fframwaith cynhyrchu organig hwn yn eang a bydd yn cwmpasu prosesau ar gyfer rheoli rheoleiddio mewn meysydd a oedd gynt yn cael eu llywodraethu gan yr Undeb Ewropeaidd, ond hefyd polisi cynhyrchion organig yn ei gyfanrwydd.

**137.** Gallai'r cwmpas eang hwn olygu y gallai fod gan Lywodraeth Cymru a'r Senedd lai o hyblygrwydd rheoleiddiol o dan y fframwaith na'r hyn a fyddai wedi bod ganddynt yn yr Undeb Ewropeaidd.

**Argymhelliad 45.** Dylai Llywodraeth Cymru nodi'n glir y rhesymau dros wneud y fframwaith cynhyrchu organig yn eang o ran cwmpas, a dylai gadarnhau bod ganddi o leiaf yr un hyblygrwydd i ddatblygu polisi a deddfwriaeth ag yr oedd ganddi cyn gadael yr Undeb Ewropeaidd.

### Grŵp Arbenigol y Deyrnas Unedig ar Gynhyrchu Organig

**138.** Nodir yn y fframwaith y bydd Grŵp Arbenigol y Deyrnas Unedig ar Gynhyrchu Organig (UK EGOP) yn cael ei sefydlu, gan ddweud y bydd datblygu sylfaen dystiolaeth briodol yn hanfodol ar gyfer gweithredu'r fframwaith. Nid yw'r Grŵp Arbenigol wedi cael ei sefydlu eto. Nid yw'n glir, felly, pa dystiolaeth sy'n cael ei defnyddio ar hyn o bryd i wneud penderfyniadau.

**139.** Dywedodd Llywodraeth Cymru wrth y Pwyllgor bod y gwaith o sefydlu'r Grŵp Arbenigol wedi datblygu'n arafach na'r disgwyl, a bod disgwyl nawr y byddai recriwtio yn dechrau yn ystod y misoedd nesaf.

**Argymhelliad 46.** Dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am sefydlu Grŵp Arbenigol y DU ar Gynhyrchu Organig.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Trosglwyddo swyddogaethau NHS Digital i NHS England** |
| **DYDDIAD** | **12 Rhagfyr 2022** |
| **GAN** | **Eluned Morgan AS, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol** |

Bydd Aelodau o'r Senedd yn dymuno bod yn ymwybodol fy mod wedi rhoi fy nghydsyniad i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd yn Llywodraeth y Deyrnas Unedig arfer pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth mewn maes datganoledig mewn perthynas â Chymru.

Ar 9 Tachwedd ysgrifennodd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd, y Gwir Anrh. Mark Barclay AS, ataf i geisio cydsyniad ar gyfer Rheoliadau'r Ganolfan Gwybodaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Trosglwyddo Swyddogaethau, Diddymu a Darpariaethau Trosiannol) 2023 fel sy'n ofynnol o dan adran 108(1)(3) o Ddeddf Iechyd a Gofal 2022.

Mae'r rheoliadau'n trosglwyddo swyddogaethau presennol o NHS Digital i NHS England, heb ddileu unrhyw ddarpariaethau statudol yn ymwneud â diogelu data pobl. Yn unol ag adran 103(2) o Ddeddf Iechyd a Gofal 2022, mae'r Ysgrifennydd Gwladol o'r farn bod trosglwyddo swyddogaethau NHS Digital i NHS England yn gwella'r broses o arfer swyddogaethau cyhoeddus, gan ystyried effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodaeth a sicrhau atebolrwydd priodol i Weinidogion.

Gosodwyd y rheoliadau gerbron Senedd y DU ar 15 Rhagfyr 2022 i ddod i rym ar 31 Ionawr 2023.

**Eluned Morgan AS/MS**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

SeneddDCC@senedd.cymru

14 Rhagfyr 2022

Annwyl Huw,

Hoffwn roi gwybod i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad fy mod yn bwriadu cydsynio i Reoliadau'r Ganolfan Gwybodaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Trosglwyddo Swyddogaethau, Diddymu a Darpariaethau Trosiannol) 2023.

Ar 9 Tachwedd, ysgrifennodd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd, y Gwir Anrhydeddus Mark Barclay AS, at y Llywodraethau Datganoledig yn gofyn am gydsyniad i'r Offeryn Statudol (OS) hwn fel sy'n ofynnol yn ôl adran 108(1)(3) o Ddeddf Iechyd a Gofal 2022.

Mae'r OS yn trosglwyddo swyddogaethau presennol NHS Digital i NHS England, heb gael gwared ar unrhyw ddarpariaethau statudol yn ymwneud â diogelu data pobl. Yn unol ag adran 103(2) o Ddeddf Iechyd a Gofal 2022, mae'r Ysgrifennydd Gwladol o'r farn bod trosglwyddo swyddogaethau NHS Digital i NHS England yn ateb y diben o wella'r modd yr arferir swyddogaethau cyhoeddus, o safbwynt effeithlonrwydd, effeithiolrwydd, darbodusrwydd a sicrhau atebolrwydd priodol i Weinidogion.

Mae'r diwygiadau sy'n cael eu gwneud i ddeddfwriaeth Cymru yn rhai canlyniadol i drosglwyddo swyddogaethau i NHS England a diddymu NHS Digital yn dilyn hynny. Mae'r diwygiadau hyn yn gyfyngedig i gyfeiriadau at NHS Digital naill ai'n cael eu dileu neu'n cael eu disodli gan gyfeiriad at NHS England, fel y gall y sefydliad barhau â'r un swyddogaeth, neu roi cyfrif am ddiddymu NHS Digital. Fodd bynnag, mae rhai o'r swyddogaethau sy'n cael eu trosglwyddo yn ymwneud â rolau y mae NHS Digital yn eu cyflawni ar hyn o bryd mewn perthynas â Llywodraethau Datganoledig. Mae'r rhain yn swyddogaethau y gellir eu rhoi ar hyn o bryd i NHS Digital os darperir ar eu cyfer mewn rheoliadau a wneir o dan adran 7A neu 18 o Ddeddf Meddyginiaethau a Dyfeisiau Meddygol 2021, sy'n ymwneud â systemau gwybodaeth meddyginiaethau a systemau dyfeisiau meddygol.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yn ogystal, swyddogaethau o dan adran 255 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2022, sy'n galluogi awdurdod datganoledig i ofyn i NHS Digital sefydlu a gweithredu system ar gyfer casglu neu ddadansoddi gwybodaeth, lle mae angen yr wybodaeth i gefnogi darpariaeth iechyd oedolion neu ofal cymdeithasol.

Yn yr achos hwn, ni ellid gwneud y darpariaethau gan Weinidogion Cymru wrth arfer ein pwerau ein hunain gan mai swyddogaeth yr Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd yn unig yw hon.

Yn unol â Rheol Sefydlog 15.2, a Chytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol 2021-2022, byddaf yn gosod Datganiad Ysgrifenedig gerbron y Senedd o fewn tri diwrnod gwaith ar ôl i'r Rheoliadau gael eu gosod gerbron Senedd y Deyrnas Unedig.

Yn gywir,



**Eluned Morgan AS/MS**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

**Lynne Neagle AS/MS**
**Y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant**
**Deputy Minister for Mental Health and Wellbeing**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies MS,
Chair, Legislation, Justice and Constitution Committee
Welsh Parliament
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1SN

20 December 2022

Dear Huw

Thank you for your letter dated 7 December.

If I take each of your points in turn:

**Please can you explain why you believe separate Wales only, bilingual regulations, made in parallel with the UK Government, would lead to "unnecessary complication of the statute book"?**

I considered options for taking forward the proposed amending regulations which includes the option for Welsh Government to draft its own Statutory Instrument (SI) which addresses all amendments. However, to ensure alignment and enforcement with the rest of GB and EU, on this occasion it was felt necessary to progress on this basis. This proposed SI makes minor amendments to existing regulations rather than creating any new policy.

Consent to the GBSI has not precluded the Welsh Ministers from taking a different approach upon receipt of any such future request, should it be considered that an alternative approach is warranted and/or preferable.

**Please can you confirm that the Regulations are a Great Britain-wide (GB-wide) statutory instrument and that they are intended, from your perspective, to form part of a single GB legislative framework rather than a Welsh or, as your letter suggests, a UK framework?**

This GBSI makes minor amendments and forms part of a single GB legislative framework. This is consistent with the approach taken in respect of previous legislative amendments in this area. However, amendments are also required through the Baby Food Regulations in Wales by Welsh Ministers, via Welsh legislation.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lynne.Neagle@llyw.cymru
Correspondence.Lynne.Neagle@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Is all legislation in this policy area GB-wide or do divergences exist?**

Not all legislation in this area is done on a GB basis as some regulatory making powers have been transferred to Welsh Ministers. In those cases, Welsh Ministers would make Wales specific amendment regulations.

**Your letter refers to amendments being made. Please can you provide more specific detail about each of these amendments (as the terms "update" and "standardise" are relatively vague)?**

These amendments will correct errors: updating the units of measure for the labelling of zinc in food supplements, and a previously missed amendment to add zinc chloride and ferrous bisglycinate as permitted sources of vitamins and minerals for use in processed based baby foods (baby foods) (the latter being applicable only to England in these Regulations as separate Welsh only Regulations will make the equivalent changes for Wales); to use different sources for certain vitamins and minerals to be added to food supplements, baby foods and infant formula and follow-on formula (IFFOF) and for consistency in labelling between food supplements and other types of food containing copper. The definition of pesticide residue will be updated from the terminology used in Regulation (EC) No 1107/2009 (concerning the placing of plant protection products on the market) to a more precise definition of residues taken from Regulation (EC) No 396/2005 (on maximum residue levels of pesticides in or on food and feed of plant and animal origin), providing more clarity and consistency with the definition which is used in the legislation for general food.

**What is the rationale for making the amendments set out in the Regulations? For example, are they for the purpose of keeping pace with changes to EU legislation, or do they reflect developments in the scientific evidence?**

The purpose of these amendments is to ensure continued alignment with GB and EU on these matters.

**What is your view on whether these Regulations will lead to divergence with EU standards for similar products?**

The EU has made legislation to make the same amendments which are already applicable in corresponding nutrition regulations across the EU.

**What is your view on whether the Regulations improve pre-Brexit food standards?**

These amendments are technical in nature and correct errors only, which aims to protect specific vulnerable groups of consumers by regulating the content and marketing of food products specifically created for and marketed to them, which align with the EU on these matters.

**Can you confirm if these regulations were considered through the relevant Common Framework or Frameworks and, if so, which ones?**

Yes, the joint approach was discussed as part of the Nutrition Related Labelling, Composition and Standards Working Group (NLCS). On the 9th March 2021 the European Commission amended Annex II of Directive 2002/46/EC to allow magnesium citrate malate to be a form of magnesium chloride and nicotinamide riboside chloride as a form of niacin used in the manufacture of food supplements. Following this legislative change in the EU and NLCS policy group considered the amends and following a risk assessment and risk

management processes set out in the NLCS framework (including scientific assessment), received GB ministerial consent to authorise nicotinamide riboside chloride as a form of niacin and magnesium citrate malate as a form of magnesium which can be used in food supplements.

**What action are you taking to promote accessibility of this legislation to those affected by it, including Welsh-speaking citizens given that the Regulations are in English only?**

Regulations are aimed at business and manufacturing of products and are technical in nature, however specific engagement will be undertaken with relevant stakeholders and bilingual information provided on the Welsh Government website.

**Can you confirm what consultation has been undertaken with Welsh stakeholders on these Regulations?**

The UK Government's Department of Health and Social Care in conjunction with Devolved Administrations launched a three-week UK wide consultation, inviting comments from the food and nutrition industry, representative groups, the public and other interested parties across the UK on the proposed approach.

**How will this legislation be affected in the future should the UK Government's Retained EU Law (Revocation and Reform) Bill become law, particularly if there is any policy divergence between the Welsh and UK Governments?**

We are in early discussion with UKG, Scotland and Northern Ireland about the implications of this Bill but we are not aware of any plans for policy divergence.

**When agreeing to GB-wide regulations, what discussions did you have about the impact of the Retained EU Law (Revocation and Reform) Bill (the REUL Bill) and what was the outcome?**

This was not considered as part of this amending SI. However, The NLCS policy group are currently considering how best to discuss the future of the REUL and NIP bill work and whether this should be through the existing group or a separate sub-group with the appropriate colleagues.

**Given that retained direct EU legislation is subject to the sunset in the Retained EU Law (Revocation and Reform) Bill, did you consider making separate Welsh legislation outside the framework of REUL?**

Making separate Welsh legislation outside the framework was not considered. However, we will be working with the UK Government to ensure that the retained direct EU legislation in this area is not allowed to sunset but is preserved or "assimilated" under the Bill.

**Does the Welsh Government intend to revisit these Regulations if the REUL Bill becomes law?**

No. We have no plans to revisit these regulations.

Yours sincerely,

**Lynne Neagle AS/MS**
Y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant
Deputy Minister for Mental Health and Wellbeing

Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

—

Legislation, Justice and Constitution Committee

Senedd Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565

—

Welsh Parliament
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Lynne Neagle AS
Dirprwy weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant.

7 Rhagfyr 2022

Annwyl Lynne

Rheoliadau Atchwanegiadau Bwyd a Bwyd ar gyfer Grwpiau Penodol (Diwygiadau Amrywiol) 2022

Diolch am eich llythyr dyddiedig 21 Tachwedd ynghylch Rheoliadau arfaethedig Llywodraeth y DU.

Yn eich llythyr rydych yn nodi:

> *"Nid oes gwahaniaeth rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU (yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol) o ran y polisi ar gyfer y cywiriadau. Felly, byddai gwneud OSau ar wahân yng Nghymru a Lloegr yn arwain at ddyblygiad a chymhlethdod diangen o'r llyfr statud. Mae cydsynio i OS i'r DU gyfan yn sicrhau bod un fframwaith deddfwriaethol ledled y DU sy'n hyrwyddo eglurder a hygyrchedd. Yn y sefyllfa hon, mae Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn briodol i Lywodraeth y DU ddeddfu ar ein rhan yn yr achos hwn."*

Byddem yn croesawu eglurhad o'r materion a ganlyn:

1. A allwch egluro pam eich bod yn credu y byddai rheoliadau dwyieithog ar wahân ar gyfer Cymru yn unig, a wneir ochr yn ochr â Llywodraeth y DU, yn arwain at "[g]ymhlethdod diangen o'r llyfr statud"?

2. A fyddech cystal â chadarnhau bod y Rheoliadau yn offeryn statudol ar gyfer Prydain gyfan a'u bod wedi'u bwriadu, o'ch safbwynt chi, i fod yn rhan o un fframwaith deddfwriaethol Prydain Fawr yn hytrach na fframwaith i Gymru neu, fel y mae eich llythyr yn ei awgrymu, fframwaith y DU?

3. A yw'r holl ddeddfwriaeth yn y maes polisi hwn yn gymwys ledled Prydain Fawr neu a oes gwahaniaethau?

4. Mae eich llythyr yn cyfeirio at welliannau sy’n cael eu gwneud. A allwch roi manylion mwy penodol am bob un o’r gwelliannau hyn (gan fod y termau “diweddaru” a “safoni” yn gymharol annelwig)?

5. Beth yw'r rhesymeg dros wneud y gwelliannau a nodir yn y Rheoliadau? Er enghraifft, a ydynt at ddibenion cyd-fynd â newidiadau i ddeddfwriaeth yr UE, neu ydynt yn adlewyrchu datblygiadau yn y dystiolaeth wyddonol?

6. Beth yw eich barn ynghylch a fydd y Rheoliadau hyn yn arwain at fod yn wahanol i safonau’r UE ar gyfer cynhyrchion tebyg?

7. Beth yw eich barn ynghylch a yw'r Rheoliadau yn gwella safonau bwyd cyn Brexit?

8. A allwch gadarnhau a gafodd y Rheoliadau hyn eu hystyried drwy’r Fframwaith neu’r Fframweithiau Cyffredin perthnasol ac, os felly, pa rai?

9. Pa gamau yr ydych yn eu cymryd i hyrwyddo hygyrchedd y ddeddfwriaeth hon i’r rhai y mae’n effeithio arnynt, gan gynnwys dinasyddion Cymraeg eu hiaith o ystyried bod y Rheoliadau yn Saesneg yn unig?

10. A allwch gadarnhau pa ymgynghoriad sydd wedi’i gynnal â rhanddeiliaid Cymru ar y Rheoliadau hyn?

11. Sut yr effeithir ar y ddeddfwriaeth hon yn y dyfodol pe bai Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) Llywodraeth y DU yn dod yn gyfraith, yn enwedig os oes unrhyw wahaniaeth polisi rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU?

12. Wrth gytuno i reoliadau ar gyfer Prydain gyfan, pa drafodaethau a gawsoch ynghylch effaith Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) a beth oedd y canlyniad?

13. O ystyried bod deddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir yn ddarostyngedig i’r cymal machlud ym Mil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio), a wnaethoch ystyried gwneud deddfwriaeth ar wahân i Gymru y tu allan i fframwaith y Bil?

14. A yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu ailedrych ar y Rheoliadau hyn os daw Bil Cyfraith yr UE yn gyfraith?

Byddwn yn ddiolchgar o gael ymateb erbyn 5 Ionawr 2023.

Rwy’n anfon copi o’r llythyr hwn at Russell George AS, Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Jayne Bryant AS, Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.

Yn gywir

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd

**Mick Antoniw AS/MS**
**Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad**
**Counsel General and Minister for the Constitution**

Eitem 6.3

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd, Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
SeneddDCC@senedd.cymru

20 Rhagfyr 2022

Annwyl Huw,

Yn fy llythyr ar 16 Tachwedd, hysbysais y Pwyllgor fy mod wedi rhoi caniatâd i'r Ysgrifennydd Gwladol arfer is-bŵer deddfwriaethol mewn maes datganoledig i Gymru drwy wneud Rheoliadau Rhwymedigaethau Cyfrifoldeb Cynhyrchydd (Gwastraff Pecynnu) (Diwygio) (Cymru a Lloegr) 2022.

Rwyf bellach yn ysgrifennu i hysbysu'r Pwyllgor bod Rheoliadau Rhwymedigaethau Cyfrifoldeb Cynhyrchydd (Pecynnu Gwastraff) (Diwygio) (Cymru a Lloegr) 2022 wedi'u gosod gerbron Senedd y DU o dan y weithdrefn negyddol ar 23 Tachwedd 2022 a bydd yn dod i rym ar 1January 2023. Rwyf wedi gosod datganiad ysgrifenedig sydd i'w weld yn: - Eich cyf (senedd.cymru)

Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn gwneud y rheoliadau hyn wrth arfer pwerau a roddir gan adran 50 o baragraffau 1(1) a 2(2) o Atodlen 4 i Ddeddf Amgylchedd 2021. Mae'r OS yn diwygio Rheoliadau Rhwymedigaethau Cyfrifoldeb Cynhyrchydd (Gwastraff Pecynnu) 2007 (O.S. 2007/871), sy'n gosod rhwymedigaethau ar gynhyrchwyr pecynnu i ailgylchu deunydd pecynnu i gyrraedd targedau ailgylchu cyffredinol a thargedau ailgylchu ar gyfer deunyddiau penodol. Wrth wneud hynny, mae'r rheoliadau'n diwygio'r targedau ailgylchu cyffredinol a deunyddiau penodol ar gyfer 2023 i gynhyrchwyr sydd â rhwymedigaeth yng Nghymru a Lloegr.

Yn gywir,



**Mick Antoniw AS/MS**
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad
Counsel General and Minister for the Constitution

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mick.Antoniw@llyw.cymru
Correspondence.Mick.Antoniw@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Eitem 6.4

**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**
**Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref

23 Rhagfyr 2022

Annwyl Huw,

Yn unol â'r cytundeb cysylltiadau rhyng-sefydliadol, hoffwn roi gwybod i chi fod cyfarfod pellach o'r Grŵp Rhyng-Weinidogol ar gyfer yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig wedi'i gynnal ar 5 Rhagfyr.

Cadeiriwyd y cyfarfod gan yr Arglwydd Richard Benyon, y Gweinidog Bioddiogelwch, y Môr a Materion Gwledig, Llywodraeth y DU. Mynychwyd y cyfarfod hefyd gan Mairi Gougeon ASP, Ysgrifennydd y Cabinet dros Faterion Gwledig a'r Ynysoedd, Llywodraeth yr Alban; Lorna Slater ASA, Gweinidog Sgiliau Gwyrdd, Economi Gylchol a Bioamrywiaeth, Llywodraeth yr Alban; Mrs Katrina Godfrey, Ysgrifennydd Parhaol, Adran yr Amgylchedd Amaeth a Materion Gwledig, Llywodraeth Gogledd Iwerddon (yn lle'r Gweinidog); James Davies AS, Is-ysgrifennydd Seneddol Cymru; a John Lamont AS, Is-ysgrifennydd Gwladol yr Alban.

Yn y cyfarfod buom yn trafod y materion sy'n cael effaith ar y sector dofednod ac wyau ar hyn o bryd, yn unol â’r cais gan Lesley Griffiths, y Gweinidog Materion Gwledig, Gogledd Cymru a’r Trefnydd, yn dilyn pryderon a godwyd gan ein rhanddeiliaid.

Buom yn trafod statws Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Diwygio a Dirymu). Gofynnais i Defra roi manylion i swyddogion am ei gynlluniau cyn gynted â phosib.

Rhoddodd yr Arglwydd Benyon ddiweddariad ar Becyn Gwella Amgylchedd Gwynt ar y Môr, a diwygiadau arfaethedig i gydsynio prosiectau gwynt ar y môr. Er fy mod yn cytuno gyda bwriadau'r gwaith, pwysleisiais fy mhryderon dros y ddeddfwriaeth arfaethedig a phwysleisiodd fod yn rhaid parchu'r setliad datganoli.

Trafodwyd ffiniau a gweithredu'r Model Gweithredu Targed nesaf ac amlinellais bwysigrwydd Llywodraeth y DU yn yn trafod yn gynnar â llywodraethau datganoledig.

Yn olaf, buom yn siarad am gyfarfod COP15 sydd ar ddod ac yn trafod ein huchelgeisiau a'n hymateb ar y cyd ar fioamrywiaeth.

Cynhelir y cyfarfod nesaf ddydd Llun 23 Ionawr 2023.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Bydd cyd-hysbysiad am y cyfarfod yma yn cael ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth y DU ar https://www.gov.uk/government/publications/communique-from-the-inter-ministerial-group-for-environment-food-and-rural-affairs

Rwy'n anfon o'r llythyr hwn at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd, a Seilwaith ac i Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Yn gywir



**Julie James AS/MS**
Y Gweinidog Newid Hinsawdd

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG
# GAN
# LLYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Presenoldeb yn y cyfarfod Rhyng-lywodraethol ar 5 Rhagfyr.** |
| **DYDDIAD** | **23 Rhagfyr 2022** |
| **GAN** | **Julie James AS, Y Gweinidog Newid Hinsawdd** |

Yn unol â'r cytundeb cysylltiadau rhyng-sefydliadol, hoffwn roi gwybod i chi fod cyfarfod pellach o'r Grŵp Rhyng-Weinidogol ar gyfer yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig wedi'i gynnal ar 5 Rhagfyr.

Cadeiriwyd y cyfarfod gan yr Arglwydd Richard Benyon, y Gweinidog Bioddiogelwch, y Môr a Materion Gwledig, Llywodraeth y DU. Mynychwyd y cyfarfod hefyd gan Mairi Gougeon ASP, Ysgrifennydd y Cabinet dros Faterion Gwledig a'r Ynysoedd, Llywodraeth yr Alban; Lorna Slater ASA, Gweinidog Sgiliau Gwyrdd, Economi Gylchol a Bioamrywiaeth, Llywodraeth yr Alban; Mrs Katrina Godfrey, Ysgrifennydd Parhaol, Adran yr Amgylchedd Amaeth a Materion Gwledig, Llywodraeth Gogledd Iwerddon (yn lle'r Gweinidog); James Davies AS, Is-ysgrifennydd Seneddol Cymru; a John Lamont AS, Is-ysgrifennydd Gwladol yr Alban.

Yn y cyfarfod buom yn trafod y materion sy'n cael effaith ar y sector dofednod ac wyau ar hyn o bryd, yn unol â'r cais gan Lesley Griffiths, y Gweinidog Materion Gwledig, Gogledd Cymru a'r Trefnydd, yn dilyn pryderon a godwyd gan ein rhanddeiliaid.

Buom yn trafod statws Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Diwygio a Dirymu). Gofynnais i Defra roi manylion i swyddogion am ei gynlluniau cyn gynted â phosib.

Rhoddodd yr Arglwydd Benyon ddiweddariad ar Becyn Gwella Amgylchedd Gwynt ar y Môr, a diwygiadau arfaethedig i gydsynio prosiectau gwynt ar y môr. Er fy mod yn cytuno gyda bwriadau'r gwaith, pwysleisiais fy mhryderon dros y ddeddfwriaeth arfaethedig a phwysleisiodd fod yn rhaid parchu'r setliad datganoli.

Trafodwyd ffiniau a gweithredu'r Model Gweithredu Targed nesaf ac amlinellais bwysigrwydd Llywodraeth y DU yn yn trafod yn gynnar â llywodraethau datganoledig.

Yn olaf, buom yn siarad am gyfarfod COP15 sydd ar ddod ac yn trafod ein huchelgeisiau a'n hymateb ar y cyd ar fioamrywiaeth.

Cynhelir y cyfarfod nesaf ddydd Llun 23 Ionawr 2023.

[Bydd cyd-hysbysiad am y cyfarfod yma yn cael ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth y DU (dolen allanol, Saesneg yn unig)]

Caiff y datganiad ei gyhoeddi yn ystod y toriad er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau. Os bydd aelodau eisiau i mi wneud datganiad pellach neu ateb cwestiynau ynglŷn â hyn pan fydd y Senedd yn dychwelyd, byddwn yn hapus i wneud hynny.

Eitem 6.5

**Vaughan Gething AS**
**Gweinidog yr Economi**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Paul Davies AS
Cadeirydd Pwyllgor yr Economi,
Masnach a Materion Gwledig

SeneddEconomy@senedd.cymru

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth,
Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

SeneddLJC@assembly.cymru

23 Rhagfyr 2022

Annwyl Paul a Huw,

Dyma eich hysbysu, yn unol â'r Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol, fod cyfarfod y Fforwm Gweinidogol ar gyfer Masnach wedi'i drefnu ar gyfer 09 Ionawr 2023.

Bydd yr agenda yn cynnwys:

- Cyflwyniadau
- Rhannu Gwybodaeth
- CPTPP
- India
- GCC

Anfonaf ragor o wybodaeth atoch ar ôl y cyfarfod.

Yn gywir,

**Vaughan Gething AS**
Gweinidog yr Economi

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
YPCCGB@llyw.cymru PSCGMET@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LLYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Canlyniad cyfarfod Cyngor y Gweinidogion Addysg** |
| **DYDDIAD** | **23 Rhagfyr 2022** |
| **GAN** | **Gweinidog y Gymraeg ac Addysg** |

Yn unol â'r cytundeb cysylltiadau rhyngsefydliadol, gallaf adrodd fy mod wedi cadeirio trydydd cyfarfod Cyngor Gweinidogion Addysg y DU (UKEMC) ddydd Gwener 9 Rhagfyr yn Adeiladau Llywodraeth Cymru ym Mharc Cathays, Caerdydd.

Roedd Shirley-Anne Somerville ASA, Ysgrifennydd Cabinet Addysg a Sgiliau yn bresennol ar ran Llywodraeth yr Alban. Roedd y Gwir Anrhydeddus Gillian Keegan AS, Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg yn bresennol ar ran Llywodraeth y DU, ac roedd Mark Browne, Ysgrifennydd Parhaol yr Adran dros Addysg a Mark Lee, Cyfarwyddwr Addysg Drydyddol yn cynrychioli Gogledd Iwerddon drwy gyswllt fideo.

Trafododd y grŵp heriau a datblygiadau diweddar yn y meysydd canlynol: cynnydd mewn costau byw; cymwysterau cyffredinol a galwedigaethol; a dysgu gydol oes.

Rhoddodd Mike James, Prif Weithredwr Coleg Caerdydd a'r Fro gyflwyniad ar y cynnig eang o'r sector ôl-16.

Ymysg pethau eraill, tynnais sylw'r pwyllgor at y gwaith y mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn ei wneud ar y Cynllun Prydau Ysgol am ddim i Bawb, y newidiadau sylweddol sy'n digwydd ym maes cymwysterau yng Nghymru, a fy ngweledigaeth bod Cymru yn dod yn genedl ail gyfle.

Cytunwyd y byddai Llywodraeth y DU yn cynnal cyfarfod nesaf Cyngor Gweinidogion Addysg y DU.

Caiff y datganiad ei gyhoeddi yn ystod y toriad er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau. Os bydd aelodau eisiau i mi wneud datganiad pellach neu ateb cwestiynau ynglŷn â hyn pan fydd y Senedd yn dychwelyd, byddwn yn hapus i wneud hynny.

**Jeremy Miles AS/MS**
**Gweinidog y Gymraeg ac Addysg**
**Minister for Education and Welsh Language**

Eich cyf/Your ref: Gohebiaeth a gafwyd gan Education Otherwise
Ein cyf/Our ref: Llythyr ynghylch addysg ddewisol yn y cartref i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
SeneddDCC@senedd.cymru

29 Tachwedd 2022

Annwyl Huw,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 2 Tachwedd 2022 ynghylch gohebiaeth a gafodd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad gan Education Otherwise.

Mae'r fframwaith cyfreithiol sy'n sail i'r canllawiau statudol newydd ar gyfer addysg ddewisol yn y cartref a'r cynnig o ran cronfa ddata wedi'u nodi yn y canllawiau statudol drafft a gyhoeddwyd ar gyfer ymgynghoriad yn 2019.

Yn gryno, ein bwriad yw cyhoeddi:

1) canllawiau statudol newydd i awdurdodau lleol o dan adran 436A o Ddeddf Addysg 1996 ("Deddf 1996");
2) rheoliadau newydd, Rheoliadau Cronfa Ddata Addysg Deddf Plant 2004 (Cymru) drafft ("Rheoliadau Cronfa Ddata drafft"), o dan adran 29 o Ddeddf Plant 2004 ("Deddf 2004"); a
3) rheoliadau newydd, Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Blant mewn Ysgolion Annibynnol) (Cymru) drafft ("Rheoliadau Gwybodaeth drafft") o dan adran 537A o Ddeddf 1996.

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru yn cael addysg addas ac yn cael y cyfle i ffynnu a gwireddu eu potensial, ym mhob lleoliad addysgol. Mae'r Llywodraeth wedi mabwysiadu Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn[1] fel sail i'w holl waith ar gyfer plant a phobl ifanc. Mae Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011[2] yn rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i roi sylw

1 http://www.unicef.org.uk/what-we-do/un-convention-child-rights/
2 http://www.legislation.gov.uk/mwa/2011/2/contents

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru
Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

dyladwy i hawliau plant, fel a nodir yn y Confensiwn. Mae Cynllun Hawliau Plant 2014[3] yn nodi'r trefniadau ar gyfer Gweinidogion Cymru i gydymffurfio â'r ddyletswydd i roi sylw dyladwy i hawliau plant wrth arfer unrhyw ddyletswyddau.

Mae Erthygl 28 o'r Confensiwn yn nodi bod gan bob plentyn hawl i addysg ac y dylai addysg gynradd fod yn orfodol ac am ddim. Mae Erthygl 29 yn nodi y dylai addysg ddatblygu personoliaeth a doniau pob plentyn i'r eithaf.

Yn unol â pholisi'r Llywodraeth, cyhoeddwyd Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant (CRIA)[4] ar wefan y Llywodraeth ym mis Ionawr 2020, ar yr un pryd â'r ymgynghoriad ar Reoliadau Cronfa Ddata Addysg Deddf Plant 2024 (Cymru) 2020 a Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Blant mewn Ysgolion Annibynnol) (Cymru) 2020[5].

O ran diogelwch, rydym wedi cydnabod yn ein gohebiaeth gyda theuluoedd a grwpiau sy'n cynrychioli addysg ddewisol yn y cartref nad oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod plant sy'n derbyn addysg yn y cartref mewn mwy o berygl o brofi esgeulustod neu niwed na phlant sy'n derbyn eu haddysg yn yr ysgol. Fodd bynnag, fel gydag unrhyw blentyn, ni waeth ble caiff ei addysg, efallai y bydd amgylchiadau sydd, yn unigol neu'n gyfunol, yn rhoi rheswm i ymarferwyr geisio rhagor o wybodaeth am blentyn. Mae Rhan 7 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ("Deddf 2014") yn nodi'r hyn y mae rhaid ei wneud a'r hyn a ddylai gael ei wneud i ddiogelu plant ac oedolion. Mae hyn yn gymwys i bob plentyn ni waeth ble na sut mae'n derbyn ei addysg.

Nid yw cyrchau triwantiaid yn targedu plant sy'n derbyn eu haddysg yn y cartref, ond gall y plant hynny ddod i gysylltiad â swyddogion awdurdodau lleol am eu bod o bosibl yn cael eu haddysgu y tu allan i'r oriau ysgol traddodiadol a'r lleoliadau addysgol prif ffrwd.

Mewn amgylchiadau felly byddai disgwyl i swyddogion awdurdodau lleol wneud ymholiadau anffurfiol ynghylch statws addysgol y plentyn er mwyn pennu a yw'n derbyn addysg addas ac effeithlon, yn unol ag adran 436A o Ddeddf Addysg 1996.

I gloi, hoffwn eich sicrhau bod yr ohebiaeth gan Education Otherwise ynghyd â safbwyntiau yr holl randdeiliad wedi cael ac yn parhau i gael ystyriaeth ddyladwy gan swyddogion wrth ffurfio'r polisi hwn.

Gobeithio bod yr wybodaeth hon o fudd.

Yn gywir



**Jeremy Miles AS/MS**
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg
Minister for Education and Welsh Language

[3] https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-10/cynllun-hawliau-plant-2014.pdf
[4] https://dera.ioe.ac.uk/34929/12/asesiad-or-effaith-ar-hawliau-plant.pdf
[5] https://llyw.cymru/cronfeydd-data-addysg-awdurdodau-lleol

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

—

**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Jeremy Miles AS
Gweinidog y Gymraeg a Addysg

2 Tachwedd 2022

Annwyl Jeremy

Gohebiaeth a dderbyniwyd gan Education Otherwise

Atodaf gopi o e-bost a ddaeth i law gan Education Otherwise ynghylch canllawiau ar addysg gartref.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech sicrhau ei fod yn cael ei ystyried wrth ddatblygu'ch cynigion yn y maes polisi hwn.

Rhowch wybod i mi os oes unrhyw faterion o fewn cylch gwaith fy Mhwyllgor y credwch y byddai'n briodol tynnu fy sylw atynt wrth ichi ddatblygu'ch cynigion.

Yn gywir,

Huw Irranca-Davies

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd

E-bost a dderbyniwyd gan Education Otherwise

Dear Mr Irranca Davies,

Ref: Proposals for statutory home education guidance

I am writing to you as Char of Education Otherwise and in your capacity of chair of the Legislation, Justice and Constitution Committee. Education Otherwise is the home education charity, established 45 years ago and working to promote choices in education.

You will be aware of proposals to introduce statutory guidance for home educating families, a draft of which was issued for consultation in 2019. You will not be aware that your colleague and Education Minister Mr Jeremy Miles has confirmed his intent ion to issue statutory guidance which mandates meetings between education staff and home educated children. The purpose of this communication is to raise concerns in respect of that intention which relate to the legal position.

The first concern is an obvious one: Government cannot create legislation through guidance and statutory guidance which mandates meetings between children and public servants would be doing just that. There is simply no legislative basis to create such a mandate.

The draft guidance relies in part at least, on the United Nations Convention on the Rights of the Child (UNCRC) to justify mandatory interviews with children. However, the UNCRC dies not support such a mandate:

•Article 5: 'States parties shall respect the responsibilities, rights and duties of parents……to provide in a manner consistent with the evolving capacities of the child, appropriate direction and guidance in the exercise by the child of their rights recognised in the present convention'. It is the duty and responsibility of the parent to mediate the rights of the child and to guide the child in exercising those rights, it is not the duty of the State to do so. This proposal puts the duty on the State, which is contra to the UNCRC Art.5.

•Article 12: 'States parties shall assure to the child who is capable of forming his or her own views the right to express those views freely in all matters affecting the child…the child shall in particular be given the opportunity to be heard in any administrative proceedings affecting the child..' This is a duty to assure the child the right to express their views, not to mandate that the child must express those views, as is proposed. The child should not be forced to express their views in interview with any official, as to force such a requirement would be contra to the UNCRC art. 12.

•Article 13: ' The child shall have the right to freedom of expression; this right shall include the right to seek, receive and impart information and ideas of all kind…..through any other media of the child's choice'. Again, this is a right and not a mandate. The proposal seeks to mandate that the child give their views which is contra to the UNCRC Art. 13.

•Article 14: 'States parties shall respect the right and duties of the parents….to provide direction to the child in the exercise of his or her right in a manner consistent with the evolving capacities of the child'. Again, this right and duty is the parent's and not the State's.

•Article 16: 'No child shall be subjected to arbitrary or unlawful interference with his or her privacy, family, home, or correspondence, nor to unlawful attacks on his or her honour and reputation'. This proposal inherently causes stigmatisation to the child, which damages their honour and reputation. In cases where the parent is prosecuted, which prosecutions are public record, this stigmatisation would increase exponentially. This is contra to the UNCRC article 16. Further, the proposal interferes with the child's privacy and family in a manner contra to the UNCRC article 16.

•Article 19: refers to protection of children from abuse and neglect whilst in the care of the parent and 'Such protective measures should as appropriate, include effective procedures for the establishment of social programmes to provide necessary support for the child and those who have care of the child, as well as for other forms of prevention and for identification, reporting, referral, investigation, treatment and follow up of instances of child maltreatment'.

It is important to note that such investigations as proposed by this draft must be appropriate and necessary. There is no evidence whatsoever to suggest that home educated children are subject to 'maltreatment' and there is evidence to suggest that those children are less vulnerable to such maltreatment than are schooled children and under 5 year olds. Consequently, it is not possible to suggest that the proposed measures of mandatory interviews are either necessary or proportionate.

•Article 37: 'States parties shall ensure that no child be subjected to…..or degrading treatment'. The proposals would subject home educated children to degrading treatment, in that those children would be stigmatised, belittled and face possible emotional psychological and financial abuse.

•Article 40: 'States parties recognise the right of every child alleged as, accused of, or recognised as having infringed the penal law to be treated in a manner consistent with the promotion of the child's sense of dignity' and s2 (b) (iv) goes on to state that the child should 'not be compelled to give testimony'.

Even where the child is being dealt with under the penal system, that child may not be compelled to give evidence and yet this draft proposes that the child will be so compelled. This is contra to the UNCRC article 40.

The intention to mandate meetings between home educated children and education staff also fails to take account of extant precedent which states that LAs should not as a matter of policy insist on inspection of the home in order to ensure that education is suitable (Regina v Surrey Quarter Sessions Appeals Committee, ex parte Tweedie [QPR} 61 LGR 464). This was a case where there were exceptional circumstances. To mandate such meetings as a matter of course would be neither reasonable nor proportionate. Although the guidance states that 'Such a meeting does not have to

take place in the home; it can take place in a mutually agreed location,' the Tweedie case centred around an undertaking to allow meetings 'in the home' and remains valid precedent to support my point.

The Welsh Ministers intend to make regulations that will require local health boards to disclose to a local authority non medical information to assist them in identifying children in their locality' (Extract from draft guidance). All patient information attracts the common law duty of confidentiality and a medical professional cannot disclose data of any form other than under very distinct circumstances including by consent or where legislation (not guidance) sets aside the common law duty of confidentiality.

The draft guidance states that if professionals come across a home educated child during truancy sweeps, they will need to notify the relevant local authority and that parents may need to verify any information given to them in such cases.  Those involved in truancy sweeps have no legal right to require a child to provide their personal details, nor to detain a home educated child. There is furthermore no legislative basis for sharing of data provided by a home educated child or parent during such a sweep.

There are several other points that have no basis in legislation and appear to be intended to seek to introduce legislation by way of guidance, which is not legally permissible. However, these points are illustrative of the overarching problem with the draft and the Minister's stated intention to proceed with it.

I ask that you examine he legal situation in respect of this guidance in the light of these concerns. You may wish to refer to advice received from Counsel in respect of some of the points above.

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
—
**Deddfwriaeth, Cyfiawnder a Pwyllgor y Cyfansoddiad**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Wendy Charles-Warner
Cadeirydd, Education Otherwise

2 Tachwedd 2022

Annwyl Ms Charles-Warner

Diolch am eich e-bost dyddiedig 26 Awst 2022. Ymddiheuraf am yr oedi cyn ymateb.

Efallai y byddai'n ddefnyddiol pe bawn yn dechrau drwy esbonio rôl y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a Chyfansoddiad mewn perthynas ag is-ddeddfwriaeth. Byddwn yn cyflwyno adroddiadau ar is-ddeddfwriaeth y bydd Llywodraeth Cymru yn ei gosod gerbron y Senedd ac mae'r manylion ar gael ar dudalennau gwe is-ddeddfwriaeth y Senedd. Wrth wneud hynny, caiff gwaith craffu'r Pwyllgor ei lywio gan y gofynion a nodir yn Rheolau Sefydlog y Senedd (Rheolau Sefydlog 21.2 a 21.3 yn benodol).

Yn unol â'r Rheolau Sefydlog, gallwn drafod unrhyw is-ddeddfwriaeth sy'n ymwneud ag addysg gartref a osodir gerbron y Senedd.

Fodd bynnag, nid ein rôl ni yw rhoi sylwadau ar ganllawiau drafft y bydd Llywodraeth Cymru yn eu paratoi at ddibenion ymgynghori.

Gan hynny, rwyf wedi ysgrifennu at Jeremy Miles AS, Gweinidog y Gymraeg ac Addysg, gan amgáu copi o'ch e-bost iddo'i ystyried (mae copi wedi'i amgáu). Rwy'n ddiolchgar am y diddordeb yr ydych wedi'i ddangos yng ngwaith y Pwyllgor.

Yn gywir,

Huw Irranca-Davies

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd

Senedd Cymru
Welsh Parliament

**Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai**
—
**Local Government** and Housing Committee

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddTai@senedd.cymru
SeneddTai/SeneddTai
0300 200 6565
—
**Senedd Cymru**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddHousing@senedd.wales
senedd.wales/SeneddHousing
0300 200 6565

Elin Jones AS
Y Llywydd
Cadeirydd y Pwyllgor Busnes

8 Rhagfyr 2022

Annwyl Elin

## Memoranda cydsyniad deddfwriaethol

Byddwch yn ymwybodol bod y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai yn ystyried memoranda cydsyniad deddfwriaethol (Memoranda) ar hyn o bryd mewn perthynas â dau Fil: y Bil Tai Cymdeithasol (Rheoleiddio) a'r Bil Ffyniant Bro ac Adfywio. Rydym eisoes wedi ystyried tri Memorandwm arall, yn ogystal â nifer o Femoranda atodol, yn ystod y Chweched Senedd. Roedd ein pwyllgor rhagflaenol wedi ystyried cyfanswm o chwe Memorandwm drwy gydol y Bumed Senedd. O ganlyniad, cytunodd y Pwyllgor y dylwn ysgrifennu atoch i fynegi ein pryderon ynghylch y defnydd cynyddol o Filiau'r DU a chonfensiwn cydsyniad deddfwriaethol i ddeddfu mewn meysydd datganoledig, yn hytrach na thrwy ddeddfwriaeth y Senedd. Rwyf wedi mynegi pryderon y Pwyllgor i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad a Llywodraeth Cymru eisoes.

Mae deddfwriaeth sylfaenol a gyflwynir gan Lywodraeth Cymru yn caniatáu gwaith craffu llawn gan y Senedd.

Fel Aelodau o'r Senedd, ein cyfrifoldeb ni yw sicrhau bod gwaith craffu trylwyr yn cael ei gynnal ar yr holl ddeddfwriaeth sylfaenol sy'n ymwneud â meysydd datganoledig a'i phrofi gyda rhanddeiliaid er mwyn sicrhau ei bod yn diwallu anghenion pobl Cymru. Credwn yn gryf nad yw'r amser byr a ddyrennir i'r broses cydsyniad deddfwriaethol yn ddigonol er mwyn ein galluogi i ddeall yn llawn beth fydd effaith darpariaethau ar fywydau pobl yng Nghymru. Ein pryder yw y gallai deddfu fel hyn roi pobl yng Nghymru o dan anfantais gan bod llai o gyfleoedd iddynt gyfleu eu barn i'r rhai sy'n gwneud y ddeddfwriaeth, ac nid oes gennym ddigon o amser i ymgynghori â rhanddeiliaid Cymru ar y darpariaethau.

Rwy’n anfon copi o’r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad.



Senedd Cymru
Welsh Parliament

Yn gywir

John Griffiths AS

Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

**Y Pwyllgor Cyllid**
—
**Finance Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCyllid@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCyllid
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddFinance@senedd.wales
senedd.wales/SeneddFinance
0300 200 6565

Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Cadeirydd Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith
Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol
Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol
Cadeirydd, y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai

12 Rhagfyr 2022

Annwyl Gadeiryddion y Pwyllgorau

## Cyllideb Ddrafft 2023-24

Ysgrifennais atoch cyn toriad yr haf mewn perthynas â gwaith ymgysylltu y Pwyllgor Cyllid cyn y Gyllideb a dadl y Pwyllgor yn y Cyfarfod Llawn ar Flaenoriaethau Gwariant Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gyllideb sydd i ddod. Ysgrifennaf yn awr i roi diweddariad pellach ar y gwaith craffu ar y Gyllideb Ddrafft.

### Ymgynghoriad

Ar ddechrau tymor yr hydref, cynhaliodd y Pwyllgor Cyllid ymgynghoriad i geisio gwybodaeth am y Gyllideb Ddrafft ar ran yr holl Bwyllgorau. Cawsom 29 o ymatebion ac mae'r rhain ar gael ar wefan y Pwyllgor Cyllid.

### Amserlen

Fel y gwyddoch, mae Llywodraeth wedi gohirio cyhoeddi ei Chyllideb Ddrafft eto eleni oherwydd Datganiad Hydref y DU a gyhoeddwyd ar 17 Tachwedd. Mae'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol (y Gweinidog) wedi cadarnhau y bydd yn cyhoeddi'r fersiynau amlinellol a manwl o'r Gyllideb Ddrafft gyda'i gilydd ar 13 Rhagfyr. Bydd y Gweinidog yn ymddangos gerbron y Pwyllgor Cyllid ar 14 Rhagfyr am sesiwn dystiolaeth gychwynnol ar y Gyllideb Ddrafft.

Ffocws y Gyllideb

Mae Cyllideb eleni yn debygol o ganolbwyntio ar yr argyfwng costau byw, costau ynni cynyddol a chwyddiant uchel. Yn ogystal, mae'r Pwyllgor Cyllid wedi nodi nifer o feysydd yr ydym am i'r gwaith craffu ganolbwyntio arnynt, sef:

- pa effaith y mae pwysau chwyddiant yn ei chael ar gyllidebau refeniw a chyfalaf a sut mae hyn wedi newid fforddiadwyedd cynlluniau blaenorol;
- sut y dylid targedu adnoddau i gefnogi adferiad economaidd a pha sectorau yn benodol y mae angen eu blaenoriaethu;
- i ba raddau y dylid blaenoriaethu lliniaru newid yn yr hinsawdd wrth gefnogi adferiad economaidd;
- sut mae dyraniadau cyllideb yn cefnogi'r dyheadau yng nghynllun Sero Net Cymru;
- polisïau Llywodraeth Cymru i leihau tlodi ac effaith argyfwng costau byw ac anghydraddoldeb rhywiol;
- y dull gweithredu o ran gwariant ataliol, a sut y cynrychiolir hyn wrth ddyrannu adnoddau (gwariant ataliol = gwariant sy'n canolbwyntio ar atal problemau a lliniaru'r galw am wasanaethau yn y dyfodol, drwy ymyrryd yn gynnar);
- cynaliadwyedd gwasanaethau cyhoeddus, arloesi a gweddnewid gwasanaethau;
- sut y mae tystiolaeth yn llywio gwaith Llywodraeth Cymru o ran pennu blaenoriaethau a dyrannu'r gyllideb;
- sut y dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio pwerau trethu a benthyca;
- cefnogaeth i fusnesau, twf economaidd ac amaethyddiaeth ar ôl cyfnod pontio'r UE;
- beth yw'r cyfleoedd allweddol i fuddsoddiad y Llywodraeth gefnogi 'ailgodi'n gryfach' (h.y. cefnogi economi a gwasanaethau cyhoeddus sy'n cyflawni'n well yn erbyn y nodau llesiant yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol).

Yn ogystal, nodwyd y meysydd canlynol fel blaenoriaethau yn ystod digwyddiadau rhanddeiliaid ac ymgysylltu'r Pwyllgor yn ystod tymor yr haf:

- mynd i'r afael ag anghydraddoldeb a thlodi – beth yw'r blaenoriaethau a pha mor addas yw'r cymorth presennol o ystyried cyfran y bobl sy'n byw mewn tlodi cymharol o ran incwm, yng Nghymru?

- Rhestrau aros y GIG – a oes tystiolaeth o gynllun cadarn, wedi'i ategu gan adnoddau digonol, i fynd i'r afael â'r nifer uchaf erioed o bobl yng Nghymru sydd ar restrau aros ar gyfer triniaeth gan y GIG sydd wedi'i chynllunio neu nad yw'n fater brys, a yw'n amlwg bod hyn yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru?

- plant a phobl ifanc – a yw digon o arian yn cael ei ddarparu a'i gyfeirio'n briodol i gefnogi plant a phobl ifanc y mae'r pandemig wedi effeithio ar eu haddysg, eu datblygiad, eu hiechyd meddwl a'u llesiant?

- materion yn ymwneud â chynaliadwyedd hirdymor y GIG, gofal cymdeithasol, addysg bellach ac uwch, llywodraeth leol a gwasanaethau cyhoeddus eraill, gan gynnwys sut y gallant wneud arbedion effeithlonrwydd a thrawsnewid y ffordd y maent yn darparu gwasanaethau.

- yr economi a seilwaith – a yw'r cynlluniau cywir yn cael eu blaenoriaethu i gefnogi busnesau ac economi Cymru, sut mae Llywodraeth Cymru yn galluogi Cymru i ffynnu ar ôl COVID-19 a Brexit?

- sut y dylai'r Gyllideb fynd i'r afael ag anghenion pobl sy'n byw mewn cymunedau gwledig a datblygu economïau gwledig?

- creu Cymru wyrddach – a yw cynlluniau Llywodraeth Cymru i symud i economi wyrddach yn glir ac a oes digon o fuddsoddiad yn cael ei wneud i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd a'i effeithiau? A oes angen diwygio'r cynlluniau hyn i adlewyrchu'r brys cynyddol i leihau'r ddibyniaeth ar nwy ac olew o ystyried y rhyfel yn Wcráin?

- y trydydd sector a gwirfoddoli – sut y gall Llywodraeth Cymru gefnogi sefydliadau'r trydydd sector wrth iddynt fynd i'r afael â heriau ariannol a galw cynyddol am rai gwasanaethau o ganlyniad i'r argyfwng costau byw a'r pandemig?

- trethiant - sut y dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio ei phwerau codi trethi a benthyca ac a ydych yn teimlo y dylid ehangu'r pwerau hyn, eu cadw'r un fath neu eu lleihau?

Gobeithiwn y bydd yr ymgynghoriad a'r gwaith ymgysylltu yn ategu ac yn llywio gwaith y Pwyllgorau polisi, a byddwn yn eich annog i ddefnyddio rhai o'r meysydd a amlinellir uchod fel ffocws ar gyfer eich gwaith craffu ar y gyllideb.

### Protocol Proses y Gyllideb

Fel y crybwyllwyd, mae Llywodraeth Cymru wedi gohirio cyhoeddi ei Chyllideb Ddrafft eto eleni. Dyma'r bedwaredd flwyddyn yn olynol y bu oedi, sydd wedi arwain at gyfnodau craffu cwtogedig i'r Senedd. Mae'r Pwyllgor Cyllid o'r farn, felly, ei bod yn bryd adolygu Protocol Proses y Gyllideb a gyflwynwyd yn 2017. Mae gan y protocol lawer o fanteision, ond credwn fod angen ei ddiweddaru i

adlewyrchu arferion sefydledig a phrofiadau diweddar, yn enwedig y duedd yn ystod y blynyddoedd diwethaf i Lywodraeth Cymru ohirio cyhoeddi ei Chyllideb Ddrafft oherwydd amseriad digwyddiadau cyllidol y DU. Rwyf wedi ysgrifennu at y Gweinidog yn ddiweddar yn cynnig newidiadau yn y meysydd a ganlyn:

- ffurfioli gwaith ymgysylltu cyn y Gyllideb a gwaith craffu'r Pwyllgor; a
- darparu mwy o sicrwydd mewn perthynas ag amseriad y Gyllideb Ddrafft.

Mae'r Gweinidog eisoes wedi mynegi parodrwydd i ymgysylltu â'r Pwyllgor Cyllid ar y mater hwn, ac rydym yn gobeithio y bydd yn barnu bod y newidiadau hyn yn gymesur. Byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Gadeiryddion y Pwyllgorau ar y mater hwn unwaith y byddaf wedi cael ymateb y Gweinidog. Mae'r Pwyllgor Cyllid yn gobeithio y gellir mynd i'r afael â'r newidiadau hyn a'u rhoi ar waith cyn cylch cyllideb 2024-25.

Os oes gennych gwestiynau am unrhyw agwedd ar broses y Gyllideb Ddrafft, mae croeso i chi gysylltu â mi neu ag Owain Roberts, Clerc y Pwyllgor Cyllid, ar 0300 200 6372 neu yn seneddcyllid@senedd.cymru.

Yn gywir,



Peredur Owen Griffiths
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**
**Minister for Finance and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: RE/807/22

Elin Jones AS
Trwy e-bost: Llywydd@senedd.wales

12 Rhagfyr 2022

Annwyl Lywydd,

**Y Bil Caffael**

Cyflwynwyd y Bil Caffael ("y Bil") yn Senedd y DU ar 11 Mai 2022 a dechreuodd ei daith trwy Dŷ'r Arglwyddi. Gosodais Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol (LCM) gerbron Senedd Cymru ar 9 Mehefin. Wedi hynny, gosodais LCMau ategol ar 11 Gorffennaf a 6 Rhagfyr wrth i'r bil fynd yn ei flaen trwy Senedd y DU.

Cytunwyd ar chwe gwelliant anllywodraethol ar 28 a 30 Tachwedd yng Ngham Adrodd Tŷ'r Arglwyddi. Gan fod y gwaith o ddatblygu LCM ategol ar gyfer gwelliannau'r Llywodraeth a osodwyd gerbron Senedd Cymru ar 6 Rhagfyr mor gymhleth, nid oedd yn bosibl cynnwys y gwelliannau hyn. Caiff LCM ategol sy'n ymdrin â'r gwelliannau anllywodraethol hyn ei osod erbyn 23 Rhagfyr fan hwyraf. Rwy'n cydnabod bod hyn dros bythefnos ers cytuno ar y gwelliant anllywodraethol cyntaf.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, Mick Antoniw AS, y Gweinidog Materion Gwledig a'r Gogledd, a'r Trefnydd, Lesley Griffiths AS a Chadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Huw Irranca-Davies AS, er eu gwybodaeth.

Yn gywir,

Rebecca Evans

**Rebecca Evans AS/MS**
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Y Gwir Anrh/Rt Hon Mark Drakeford AS/MS**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref

Paul Davies AS
Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig
Senedd Cymru
Bae Caerdydd,
CF99 1SN
SeneddEconomy@senedd.wales

12 Rhagfyr 2022

Annwyl Paul,

Diolch am eich llythyr ar 21 Tachwedd yn ymwneud â sut mae Llywodraeth Cymru'n cefnogi a hyrwyddo seiberddiogelwch a'r diwydiant yn ehangach.

Fel y gwnaethoch gyfeirio yn eich llythyr, mae seiber yn faes sy'n newid yn gyflym gyda datblygiadau ac arloesi newydd cyson. Rwy'n cydnabod pwysigrwydd seiberddiogelwch a'i fod yn rhychwantu sawl maes, gan greu 'eco-system' sy'n rhoi cyfle i ddod â manteision i'n dinasyddion, gwasanaethau cyhoeddus a'n heconomi. Am y rheswm hwn, fel yr amlinellir yn ein Strategaeth Ddigidol i Gymru rydym yn datblygu Cynllun Gweithredu Seiber i Gymru fydd yn creu datganiad cydlynol o uchelgais a gweithgarwch ar seiber yng Nghymru.

Mae seiber eisoes yn gryfder mawr yng Nghymru. Mae gennym un o'r ecosystemau seiber mwyaf yn y DU, ac un o'r cryfaf yn Ewrop diolch i'n partneriaethau rhwng diwydiant, y byd academaidd a'r llywodraeth. Fel y nodwyd yn adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, mae Strategaeth Ryngwladol Llywodraeth Cymru yn nodi bod seiber yn un o dair o ganolfannau rhagoriaeth Cymru. Yn dilyn cyhoeddi'r Strategaeth Ryngwladol mae '*Perthnasoedd a rhwydweithiau rhanbarthol sy'n cael blaenoriaeth 2020 i 2025'*, hefyd yn amlinellu sut y byddwn yn defnyddio seiber i gryfhau ein cysylltiadau â rhanbarthau sydd â synergeddau gyda'n gwaith.

O ran yr Ail Brotocol Ychwanegol i Gonfensiwn Cyngor Ewrop ar Seiberdroseddu, rydym yn nodi adroddiad y Pwyllgor ac yn cytuno ar gamau gweithredu. Fel yr ydych yn tynnu sylw ato, mae atal, canfod ac ymchwilio i droseddau yn faterion sydd wedi'u cadw'n ôl. Mae fy nghyfrifoldebau fel y Prif Weinidog yn cynnwys diogelwch cenedlaethol, gan gynnwys gwrth-

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

derfysgaeth a seiberddiogelwch ac rydym yn cymryd camau hanfodol i leihau'r risgiau seiber i Gymru. Fel y cyhoeddais yn CYBERUK22, mae gwaith yn mynd rhagddo i gaffael a sefydlu Canolfan Gweithrediadau Seiberddiogelwch (CymruSOC) ar gyfer 18 Awdurdod Lleol Cymru a 3 Gwasanaeth Tân ac Achub. Bydd CymruSOC yn dwyn ynghyd y gwasanaethau hyn gyda'r Llywodraeth, y Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol (NCSC), ac arbenigwr technegol, gan alluogi lefel o wybodaeth a rhannu adnoddau a fydd yn caniatáu dull 'Amddiffyn fel Un' cryf.

Gwnaethoch holi pa waith rydym wedi'i wneud i uwchsgilio ein gweithlu ar risg gwirioneddol, llywodraethu a sgiliau polisïau seiberddiogelwch.  Mae ein Strategaeth Ddigidol i Gymru yn amlinellu ein nod o greu gweithlu sydd â'r sgiliau digidol, y gallu a'r hyder i ragori yn y gweithle ac mewn bywyd bob dydd. Rydym yn gweld sgiliau seiber yn rhan bwysig o gyflawni'r nod hwn ac wrth ddatblygu'r Cynllun Gweithredu Seiber, rydym yn edrych ar sut i ddefnyddio manteision ein hymyriadau lluosog sy'n bodoli eisoes, i ddenu a datblygu'r sgiliau seiber sydd eu hangen arnom fel cenedl drwy feithrin talent seiber o oedran ysgol hyd at y gweithlu.

O safbwynt y llywodraeth a gwasanaethau cyhoeddus, rydym yn gweithio'n agos â'r NCSC i ddarparu arweinyddiaeth i sefydliadau ledled Cymru, yn enwedig yn y sector cyhoeddus, i ddefnyddio a chymhwyso cyngor ac arweiniad yr NCSC. Bydd hyn yn helpu i gadw ein dinasyddion yn ddiogel a'u diogelu ar-lein ac, yn hollbwysig, sicrhau bod ein gwasanaethau cyhoeddus yn ddiogel a bod pobl yn ymddiried ynddynt.   Rydym yn gweithio gyda'n gwasanaethau cyhoeddus i annog diwylliant sefydliadol lle mae seiber yn fusnes i bawb, o arweinyddion i'r rheng flaen. Rydym wedi bod yn gweithio gyda byrddau gweithredol ar draws y sector cyhoeddus, drwy ein benthyciad allanol unigryw o swyddog i'r NCSC, i'w hysbysu o'u cyfrifoldebau seiberddiogelwch a gwydnwch. Yn ogystal â'r gwaith hwn, rydym yn darparu fersiwn wedi'i hwyluso o fodel Ymarferiad Blwch NCSC i gyrff sector cyhoeddus Cymru ac rydym yn cynnal cynllun peilot i feithrin mwy o ddilyniant o Fframwaith Asesu Seiber (CAF) NCSC.

Rydym yn darparu tystysgrif NCSC Cyber Essentials/Essentials + i dros 20% o gwmnïau cyfreithiol o Gymru a bydd y model hwn yn cael ei wylio'n agos er mwyn canfod a fyddai'n bosibl ei ddefnyddio mewn sectorau eraill yng Nghymru.

I'r rhai o oedran ysgol, efallai eu bod yn ymwybodol o'r rhaglen CyberFirst ehangach sydd wedi'i chynllunio i nodi a meithrin ystod amrywiol o bobl ifanc dalentog i yrfa ym maes seiberddiogelwch.  Rydym yn gweithio'n agos gyda'r NCSC i godi ymwybyddiaeth o'r cyfleoedd seiber i ddysgwyr ac ysgolion yng Nghymru.  Yn 2020, gwnaethom gefnogi'r NCSC i dreialu'r cynllun Ysgolion/colegau CyberFirst. Mae ysgolion a cholegau o bob cwr o Gymru wedi cael cydnabyddiaeth CyberFirst ar lefelau Aur, Arian ac Efydd.

Drwy ein gwaith gyda'r NCSC rydym yn awr wedi sicrhau cyllid i gefnogi'r gwaith o gyflwyno rhaglen CyberFirst Ysgolion ledled y wlad yn dilyn darpariaeth gref mewn ardaloedd braenaru yng Nghymru. Bydd hyn yn cael ei weithredu gan y Ganolfan Ecsbloetio Ddigidol Genedlaethol (NDEC) mewn cydweithrediad â Phrifysgol De Cymru. Bydd y fenter ddigidol / codio hon sy'n edrych ar wella'r sgiliau TG seiberddiogelwch i ddysgwyr yn lansio yn 2023 ac yn cael ei darparu mewn ysgolion ar y cyd â Technocamps.

Mae gan Gymru arlwy addysg uwch gref gyda phartneriaethau rhwng prifysgolion a diwydiant i ddatblygu myfyrwyr ar y llwybr tuag at yrfa ym maes seiber.  Mae cynnig mentrau achrededig, o safon fyd-eang a ffurfio partneriaeth gyda diwydiant yn golygu bod Cymru'n lle deniadol i fyfyrwyr astudio a dilyn llwybr i yrfa ym maes seiber.

Mae hyn hefyd yn cael ei gefnogi gan brentisiaethau Seiberddiogelwch yng Nghymru sy'n ymateb i brinder sgiliau rhanbarthol a chenedlaethol ac yn helpu i sbarduno ymwybyddiaeth a diddordeb yn y sector.

Mae gennym ddarpariaeth TG a phrentisiaethau digidol helaeth yng Nghymru, gyda naw rhaglen is-radd (lefelau 2, 3, 4 a 5) a thri fframwaith prentisiaeth lefel gradd, gan gynnwys Prentisiaeth Gradd Seiberddiogelwch.

I uwchsgilio oedolion, mae ein rhaglen cyflogadwyedd i oedolion ReAct + yn cynnig cefnogaeth unigol i oedolion di-waith 18+ a allai gynnwys pobl sy'n gadael y coleg a'r brifysgol sydd wedi astudio seiberddiogelwch.  Gall hyn helpu i roi hwb i gyflogadwyedd pobl yn y diwydiant seiberddiogelwch ar ôl cymhwyso.


Hefyd, cefnogir y Ganolfan Arloesedd Seiber gan ein buddsoddiad o £3 miliwn a wnaed gan Lywodraeth Cymru dros 2 flynedd, gyda £3 miliwn o gyllid ar y cyd gan Brifddinas-Ranbarth Caerdydd a £3.5 miliwn o gyllid cyfatebol mewn nwyddau gan bartneriaid consortiwm.  Bydd hyn yn cefnogi yr agenda sgiliau seiber yn helaeth a chyflogadwyedd i Gymru gyda'i nod o hyfforddi mwy na 1,500 o unigolion seiber-fedrus a datblygu'r sector seiberddiogelwch yng Nghymru dros 50% erbyn 2030. Mae'r Ganolfan yn dod â phartneriaid ym myd diwydiant, y llywodraeth, amddiffyn ac academaidd ynghyd i ddatblygu sector seiberddiogelwch Cymru, gan alluogi Cymru i fanteisio ar y twf disgwyliedig yn y sector yn y DU, ac yn fyd-eang, drwy fuddsoddi mewn dull cydgysylltiedig o sgiliau, arloesi a chreu mentrau newydd. Bydd y fenter hon yn ein cefnogi i sicrhau bod gennym gronfa o dalent yn barod i ateb galw sector sy'n tyfu a rhoi cyfleoedd i bobl ddatblygu sgiliau ar gyfer sector a allai gynnig gyrfa gydol oes. Bydd dull y Ganolfan o fynd i'r afael â heriau arloesi o dan arweiniad y farchnad a sbarduno datblygiad datrysiadau newydd, arloesol yn gyflym yn helpu i gefnogi a darparu cyfleoedd ym maes seiber ac mae hon yn un rhan o ecosystem seiber gref sy’n datblygu yng Nghymru.

Gwnaethoch hefyd holi a yw Llywodraeth Cymru yn cymryd unrhyw gamau i annog mwy o fenywod i'r sector seiber. Rydym yn ymwybodol mai un feirniadaeth drwy’r llwybr gyrfa seiber yw amrywiaeth a phwysigrwydd datblygu gweithlu amrywiol, sy'n adlewyrchu ein cymdeithas yng Nghymru. Rydym yn cefnogi, drwy ymgysylltu â'n sianeli cyfathrebu ag ysgolion, Cystadleuaeth Merched CyberFirst blynyddol yr NCSC. Gall ysgolion gystadlu gyda thimau o ferched Blwyddyn 8 mewn heriau ar thema seiber sydd wedi'u cynllunio i ysgogi diddordeb mewn gyrfaoedd technoleg a chynyddu'r nifer o fyfyrwyr benywaidd sy'n astudio pynciau TGAU Cyfrifiadura. Mae gan Gymru hefyd un o'r 'Menywod mewn Clystyrau Seiber' mwyaf gweithgar sy'n ymwneud yn rheolaidd â chynadleddau'r DU ac Ewrop i drafod y pwnc a'i waith yng Nghymru.

Rydym yn cydnabod y gellir gwneud mwy ynghylch amrywiaeth y gweithlu seiber ac annog menywod i'r sector, ac mae hyn yn cael ei ystyried fel rhan o ddatblygiad y Cynllun Gweithredu Seiber.

Yn olaf, mae eich llythyr yn gofyn am werthu cyfran Nexperia BV yn Nexperia Newport Limited.  Ein blaenoriaeth ar hyn o bryd yw diogelu dyfodol y cannoedd o swyddi hynod fedrus yng Nghasnewydd.  Rydym yn parhau i fod yn gwbl ymrwymedig i sicrhau datblygiad parhaus ein clwstwr lled-ddargludyddion cyfansawdd yn ne Ddwyrain Cymru a'r rôl y mae'n ei chwarae ar raddfa ehangach yn y DU. Yng ngoleuni penderfyniad Llywodraeth y DU, mae gweinidogion y DU bellach yn amlwg yn gweld y sector lled-ddargludyddion cyfansawdd yng Nghymru fel ased cenedlaethol strategol yn ogystal â’i fod yn cael ei gydnabod yn rhyngwladol. Rydym felly'n galw ar Lywodraeth y DU i fuddsoddi yn y sector i ddiogelu ei ddyfodol. Nid oes gennym gyfrifoldebau diogelwch cenedlaethol, ac nid oes gennym unrhyw wybodaeth am y rhesymau pam y daeth llywodraeth y DU i'r casgliad a wnaeth. Yr hyn rwy'n gredu sydd wedi dod yn llawer cliriach yn sgil y penderfyniad yw nad

yw gwerthiant y cwmni yn mynd i ddigwydd yn gyflym. Mae'r buddsoddiad fydd ei angen i symud Nexperia - neu'r olynydd i Nexperia - o waith gweithgynhyrchu sglodynod ar gyfer cwsmeriaid Nexperia i un sy'n cynhyrchu lled-ddargludyddion eraill i berchennog newydd hefyd yn debygol o gymryd cannoedd o filiynau o bunnau. Mae hwn yn benderfyniad canlyniadol iawn, a BEIS fydd nawr yn gorfod helpu i ddelio â chanlyniadau'r penderfyniad hwnnw. Mae mater Nexperia a sut y mae symud i berchnogaeth newydd i gael ei gefnogi yn fater i lywodraeth y DU rwy’n credu gan mai hwy wnaeth y penderfyniad yn y lle cyntaf.



**MARK DRAKEFORD**

**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**
—
**Economy, Trade and Rural Affairs Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddEconomi@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddEconomi
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEconomy@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEconomy
0300 200 6565

Mark Drakeford AS
Prif Weinidog

21 Tachwedd 2022

Annwyl Mark,

Rwyf yn ysgrifennu yn dilyn adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar Gytundebau Rhyngwladol a ystyriwyd ar 26 Medi 2022. Bu'r adroddiad yn trafod, ymhlith cytundebau rhyngwladol eraill, yr Ail Brotocol Ychwanegol i Gonfensiwn Cyngor Ewrop ar Seiberdroseddu ac yn tynnu sylw at eich rôl mewn perthynas â "diogelwch gwladol gan gynnwys gwrthderfysgaeth a seiberddiogelwch".

Mae seiberddiogelwch yn faes sy'n datblygu'n gyflym, gyda llawer o gyfleoedd. Rwy'n edrych ymlaen at ddilyn datblygiad Canolfan Seiberddiogelwch newydd De Cymru. Bydd sector seiberddiogelwch cryf yn dod â swyddi o ansawdd uchel ac yn cefnogi llu o fusnesau arloesol.

Yn ogystal â bod yn ddiwydiant sy'n llawn bwrlwm sy'n dod i'r amlwg yn ei rhinwedd ei hun, mae seiberddiogelwch wrth gwrs hefyd yn gwbl hanfodol ar gyfer diogelu ein busnesau a chyrff y sector cyhoeddus rhag niwed posibl. Yn hynny o beth, mae'n hanfodol ein bod yn sicrhau bod gan Gymru weithlu seiberddiogelwch medrus iawn.

Yn dilyn ymlaen o adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, byddwn yn awyddus i glywed eich barn am yr Ail Brotocol Ychwanegol i Gonfensiwn Cyngor Ewrop ar Seiberdroseddu.

Hoffwn hefyd gael rhagor o fanylion am y ffordd y mae Llywodraeth Cymru'n cefnogi ac yn hybu seiberddiogelwch a'r diwydiant yn ehangach. A fyddech cystal â rhoi gwybod i mi:


Senedd Cymru
Welsh Parliament

- Yn ogystal â'r gefnogaeth ariannol i'r Ganolfan, pa waith y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud i ddatblygu sgiliau ein gweithlu yn ymwneud â risg real, llywodraethu a sgiliau seiberddiogelwch polisi?
- A oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw gynlluniau i helpu i roi hwb i gyflogadwyedd pobl yn y diwydiant seiberddiogelwch ar ôl cymhwyso?
- Ar hyn o bryd, dynion sy'n gweithio yn y sector seiberddiogelwch yn bennaf. A fydd Llywodraeth Cymru'n cymryd unrhyw gamau i annog mwy o fenywod i weithio yn y sector?

Nodaf hefyd fod Llywodraeth y DU wedi gorchymyn Nexperia BV i werthu 86 y cant o'i gyfran yn Nexperia Newport Limited, y gwneuthurwr lled-ddargludyddion yng Nghasnewydd a enwyd yn flaenorol yn Wafer Fab. Cyfeiriodd y gorchymyn at ddau reswm dros y gwerthiant gorfodol:

- Technoleg a gwybodaeth ymarferol a allai ddeillio o ailgyflwyno gweithgareddau lled-ddargludyddion cyfansawdd posibl ar safle Casnewydd, a'r potensial i'r gweithgareddau hynny danseilio galluoedd y DU; a
- Gallai lleoliad y safle hwyluso mynediad at arbenigedd technolegol a gwybodaeth ymarferol yng Nghlwstwr De Cymru ("y Clwstwr"), a gall y cysylltiadau rhwng y safle a'r Clwstwr atal y Clwstwr rhag bod yn rhan o brosiectau sy'n berthnasol i ddiogelwch cenedlaethol yn y dyfodol.

Nodaf o'r sylw yn y newyddion y dywedodd Llywodraeth Cymru fod cyhoeddiad Llywodraeth y DU wedi dod ag eglurder sydd i'w groesawu, ac mai ei blaenoriaeth yw diogelu swyddi. Gan y byddwch chi nawr wedi cael amser i ystyried ffeithiau'r mater, allech chi nodi unrhyw oblygiadau fel rydych chi'n eu gweld nhw o'r gwerthiant hwn ac unrhyw gamau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd o ganlyniad i hynny?

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Huw Irranca-Davies AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad a Delyth Jewell AS, Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol.

Cofion cynnes,



Paul Davies AS



Senedd Cymru
Welsh Parliament

Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg | We welcome correspondence in Welsh or English.

**Vaughan Gething AS/MS**
**Gweinidog yr Economi**
**Minister for Economy**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref:3654/22

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd, Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

14 Rhagfyr 2022

Annwyl Huw,

Diolch ichi am ddarparu copi i mi o adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru mewn perthynas â Bil Masnach (Awstralia a Seland Newydd).

Rwyf wedi ystyried argymhellion yr adroddiad ac wedi amlinellu fy ymatebion isod:

**Argymhelliad 1. Dylid ceisio cydsyniad y Senedd ar gyfer cymal 4 a pharagraff 4 o Atodlen 2 hefyd, a dylai unrhyw femoranda yn y dyfodol mewn perthynas â'r Bil eu nodi yn unol â hynny.**

Rwy'n derbyn bod paragraff 4 o Atodlen 2 yn gofyn am gydsyniad, ac ysgrifennais at y Pwyllgor ar y 25 Awst i gadarnhau hyn. O ran cymal 4, mae cymal 4 yn ddarpariaeth dechnegol sy'n ymwneud â sut mae'r gyfraith yn cael ei dwyn i rym yn hytrach na sylwedd y rheolau a osodir yn y gyfraith, fel mater o arfer nid ydym yn gyffredinol yn cynnwys y cymalau technegol hyn o fewn Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol.

**Argymhelliad 2. Dylai'r Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am hynt y Bil drwy Senedd y DU.**

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn ac wedi cyfarwyddo fy swyddogion i sicrhau bod y Pwyllgor yn cael gwybod yn rheolaidd am hynt y Bil drwy Senedd y DU.

**Argymhelliad 3. Dylai'r Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ei ymgysylltiad â Llywodraeth y DU o fewn tair wythnos ar ôl dyddiad gosod yr adroddiad hwn.**

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn. Rwy'n deall bod y pwyllgor yn siomedig nad oedd ateb wedi bod i'r llythyr yr oeddwn wedi ei ysgrifennu ym mis Mai. Roedd sawl newid mewn swyddi Gweinidogol yn yr Adran Masnach Ryngwladol yn ystod y cyfnod hwn, ond rwy'n falch o gadarnhau imi gyfarfod â'r Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol yn ddiweddar (y Gweinidog Masnach Ryngwladol), Nigel Huddleston AS, i drafod y Bil.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN


Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Roedd yn gyfarfod adeiladol, ac fe godais y pryderon sydd gennym gyda'r Bil. Roedd cytundeb y byddai cyfarfodydd amlach yn cael eu cynnal er mwyn sicrhau y gallwn barhau â'r ddeialog ar y Bil hwn.

Hyderaf fod yr ymatebion yn ddefnyddiol i'r Pwyllgor.

Yn gywir,



**Vaughan Gething AS/MS**
Gweinidog yr Economi
Minister for Economy

**Hannah Blythyn AS/MS**
**Y Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol**
**Deputy Minister for Social Partnership**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

15 Rhagfyr 2022

Annwyl Huw,

**Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru)**

Yn ystod y ddadl Egwyddorion Cyffredinol ar y Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) ar 29 Tachwedd 2022, dywedais y byddwn yn ysgrifennu atoch i gadarnhau mewn mwy o fanylder ymatebion Llywodraeth Cymru i argymhellion eich Pwyllgor.

Cadarnheais yn y ddadl na fyddai Llywodraeth Cymru yn derbyn argymhelliad 1 oherwydd nad ydym yn ei hystyried yn briodol cynnwys yn adran dehongli y Bil ddiffiniad a nodir yn rhywle arall dim ond mewn canllawiau statudol. Mae'r canllawiau y cyfeirir atynt wedi'u cyhoeddi o dan bŵer (yn hytrach na dyletswydd) ar wahân mewn Deddf arall ac mae iddynt ddiben penodol nad yw o bosibl yn cyd-fynd â'r dyletswyddau o dan y Bil hwn. Yn wir, mae'n bosibl y gallai'r canllawiau hynny newid yn y dyfodol neu gallent, o bosibl, gael eu tynnu'n ôl gan un o Lywodraethau'r dyfodol. Fel y dywedais yn y Cyfarfod Llawn, mae'r Bil yn darparu i Weinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau i gyrff cyhoeddus ar weithredu'r Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol a dyna'r ffordd briodol o ddelio â materion fel hyn.

Mae argymhelliad 2 wedi'i dderbyn. Byddwn yn datblygu ac yn cyhoeddi cyngor i gynorthwyo unigolion a sefydliadau i wella eu dealltwriaeth o waith teg, a'u hymwybyddiaeth o fanteision gwaith teg, ac enghreifftiau o gamau y gall sefydliadau eu cymryd i hybu gwaith teg. Bydd y cyngor hwn o ddiddordeb penodol i'r sefydliadau hynny sy'n ddarostyngedig i ddarpariaethau Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) a'r undebau llafur sy'n cynrychioli gweithwyr yn y sefydliadau hynny. Fodd bynnag, rydym hefyd yn bwriadu gwneud y cyngor o ddiddordeb ehangach i fusnesau, cyflogwyr ac undebau llafur yn fwy cyffredinol.

Nodais fy rhesymau dros wrthod argymhelliad 3 yn ystod y ddadl. Ni fyddwn yn cymhwyso'r weithdrefn negyddol i'r pŵer i gyhoeddi'r cod allanoli gwasanaethau cyhoeddus a'r gweithlu oherwydd nad yw'r Cod yn ddeddfwriaethol, felly ni fyddai'n briodol iddo gael ei wneud yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol fel pe bai ganddo rym deddfwriaethol. Bydd y Cod

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Hannah.Blythyn@llyw.cymru
Correspondence.Hannah.Blythyn@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

fodd bynnag yn ddarostyngedig i ymgynghoriad ehangach, a fydd yn helpu i sicrhau ei fod yn targedu'r gynulleidfa y mae'n cyfeirio ati.

Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn argymhellion 4 a 5 a bydd yn cyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i ychwanegu at y Bil ddyletswydd benodol i ymgynghori mewn perthynas â'r Cod i'w gwneud o dan adran 32 a'r canllawiau i'w gwneud o dan adran 31.

Ni dderbynnir argymhelliad 6 am y rhesymau a nodais yn y Cyfarfod Llawn, sef y byddwn yn datblygu'r Cod mewn partneriaeth gymdeithasol ac mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid. Er mwyn gwneud hyn bydd angen inni ymgysylltu â'r grwpiau hyn o'r dechrau. Mae'r dull gweithredu hwn yn golygu na fyddwn mewn sefyllfa i gyhoeddi fersiwn ddrafft o'r Cod cyn i Gyfnod 3 fynd rhagddo ym mis Mawrth.

Dywedais yn ystod y ddadl y byddwn yn darparu rhagor o fanylion ynghylch pam mae argymhellion 7 ac 8 wedi'u gwrthod. Mae'r argymhellion hyn yn gofyn inni ddiwygio'r Bil fel bod y rheoliadau sydd i'w gwneud o dan adran 38(3)(a) a 38(3)(b) yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol, yn hytrach nag i'r weithdrefn negyddol. Mae'r Pwyllgor yn ymwybodol bod y Gweinidogion, wrth bennu pa weithdrefn sydd fwyaf priodol, yn cymhwyso'r egwyddorion a nodir yng Nghanllawiau Llywodraeth Cymru ar is-ddeddfwriaeth: gweithdrefn gadarnhaol ddrafft neu negyddol y cynulliad.

Bydd unrhyw reoliadau a wnawn o dan 38(3)(a) a 38(3)(b) at ddiben darparu manylion unrhyw faterion pellach (ar ben y rhai sydd eisoes wedi'u nodi yn adran 38(1) a (2)) y mae'n rhaid i strategaethau caffael awdurdodau contractio eu cynnwys. Yn ei hanfod, cytundeb i baratoi at y dyfodol yw hwn i sicrhau bod unrhyw newidiadau mewn arferion caffael – a fydd o bosibl yn gorfod cael eu gwneud oherwydd newidiadau statudol ehangach nad oes gan Lywodraeth Cymru ddisgresiwn drostynt – yn gallu cael eu cymhwyso pe byddai angen. Rydym wedi ein bodloni bod y weithdrefn negyddol yn darparu digon o gyfle i graffu'n ddemocrataidd ar unrhyw reoliadau a wneir wrth arfer y pŵer hwn.

I gloi, mewn perthynas ag argymhelliad 9, hoffwn ymddiheuro eto i'r Pwyllgor: cafodd y cyfeiriad at 'gonfensiwn' yn fy llythyr ar 15 Hydref ei gynnwys mewn camgymeriad ac rwy'n cydnabod nad oes y fath gonfensiwn yn bodoli.

Gobeithio y bydd yr wybodaeth yn y llythyr hwn yn ddefnyddiol i'r Pwyllgor. Byddaf hefyd yn gwneud yn siŵr y rhoddir gwybod i Glerc y Pwyllgor cyn gynted ag y bydd gwelliannau'r llywodraeth yng Nghyfnod 2 wedi'u cyhoeddi ar y dudalen we Dogfennau a Osodwyd.

Er gwybodaeth, mae copïau ynghlwm o'r llythyrau yr wyf wedi'u hanfon at gadeiryddion y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol a'r Pwyllgor Cyllid, ac rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at gadeiryddion y ddau Bwyllgor hynny hefyd.

Yn gywir,

**Hannah Blythyn AS/MS**
Y Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol
Deputy Minister for Social Partnership

**Jeremy Miles AS/MS**
**Gweinidog y Gymraeg ac Addysg**
**Minister for Education and Welsh Language**

Eitem 7.8

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA/JMEWL/3567/22

Elin Jones AS
Llywydd Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN
Llywydd@senedd.cymru

Jayne Bryant AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Senedd Cymru
SeneddPlant@senedd.cymru

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
SeneddDCC@senedd.cymru

16 Rhagfyr 2022

Annwyl Llywydd, Jayne a Huw,

Yn dilyn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bill Ysgolion a osodais ar 7 Gorffennaf 2022, rwy'n ysgrifennu atoch i'ch hysbysu, er i'r Cam Adrodd ddod i ben yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 18 Gorffennaf, bod fy swyddogion wedi cael gwybod na fydd y Bil yn mynd ymlaen i'r trydydd darlleniad. Felly, nid oes angen y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol mwyach.

Hoffwn ddiolch i Aelodau'r Senedd, y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad a'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg am eu hystyriaeth o'r mater hwn. Rwyf wedi ystyried adroddiadau'r Pwyllgorau, ond nid wyf bellach yn bwriadu ymateb iddynt yn ffurfiol.

Bydd fy swyddogion yn parhau i weithio gyda'r Adran Addysg ac os oes unrhyw gynlluniau i gyflwyno Bil tebyg, byddaf wrth gwrs yn rhoi gwybod i chi a'r Aelodau.

Rwyf wedi anfon copi o'r llythyr hwn at Mick Antoniw AS, y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, Lesley Griffiths AS, y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru a'r Trefnydd, ac Aelodau'r Senedd.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru
Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yn gywir

**Jeremy Miles AS/MS**
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg
Minister for Education and Welsh Language

**Eluned Morgan AS/MS**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd,
Caerdydd,
CF99 1SN

SeneddDCC@senedd.cymru

19 Rhagfyr 2022

Annwyl Huw,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 9 Rhagfyr 2022 ynglŷn â Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Ymwelwyr Tramor) (Diwygio) (Rhif 4) (Cymru) 2022.

Mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi'r rhan fwyaf o'i dogfennau yn Gymraeg o dan ofynion Safonau'r Gymraeg ("y Safonau"). Yna ceir proses flaenoriaethu ar gyfer nifer fach o ddogfennau o dan ofynion y Safonau, er mwyn sicrhau ein bod ni'n rhoi blaenoriaeth i'r dogfennau a fydd yn cael yr effaith fwyaf ar ddefnyddwyr. Mae hyn yn cynnwys Memoranda Esboniadol sy'n cyd-fynd ag Offerynnau Statudol. O dan ofynion Safon 47 caniateir inni ystyried pwnc y ddogfen, ynghyd â'r gynulleidfa a ragwelir ar gyfer y ddogfen er mwyn gwneud y defnydd gorau o'n hadnodd cyfieithu, a hynny mewn ffordd resymol a chymesur.

Mae swyddfa Comisiynydd y Gymraeg wedi rhoi canllawiau defnyddiol ar ymgymryd â'r broses hon i benderfynu a yw dogfen yn ddarostyngedig i Safon 47 yn y Cod Ymarfer i Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015. Mae'r broses yn seiliedig ar y cwestiynau canlynol a restrir yn y Cod Ymarfer:

- A yw pwnc y ddogfen yn ymwneud â mater sy'n berthnasol i nifer fawr o bersonau?
- A yw pwnc y ddogfen yn ymwneud â mater sy'n effeithio ar, neu o bwys i, nifer fawr o bersonau?
- A yw pwnc y ddogfen yn ymdrin â materion ynghylch yr iaith Gymraeg (e.e. addysg cyfrwng Cymraeg)?
- A yw pwnc y ddogfen yn ymwneud â maes sydd o ddiddordeb arbennig o ran y Gymraeg (e.e. addysg / tai / gofal iechyd / celfyddydau / economi)?
- A yw'r ddogfen yn un fydd yn cael ei harddangos yn gyhoeddus?

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

- A yw pwnc y ddogfen yn debygol o fod o ddiddordeb cyffredinol i bersonau sy’n siarad Cymraeg?
- A ydych yn gwybod bod canran neu nifer fawr o’r gynulleidfa a ragwelir yn siaradwyr Cymraeg?
- A oes mwy nag un person wedi gofyn bod y ddogfen ar gael yn Gymraeg?
- A yw’r ddogfen yn un sy’n debygol o ennyn ymateb a sylw cyhoeddus (e.e. ar y cyfryngau cymdeithasol)?
- A yw’r ddogfen yn un y mae gofyn i bersonau ymateb iddi?
- A yw’r gynulleidfa darged yn cynnwys personau (fel grwpiau a sefydliadau) y mae’r Gymraeg yn ystyriaeth bwysig iddynt neu sy’n gweithredu yn Gymraeg?
- A yw’r gynulleidfa darged o fewn ardal sydd â chanran neu nifer fawr o siaradwyr Cymraeg?

Wrth ystyried y Memorandwm Esboniadol hwn, fe wnaethom hefyd ystyried y cynsail a osodwyd gan Femoranda Esboniadol sy’n cyd-fynd â thri diwygiad arall i’r Rheoliadau hyn a wnaed yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ac na chafodd eu gosod yn Gymraeg. Roeddem hefyd o’r farn nad yw’r bobl sy’n cael eu heffeithio gan y diwygiadau a wneir i’r Rheoliadau yn debygol o siarad Cymraeg (h.y. ymwelwyr o Malta a Beilïaeth Guernsey sy’n defnyddio gwasanaethau’r GIG yng Nghymru). Mae nifer o ddogfennau a gynhyrchir gan Lywodraeth Cymru at sylw staff mewn Byrddau Iechyd Lleol yn cael eu cynhyrchu yn uniaith Saesneg. Mae hyn oherwydd nad ydynt yn ddogfennau a gynhyrchir i’w trafod gyda chleifion / defnyddwyr gwasanaethau, a’u bod yn aml o natur dechnegol, arbenigol ac o ddiddordeb i gynulleidfa gyfyng iawn o fewn y sefydliadau hynny.

Ystyrir Byrddau Iechyd Lleol Cymru yn gynulleidfa darged fach, gan mai nifer fach iawn o bobl sy’n gweithio ym mhob un o saith Bwrdd Iechyd Lleol Cymru a fyddai’n edrych ar y Rheoliadau hyn, yn benodol y rhai sy’n arwain ar broses a pholisi ymwelwyr tramor.

Hyderaf fod hyn yn ateb eich ymholiad ac yn rhoi sicrwydd ein bod yn cymryd agwedd resymol a chymesur iawn tuag at ddyrannu ein hadnoddau cyfieithu er mwyn gwneud y defnydd gorau o’r adnoddau hynny.

Yn gywir,



**Eluned Morgan AS/MS**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
—
Legislation, Justice and Constitution Committee

Senedd Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565
—
Welsh Parliament
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Eluned Morgan AS
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

9 Rhagfyr 2022

Annwyl Eluned

Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Ymwelwyr Tramor) (Diwygio) (Rhif 4) (Cymru) 2022

Fe wnaethom drafod Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Ymwelwyr Tramor) (Diwygio) (Rhif 4) (Cymru) 2022 yn ein cyfarfod ar 5 Rhagfyr 2022.

Fe wyddoch chi fod ein hadroddiad yn cynnwys dau bwynt adrodd o ran rhinweddau, a nododd yr ail ohonynt fod y Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau wedi'i osod yn Saesneg yn unig, a fe wnaethom ofyn i Lywodraeth Cymru roi esboniad.

Dywedwyd yr hyn a ganlyn wrthym fel ymateb:

> *"Rhoddir blaenoriaeth i gyhoeddi Memoranda Esboniadol ar gyfer is-ddeddfwriaeth yn Gymraeg (yn unol â Safon 47 o Safonau'r Gymraeg). Cyhoeddir fersiwn Gymraeg os bydd pwnc y Memorandwm Esboniadol yn awgrymu y dylai fod ar gael yn Gymraeg, neu os bydd y gynulleidfa a ragwelir yn disgwyl gweld fersiwn Gymraeg. Yn yr achos hwn, barnodd Llywodraeth Cymru fod fersiwn Gymraeg o'r Memorandwm Esboniadol yn ddiangen oherwydd natur gyfyng a phenodol y Rheoliadau a'r gynulleidfa darged fach (h.y. Byrddau Iechyd Lleol Cymru)."*

Er ein bod yn ein hadroddiad wedi cydnabod bod Rheol Sefydlog 15.4 yn ei gwneud yn ofynnol i bob dogfen a osodwyd fod yn ddwyieithog "cyn belled ag y bo'n briodol o dan yr amgylchiadau ac yn rhesymol ymarferol", byddem yn croesawu eglurder pellach pam fod Llywodraeth Cymru yn ystyried bod y byrddau iechyd lleol yng Nghymru yn gynulleidfa darged fach, yn eu barn hwy.

Byddem yn croesawu cael ymateb erbyn 3 Ionawr 2023.

Yn gywir,

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd, Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

SeneddLJC@senedd.wales

22 Rhagfyr 2022

Annwyl Huw

**Datganiad Ysgrifenedig a osodwyd dan Reol Sefydlog 30C – Rheoliadau Anifeiliaid ac Iechyd Anifeiliaid, Bwyd Anifeiliaid a Bwyd, Planhigion ac Iechyd Planhigion (Diwygio) 2022**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 7 Rhagfyr ynglŷn â'r Datganiad Ysgrifenedig a osodwyd ar 21 Tachwedd a'r wybodaeth a ddarparwyd i'r Pwyllgor ond nid yn y Datganiad Ysgrifenedig.

Diben y Datganiad Ysgrifenedig a osodwyd ar 21 Tachwedd oedd cywiro'r cofnod drwy dynnu yn ôl y Datganiad Ysgrifenedig gwreiddiol a osodwyd mewn camgymeriad ar 21 Hydref, gan ei ddisodli gyda fersiwn diwygiedig a'ch hysbysu ynghylch gosod SICM gerbron y Senedd.

Rwy'n cadarnhau'r ymrwymiad yn fy llythyr ar 21 Tachwedd i sicrhau, o ran Datganiadau Ysgrifenedig newydd, y bydd gwybodaeth berthnasol a ddarperir i bwyllgorau yn cael ei chynnwys mewn Datganiadau Ysgrifenedig yn y dyfodol, a hynny yn unol â Rheolau Sefydlog.

Yn gywir

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
—
Legislation, Justice and Constitution Committee

Senedd Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565
—
Welsh Parliament
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Lesley Griffiths AS
Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru,
a'r Trefnydd

7 Rhagfyr 2022

Annwyl Lesley

**Datganiad Ysgrifenedig a osodwyd o dan Reol Sefydlog 30C – Rheoliadau Anifeiliaid ac Iechyd Anifeiliaid, Bwyd Anifeiliaid a Bwyd, Planhigion ac Iechyd Planhigion (Diwygio) 2022**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 21 Tachwedd mewn perthynas â'r Datganiad Ysgrifenedig uchod a osodwyd gennych ar yr un diwrnod, i ddisodli'r Datganiad Ysgrifenedig gwreiddiol mewn perthynas â Rheoliadau Anifeiliaid ac Iechyd Anifeiliaid, Bwyd Anifeiliaid a Bwyd, Planhigion ac Iechyd Planhigion (Diwygio) 2022 (y Rheoliadau), y gwnaethoch ei osod ar 21 Hydref.

Yn fy llythyr dyddiedig 14 Tachwedd mewn perthynas â'r Datganiad Ysgrifenedig gwreiddiol, rhannais gred y Pwyllgor y dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod unrhyw ddatganiadau ysgrifenedig a gaiff eu gosod o dan Reol Sefydlog 30C yn y dyfodol gynnwys enghreifftiau ymarferol o'r newidiadau i'w gwneud gan y Rheoliadau y maent yn berthnasol iddynt. Roedd hyn yn sgil y ffaith mai dim ond mewn gohebiaeth i'm Pwyllgor y cafodd yr enghreifftiau ymarferol hyn eu cynnwys. Rwyf felly'n cydnabod yr ymrwymiad a wnaethoch yn eich llythyr i sicrhau bod yr holl wybodaeth berthnasol a ddarperir i bwyllgorau yn cael ei chynnwys mewn Datganiadau Ysgrifenedig yn unol â'r Rheolau Sefydlog yn y dyfodol.

Yn ein cyfarfod ar 28 Tachwedd, trafodwyd y Datganiad Ysgrifenedig newydd a osodwyd gennych ar 21 Tachwedd, ac roeddem yn siomedig i ganfod nad oedd yn cynnwys enghreifftiau ymarferol o effaith y Rheoliadau.

Rwy'n gobeithio mai amryfusedd oedd hwn, a byddwn yn croesawu cadarnhad bod yr ymrwymiad a wnaethoch yn eich llythyr dyddiedig 21 Tachwedd yn wir o hyd.



Senedd Cymru
Welsh Parliament

Yn gywir

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd

# Eitem 10

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**
**Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Elin Jones AS
Llywydd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

Llywydd@senedd.cymru

27 Mehefin 2022

Annwyl Elin

Cyflwynodd Llywodraeth y DU y Bil Technolegau Genetig (Bridio Manwl) i Dŷ'r Cyffredin ar 25 Mai. Mae'r Bil yn 30 tudalen o hyd, mae'n cynnwys 48 rhan ac mae'n gymhleth ei natur. Mae'r Bil yn gweithredu polisi newydd, gwahanol, a fydd, er ei fod wedi'i gyfyngu'n enwol i Loegr, yn effeithio'n arwyddocaol ledled y DU. Mae'n torri ar draws meysydd datganoledig gan gynnwys mathau o blanhigion a hadau, addasu genetig ac iechyd a lles anifeiliaid. Mae hefyd yn effeithio'n ehangach ar economi Cymru, diogelwch masnach, bwyd a bwyd anifeiliaid ac iechyd y cyhoedd.  Mae'n Fil fframwaith sy'n rhoi pwerau is-ddeddfwriaethol sylweddol i'r Ysgrifennydd Gwladol.

Ni fu unrhyw ymgysylltiad ystyrlon gan Weinidogion y DU ar lefel Weinidogol, a dim ond yn fuan cyn i'r Bil gael ei gyhoeddi y cysylltwyd â fy swyddogion. Hefyd, dim ond hyn a hyn o fanylion sydd wedi'u rhoi i'r swyddogion am fwriadau polisi Llywodraeth y DU neu'r effeithiau tebygol y bydd y Bil yn eu cael yng Nghymru.

Rwyf yn bryderus iawn bod Llywodraeth y DU wedi dewis peidio â gweithio o fewn y Fframweithiau Cyffredin sydd ar waith mewn nifer o'r meysydd polisi hyn. Cytunwyd ar y Fframweithiau hyn ar y cyd gan bedair Llywodraeth y DU ac maent yn cael eu harchwilio ar hyn o bryd gan ddeddfwrfeydd ledled y DU. Mae'r penderfyniad hwn i beidio â gweithredu o fewn ysbryd y Fframweithiau Cyffredin yn golygu nad yw'r canlyniadau ar gyfer meysydd sydd wedi'u datganoli yng Nghymru wedi'u hystyried yn briodol. Bydd canlyniadau ehangach hefyd i farchnad fewnol y DU, i fasnach ryngwladol ac i'n rhwymedigaethau rhyngwladol.

Oherwydd y cyn lleied o ymgynghori ymlaen llaw a fu gan Lywodraeth y DU a chymhlethdod y Bil, ni fu'n bosibl eto ystyried y canlyniadau i Gymru yn llawn. Fodd bynnag, unwaith y bydd hyn wedi'i wneud a bod gennym ddarlun clir o'r canlyniadau datganoli i Gymru, efallai y bydd angen gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg.  Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh.  Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rydym eisoes y tu allan i'r terfyn amser arferol o bythefnos o dan Reol Sefydlog 29 ar gyfer gosod Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol, yn rhannol oherwydd bod Llywodraeth y DU wedi ymgysylltu'n hwyr. Dim ond ar y diwrnod cyn ei gyflwyno y rhannwyd fersiwn drafft o'r Bil gyda ni. Disgwylir i'r Mesur symud drwy Senedd y DU yn gyflym gyda'r Ail Ddarlleniad yn Nhŷ'r Cyffredin wedi'i gynnal ar 15 Mehefin, a disgwylir i gyfnod Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin ddechrau ar 28 Mehefin, ac os caiff ei basio, disgwylir i'r Bil gael Cydsyniad Brenhinol erbyn mis Rhagfyr 2022.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, Mick Antoniw AS, y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, Lesley Griffiths AS a Chadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad, Huw Irranca-Davies AS.

Yn gywir



**Julie James AS/MS**
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon